Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 03/2025

Dyddiad cyhoeddi: 11/02/2026

# Gwerthusiad Terfynol o Wasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-163-9

Awduron: Oliver Allies, Michael Pang, Benjamin Reinertz, Prabhat Vaze

Adroddiad Ymchwil Llawn: Allies, O; Pang, M; Reinertz, B; Vaze, P. (2025). Gwerthusiad Terfynol o Wasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 03/2025.

Ar gael yn: [hyperddolen: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil... ]

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....................4
Rhestr o ffigurau....................6
Rhestr o dermau....................8
1. Cyflwyniad a chefndir....................11
1.1 Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)....................12
1.2 Gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru....................13
1.3 Rhaglen Cyflymu Twf (Lefel 5)....................14
1.4 Hybiau Menter....................15
1.5 Themâu Trawsbynciol....................15
1.6 Y gwerthusiad....................16
2. Methodoleg....................18
2.1 Gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith....................20
2.2 Cyfyngiadau Methodolegol....................21
3. Rhesymeg a Chyd-destun....................24
3.1. Cyflwyniad....................24
3.2. Rhesymeg....................24
3.3. Band eang cyflym iawn....................26
3.4. Darpariaeth Busnes Cymru....................27
3.5. Targedau'r prosiectau....................28
3.5.1. SFBE....................28
3.5.2. Cymorth i BBaChau a Chymorth Entrepreneuriaeth....................29
3.5.3. Strwythurau Gweithredu a Llywodraethu....................36
3.5.4. Barn rhanddeiliaid....................36
3.5.5. Gweithgareddau hyrwyddo....................37
3.5.6. Cynnydd yn erbyn targedau....................37
3.6. Crynodeb....................53
4. Yr ymgysylltu â busnesau ac entrepreneuriaid a gymerodd ran....................54
4.1. Cyflwyniad....................54
4.1.1. Craidd a Thwf L1 i 4....................55
4.1.2. Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru (rhaglen AGP BC)....................56
4.1.3. Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)....................57

4.1.4. COVID-19 .......... 57
4.2. Proffil y mentrau a gymerodd ran .......... 58
4.2.1. Cwmpas daearyddol .......... 64
4.2.2. Proffil ymatebwyr yr arolwg .......... 67
4.3. Nodweddion yr unigolion a ddefnyddiodd rhaglen Busnes Cymru .......... 67
4.4. Ymwybyddiaeth o'r cymorth a chymhelliant dros ymwneud â'r cymorth .......... 69
4.5. Crynodeb .......... 74
5. Darparu'r Gwasanaeth .......... 75
5.1. Cyflwyniad .......... 75
5.1.1. Rhaglen Craidd a Thwf L1 i 4 .......... 76
5.1.2. Rhaglen Cyflymu Twf (AGP) BC .......... 76
5.1.3. Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn .......... 77
5.2. Mathau o gymorth a gynigiwyd .......... 77
5.2.1. Cymorth dechrau busnes .......... 78
5.3. Hyd y cymorth .......... 80
5.4. Barn am y cymorth a gafwyd .......... 81
5.4.1. Bodloni disgwyliadau .......... 84
5.4.2. COVID-19 .......... 86
5.4.3. Brexit .......... 86
5.5. Crynodeb .......... 87
6. Canlyniadau ac Effeithiau .......... 88
6.1. Cyflwyniad .......... 88
6.2. Dechrau busnes .......... 90
6.3. Creu swyddi .......... 91
6.4. Sefyllfa bresennol busnesau a gymerodd ran .......... 96
6.5. Barn rhanddeiliaid am y canlyniadau .......... 96
6.6. Cymorth yn y dyfodol .......... 97
6.7. Asesu effaith .......... 99
6.8. Aeddfedrwydd Digidol .......... 101
6.9. Crynodeb .......... 103
7. Gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith .......... 104
7.1. Cyflwyniad .......... 104
7.2. Paru Busnesau [troednodyn ] .......... 105

7.3. Proffilio’r busnesau a gafodd gymorth ... 107
7.4. Effaith y Cymorth ar Dwf Cyflogaeth ... 110
7.4.1. Effaith cymorth ar drosiant gwirioneddol ... 113
7.5. Effaith cymorth ar drosiant gwirioneddol fesul cyflogai (cynhyrchiant gwirioneddol) 115
7.6. Crynodeb ... 116
8. Crynodeb o’r Canfyddiadau ac Argymhellion Allweddol ... 117
8.1. Trosolwg ... 117
8.1.1. Cyd-destun ... 118
8.1.2. Cynnydd ... 118
8.1.3. Barn am y cymorth ... 121
8.1.4. Canlyniadau ac effaith ... 121
8.1.5. Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE) ... 122
8.1.6. Darpariaeth yn y dyfodol ... 123
9. Adran Cyfeiriadau ... 125

# Rhestr o dablau


Tabl 2.1: Dyraniad ariannol Busnes Cymru fesul prosiect .................................................. 28
Tabl 2.2: Dangosyddion targed allweddol ar gyfer Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE) .................................................. 29
Tabl 2.3: Dangosyddion targed ar gyfer Cymorth i BBaChau .................................................. 33
Tabl 2.4: Dangosyddion targed ar gyfer Cymorth Entrepreneuriaeth .................................................. 34
Tabl 2.5: Cyfanswm y dangosyddion targed ar draws prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau .................................................. 35
Tabl 2.6: Perfformiad dros amser (cyfartaledd misol): Cymorth i BBaChau .................................................. 41
Tabl 2.7: Perfformiad dros amser: Cymorth Entrepreneuriaeth .................................................. 42
Tabl 2.8: Perfformiad yn erbyn dangosyddion targed SFBE hyd at 31 Mawrth 2023 .................................................. 48
Tabl 2.9: Perfformiad yn erbyn monitro chwarterol – Cymorth i BBaChau hyd at 16 Mai 2023 .................................................. 48
Tabl 2.10: Perfformiad yn erbyn monitro chwarterol – Cymorth Entrepreneuriaeth hyd at 15 Mai 2023 .................................................. 49
Tabl 2.11: Rhagolwg cost fesul dangosydd a'r hyn a gyflawnwyd – Cymorth i BBaChau[troednodyn ] .................................................. 50
Tabl 2.12: Rhagolwg cost fesul dangosydd a'r hyn a gyflawnwyd – Cymorth Entrepreneuriaeth [troednodyn ] .................................................. 51
Tabl 2.13: Rhagolwg cost fesul dangosydd a'r hyn a gyflawnwyd – SFBE .................................................. 52
Tabl 3.1: Nifer y mentrau ac entrepreneuriaid a gymerodd ran .................................................. 59
Tabl 3.2: Dosbarthiad ymatebwyr yr arolwg yn ôl adeg ymgysylltu â darpariaeth Busnes Cymru .................................................. 67
Tabl 3.3: Proffil cleientiaid yn ôl prosiect .................................................. 68
Tabl 3.4: Demograffeg perchnogion busnes a gafodd dros chwe awr o gymorth gan Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru a rhaglen Cyflymu Twf BC .................................................. 69
Tabl 3.5: Sut daethoch chi i wybod yn wreiddiol am y cymorth? .................................................. 70
Tabl 3.6: Ymwybyddiaeth bod y cyngor neu'r cymorth wedi'i ariannu drwy'r ERDF .................................................. 70
Tabl 3.7: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich rhesymau dros gael y cymorth? (sawl dewis) .................................................. 71
Tabl 3.8: Petai'r rhaglen heb fodoli, pa mor debygol yw hi y byddech wedi chwilio am gymorth o ffynonellau eraill? .................................................. 72

Tabl 3.9: Pam wnaethoch chi fynd ar ofyn y cymorth drwy'r prosiect hwn, yn hytrach nag o ffynhonnell arall? (sawl dewis) ..... 73
Tabl 4.1: Pa rai o'r mathau canlynol o gyngor neu gymorth a gafodd eich busnes drwy'r rhaglen? (sawl dewis)..... 78
Tabl 5.1: Pa gyfraniad y mae'r cymorth a gafwyd gan y rhaglen wedi'i wneud i berfformiad eich busnes yn gyffredinol?..... 96
Tabl 5.2: Cyfran y busnesau a ymatebodd sydd â phryderon yn parhau ynghylch effaith hirdymor COVID-19..... 99
Tabl 5.3: Grwpiau aeddfedrwydd digidol yng Nghymru (2018–2020) [troednodyn ]..... 101
Tabl 6.1: Rhifau CRN yn ôl Amcan Penodol [troednodyn ] ..... 105
Tabl 6.2: Rhifau CRN yn ôl math o gymorth ..... 105
Tabl 6.3: Rhifau CRN yn ôl math o gymorth ..... 109
Tabl D1: Amcangyfrifon o effeithiau cyflogaeth ychwanegol – SFBE a Chymorth i BBaChau ..... 132
Tabl D2: Amcangyfrifon o effeithiau cyflogaeth ychwanegol – rhaglen AGP BC ..... 133
Tabl D3: Ychwanegedd trosiant gwirioneddol – Cymorth i BBaChau a SFBE ..... 134
Tabl D4: Ychwanegedd trosiant gwirioneddol – rhaglen AGP BC ..... 135

# Rhestr o ffigurau


Ffigur 2.2: Ymholiadau SFBE: Ionawr 2016 hyd at fis Medi 2022 .......................................45
Ffigur 2.3: Ymgysylltiad â digwyddiadau SFBE dros amser ................................................45
Ffigur 2.4: Darpariaeth sesiynau cymorth un-i-un SFBE dros amser ..................................46
Ffigur 2.5: Tebygolrwydd y bydd busnes yn mabwysiadu datrysiadau technoleg uchel, canolig ac isel fesul sector ...............................................................................47
Ffigur 3.1: Mentrau cyfranogol sy'n derbyn cymorth anariannol yn ôl sector diwydiannol eang ...............................................................................60
Ffigur 3.2: Proffil sectorau Craidd a Thwf L1 i 4 a rhaglen AGP BC....................................62
Ffigur 3.3: Proffil sector ymatebwyr yr arolwg yn erbyn data BAS [troednodyn ]........................63
Ffigur 3.4: Dosbarthiad rhanbarthol mentrau ac entrepreneuriaid a gymerodd ran .............64
Ffigur 3.5: Canran cyfanswm y busnesau a gefnogwyd yn ôl awdurdod lleol o gymharu â chyfanswm stoc BBaChau: rhaglenni L1 i 4 BC ac AGP BC ..................................65
Ffigur 3.6: Canran cyfanswm y busnesau a gefnogwyd yn ôl awdurdod lleol o gymharu â chyfanswm stoc BBaChau – SFBE ...............................................................66
Ffigur 3.7: Y flwyddyn cael cymorth am y tro cyntaf gan Busnes Cymru .............................67
Ffigur 4.1: Y cymorth dechrau busnes a gafwyd drwy'r rhaglen ..........................................79
Ffigur 4.2: Natur y cyngor ar redeg a thyfu busnes .............................................................80
Ffigur 4.3: Bodlonrwydd â'r cymorth ...................................................................................82

Ffigur 4.4: Bodlonrwydd ag elfennau penodol y cymorth ....................................................83
Ffigur 4.5: Hyd cyfartalog y cymorth (mewn oriau) yn ôl bodlonrwydd â'r rhaglen ...............84
Ffigur 4.6: Ar raddfa o 1–5 (gydag 1 yn 'Llawer llai na'r disgwyl' a 5 yn 'Llawer mwy na'r disgwyl'), i ba raddau ydych chi'n meddwl bod eich disgwyliadau wedi'u bodloni? . 85
Ffigur 5.1: Pa gamau, os rhai o gwbl, ydych chi wedi'u cymryd o ganlyniad i gael cymorth drwy'r rhaglen?..........................................................................................89
Ffigur 5.2: Ydych chi wedi rhoi unrhyw un o'r newidiadau canlynol ar waith yn eich TGCh? ...........................................................................................................90
Ffigur 5.3: Dosbarthiad cyflog FTE y swyddi a grëwyd .......................................................92
Ffigur 5.4: Cyflogau FTE y swyddi a grëwyd yn ôl maint y fenter ........................................92
Ffigur 5.5: Cyflogau FTE y swyddi a grëwyd yn ôl blwyddyn cofrestru â darpariaeth Busnes Cymru.............................................................................................93

Ffigur 5.6: Cyfran y swyddi a grëwyd oedd yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn dros amser yn ôl maint y sefydliad a gefnogwyd ........ 94
Ffigur 5.7: Ydych chi wedi gweld unrhyw newidiadau i'r canlynol o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd gennych yn dilyn y cymorth a gawsoch? [troednodyn ] ........ 95
Ffigur 5.8: Pa gymorth sydd ei angen ar eich busnes chi a busnesau tebyg yn ystod y 12-18 mis nesaf? ........ 98
Ffigur 6.1: Effeithiau cyflogaeth darpariaeth SFBE (AP2.3) [troednodyn ] ........ 110
Ffigur 6.2: Effeithiau cyflogaeth ar ôl cymorth sy'n targedu twf BBaCh (AP2.4) [troednodyn ] .. 111
Ffigur 6.3: Effeithiau cyflogaeth rhaglen cymorth AGP BC ar fusnesau a dargedwyd ........ 112
Ffigur 6.4: Effeithiau trosiant gwirioneddol SFBE (AP2.3) [troednodyn ] ........ 113
Ffigur 6.5: Effeithiau trosiant gwirioneddol twf BBaCh (AP2.4) ........ 114
Ffigur 6.6: Twf trosiant mewn busnesau a gefnogwyd gan AGP BC yn erbyn cymaryddion ........ 115
Ffigur D1: Newid cynhyrchiant gwirioneddol ar gyfer SFBE a Chymorth i BBaChau gyda'i gilydd ........ 133

# Rhestr o dermau

**AGP BC**

Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru (Accelerated Growth Programme)

**AP**

Amcan Penodol (Specific Objective)

**BAS**

System Cyfrifon Busnes (Business Account System)

**BBaCh**

Busnesau Bach a Chanolig eu maint (SME)

**BSD**

Cronfa Ddata Strwythur Busnesau (Business Structure Database)

**BC**

Busnes Cymru

**CIE**

Gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (counterfactual impact evaluation)

**CRM**

Rheoli cysylltiadau cwsmeriaid

**CRN**

Rhif Cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau

**DC**

Dwyrain Cymru

**DU**

Y Deyrnas Unedig

**DWP**

Adran Gwaith a Phensiynau y DU

**ERDF**

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

**ESIF**

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd

**FSB**

Ffederasiwn Busnesau Bach

**FTE**

Cyfwerth ag amser llawn

**GCC**

Gorllewin Cymru a’r Cymoedd

**GVA**

Gwerth ychwanegol gros

**ONS**

Swyddfa Ystadegau Gwladol

**PAYE**

Cynllun Talu Wrth Ennill

**PTC**

Partneriaeth Twf Cymru

**SFBE**

Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (Superfast Broadband Exploitation)

**TAW**

Treth ar Werth

**TGCh**

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

**UKSPF**

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

**WEFO**

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Ym mis Mawrth 2022, cafodd Wavehill eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad terfynol o'r rhaglen Gwasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru ac, yn benodol, y prosiectau a gynhaliwyd o dan frand Busnes Cymru yn ogystal â'r rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn. Dechreuodd pob prosiect yn 2016 gan barhau i gynnig cymorth tan 30 Ebrill 2023.

Cynhaliwyd y prosiectau drwy raglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014 i 2020 drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Mae ERDF 2014 i 2020 wedi'i rhannu yn ddwy Raglen Weithredol yng Nghymru yn seiliedig ar ddwy ardal ddaearyddol, sef Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) a Dwyrain Cymru (DC). Rhoddwyd strwythur i raglen ERDF drwy ddefnyddio Echelau Blaenoriaeth, ac mae'r prosiectau wedi'u hariannu drwy Echel Flaenoriaeth 2: *C*ystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig eu maint (BBaChau).

Mae cyfres o Amcanion Penodol (AP) i'w cael o dan bob Echel Flaenoriaeth. Mae'r AP yn nodi'r angen economaidd-gymdeithasol a'r newidiadau penodol sydd i'w cyflawni drwy fuddsoddiad y Cronfeydd Strwythurol. O fewn Echel Flaenoriaeth 2 mae rhaglenni Busnes Cymru a Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn yn mynd i'r afael â'r Amcanion Penodol canlynol:

- AP2.2: Cynyddu nifer y BBaChau sy'n dechrau o'r newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth;
- AP2.3: Cynyddu rhwydweithiau Mynediad i'r Genhedlaeth Nesaf (NGA) a seilwaith TGCh y mae BBaChau yn eu defnyddio ac yn manteisio arnynt;
- AP2.4: Cynyddu twf y BBaChau hynny sydd â'r potensial i dyfu, yn enwedig trwy gael mynediad at farchnadoedd newydd (yn ddomestig ac yn rhyngwladol).

Mae'r chwe rhaglen a ariennir o dan yr Amcanion Penodol hyn sy'n dod o fewn cwmpas y gwerthusiad wedi'u nodi isod.

Amcan Penodol 2.2 – Rhaglen

- Cymorth Entrepreneuriaeth – Busnes Cymru (GCC)
- Cymorth Entrepreneuriaeth – Busnes Cymru (DC)

Amcan Penodol 2.3 – Rhaglen

- Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (GCC)
- Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (DC)

Amcan Penodol 2.4 – Rhaglen

- Cymorth i BBaChau – Busnes Cymru (GCC)
- Cymorth i BBaChau – Busnes Cymru (DC)

Dyma'r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd o dan y rhaglenni hyn:

- Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn
- Gwasanaeth Craidd a Thwf (Lefelau 1–4) Busnes Cymru
- Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru (Lefel 5) (AGP BC)
- Hybiau Menter (GCC yn unig) Busnes Cymru.

Ceir amlinelliad o bob un o'r gwasanaethau hyn isod.

## 1.1 Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)

Fel rhan o raglen ERDF 2007 i 2013, roedd Llywodraeth Cymru (a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)) wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol i ymestyn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf neu 'gysylltedd cyflym iawn' drwy raglen Cyflymu Cymru. Yn dilyn y buddsoddi yn y seilwaith, mae prosiectau SFBE yn cefnogi busnesau i fanteisio ar dechnoleg a band eang er mwyn gwella perfformiad busnes. Eu nod yw cefnogi busnesau i ddeall y cyfleoedd busnes a'r arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael drwy fand eang cyflym iawn a sut y gallant wireddu'r manteision hyn.

Cynigir tri cham yn y cymorth:

- Cam 1: gwybodaeth, cyngor, a diagnostig cychwynnol dros y ffôn sy'n rhoi gwybodaeth ar gyfer broceru i gymorth arall

- Cam 2: gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb am tua phedair awr mewn perthynas â manteisio ar TGCh
- Cam 3: cyngor ac arweiniad un-i-un yn ogystal â chynlluniau gweithredu cysylltiedig gan gynghorydd busnes i nodi camau gweithredu penodol y gall y busnes eu cymryd i wneud gwell defnydd o gyfleoedd TGCh gyda band eang cyflym iawn

## 1.2 Gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi entrepreneuriaid (unigolion) a BBaChau yng Nghymru trwy gynnig mynediad i wybodaeth, gweithdai, cyngor ar-lein ac wyneb yn wyneb, cefnogaeth arbenigol, cefnogaeth dechrau busnes, a chyngor busnes cyffredinol. Mae Busnes Cymru yn wasanaeth Cymru gyfan ac mae ganddo ganolfannau rhanbarthol ledled Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Llanelwy, y Drenewydd, a Chaerfyrddin. Mae llinell gymorth ffôn yn cynnal asesiad cychwynnol ar anghenion y busnes ac yna'n cyfeirio buddiolwyr at wasanaethau cymorth busnes eraill. Drwy ddefnyddio detholiad o offer diagnostig a brocera cysylltiadau â'u rhwydweithiau helaeth, bydd Rheolwyr Cysylltiadau a chynghorwyr Busnes Cymru yn datblygu cynlluniau gweithredu pwrpasol i helpu busnesau i ddechrau ac/neu dyfu.

Mae cymorth i'r rheiny sy'n dechrau mewn busnes yn cynnwys:

- cyrsiau hyfforddi ar-lein
- gweithdai
- digwyddiadau
- cefnogaeth ymgynghorol
- darparu gwybodaeth
- atgyfeirio

I'r rheiny sydd eisoes yn masnachu, mae'r cymorth yn canolbwyntio mwy ar y canlynol:

- adnoddau dynol
- tendro
- masnach ryngwladol
- sgiliau
- mentora
- TGCh a digidol
- effeithiolrwydd adnoddau

- marchnata
- gweithdai

Mae lefel y cymorth a gaiff buddiolwyr yn amrywio yn dibynnu ar eu potensial i dyfu. Amrywia lefelau'r cymorth o Lefel 1 i Lefel 4. Mae lefelau'r cymorth yn berthnasol i fusnesau sy'n bodoli eisoes a'r rhai nad ydynt wedi dechrau busnes eto. Caiff y lefelau eu gwahaniaethu fel a ganlyn:

- Lefel 1 – Hunangyflogedig
- Lefel 2 – Microfusnesau (busnesau sydd â llai na phump o weithwyr ac sydd â photensial twf isel)
- Lefel 3 – Busnesau bach/canolig eu maint sydd â photensial ar gyfer twf
- Lefel 4 – BBaCh sefydledig sydd â photensial twf uchel

Cyfeirir at ddarpariaeth sydd wedi'i hanelu at y rhai a ddynodwyd yn Lefel 1 neu 2 yn ddarpariaeth 'Craidd' a chyfeirir at y ddarpariaeth a roddwyd i'r rheiny a ddynodwyd yn Lefel 3 neu 4 yn ddarpariaeth 'Twf' yng ngwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru. Cyfeirir at y ddarpariaeth hon fel Craidd a Thwf L1 i 4 drwy weddill yr adroddiad.

## 1.3 Rhaglen Cyflymu Twf (Lefel 5)

Mae rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru (AGP BC) yn cynnig cymorth pwrpasol i fusnesau cyn-refeniw a BBaCh twf uchel sy'n tyfu'n gyflym. Cynhelir y rhaglen gan dîm o entrepreneuriaid twf uchel hynod brofiadol sydd â hanes o lwyddo. Gellir cael cymorth rhaglen AGP BC dros gyfnod o hyd at dair blynedd, hyd at uchafswm o 60 awr o gymorth.

Mae'r rhaglen yn helpu busnesau i sicrhau twf drwy'r canlynol:

- hyfforddiant ac ymgynghori un-i-un
- cymorth arbenigol mewnol ar bynciau megis marchnata, allforio, logisteg, a dod o hyd i gadwyn gyflenwi
- datblygu rheolaeth
- gwasanaethau cynghori proffesiynol
- mynediad at gasgliad llawn y cymorth gan Lywodraeth Cymru

### 1.4 Hybiau Menter

Sefydlodd Busnes Cymru hefyd bum Hwb Menter Busnes Cymru ledled Cymru. Mae cyllid yr ERDF yn cefnogi rhedeg y tri Hwb yn ardal GCC: sef Ynys Môn, Caerfyrddin, a Chaerffili (mae dau Hwb arall yn DC nad ydynt yn cael eu hariannu gan yr ERDF).

Mae'r Hybiau wedi'u sefydlu fel mannau cymunedol 'ffisegol' ar gyfer busnesau newydd a rhai yn eu camau cynnar. Anogir yr hybiau i addasu eu darpariaeth i anghenion lleol ac i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ac ymateb fel rhwydwaith i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae modd i entrepreneuriaid yn yr Hybiau gael mynediad at yr ehangder o gymorth sydd ar gael gan Busnes Cymru yn ogystal â chan bartneriaid megis colegau, prifysgolion, awdurdodau lleol, a Banc Datblygu Cymru.

Comisiynwyd adolygiad penodol o Hybiau Menter ar wahân i'r ymchwil hwn. Cyfeirir at ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad hwnnw ar adegau perthnasol yn yr ymchwil hwn (gweler paragraffau 3.3 a 7.3).

### 1.5 Themâu Trawsbynciol

Mae'n ofynnol i raglenni a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol gyfrannu at gyflawni dangosyddion a thargedau Themâu Trawsbynciol WEFO. Y Themâu Trawsbynciol ar gyfer rhaglen 2014 i 2020 yw:

- Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd
- Datblygu Cynaliadwy
- Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol

Dyma ddangosyddion y themâu trawsbynciol ar gyfer Echel Flaenoriaeth 2 rhaglenni'r ERDF:

- canran y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb
- canran y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau a systemau monitro datblygu cynaliadwy

Mae cymorth datblygu gan Busnes Cymru yn arwain at hawlio'r dangosyddion targed hyn.

## 1.6 Y gwerthusiad

Mae ffocws craidd y gwerthusiad hwn ar asesu cyflawniad a pherfformiad y rhaglenni yn erbyn dangosyddion allweddol yr ERDF – sef dangosyddion allbynnau, dangosyddion themâu trawsbynciol (a'u cyfraniad at y dangosyddion canlyniad), a'r amcanion a nodir yn y cynlluniau busnes gweithredol.

Dangosyddion allbynnau:

- Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol.
- Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd.
- Nifer y mentrau newydd a gefnogwyd.
- Cynnydd mewn lefelau allforio.
- Nifer y mentrau a gefnogwyd sy'n cyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni.

Dangosyddion themâu trawsbynciol

- Nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb ac amrywioldeb (gan gynnwys systemau monitro).
- Nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau datblygu cynaliadwy (gan gynnwys systemau monitro).

Dangosyddion canlyniadau

- AP2.2 – Cyfrif genedigaethau busnesau newydd
- AP2.3 – Defnydd BbaCH o fand eang ffeibr a chebl
- AP2.4 – Cyflogaeth mewn mentrau bach (10 i 49 o gyflogeion) a chanolig (50 i 249) eu maint

Mae'r gwerthusiad hefyd am asesu'r manteision economaidd uniongyrchol ac ehangach sy'n deillio o'r cymorth. Er mwyn cyflawni'r nod hwn mae'r gwerthusiad yn ceisio:

- gwerthuso a yw nodau ac amcanion y cynlluniau busnes gweithredu unigol wedi'u cyflawni
- darparu asesiad o lwyddiant y rhaglenni yn cyflawni'r amcanion a osodwyd ar gyfer Themâu Trawsbynciol

- archwilio cyfraniad cyffredinol y rhaglenni tuag at gyflawni blaenoriaethau allweddol a strategol Llywodraeth Cymru, WEFO, a rhai rhanbarthol a lleol
- darparu diweddariad ar effeithiolrwydd prosesau rheoli'r rhaglenni, eu cynnal a'u monitro a sut mae gweithredu wedi addasu er mwyn bodloni anghenion cwsmeriaid yn yr hinsawdd bresennol
- ystyried gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (CIE) y gwasanaethau cymorth i fusnesau
- archwilio unrhyw ganlyniadau ac effeithiau ehangach yn sgil y rhaglenni
- gwneud argymhellion ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol yn ogystal ag argymhellion ar ddarparu gwasanaethau cymorth busnes

# 2. Methodoleg

Dyma'r gwerthusiad terfynol ac mae'n adeiladu ar y gwerthusiad canol tymor a gwblhawyd yn 2018. Mae'r gwerthusiad terfynol wedi'i gynnal mewn dau gam (cam interim a cham olaf), ac mae wedi cynnwys y dulliau gweithredu canlynol:

- adolygiad o ddogfennau allweddol gan gynnwys ceisiadau newid prosiectau, y gwerthusiad canol tymor, ceisiadau hawlio chwarterol ac adroddiadau cynnydd ar gyfer pob prosiect, yn ogystal ag ymchwil allweddol sy'n gysylltiedig â'r prosiectau [troednodyn 1]. Roedd yr adolygiad wedi rhoi dealltwriaeth i gyd-destun tarddiad a chynllun y prosiectau ac wedi cynnig ymdeimlad o berfformiad yn erbyn targedau dros amser. Ymhellach, mae'r adolygiad yn cynnwys adfyfyrio ar ba mor berthnasol erbyn hyn yw'r modelau rhesymeg a gyflwynwyd yn y gwerthusiad canol tymor
- aethpwyd ati i ddadansoddi gwybodaeth reoli sydd ar y System Cyfrifon Busnes (BAS) ar gyfer y cyfnod Chwefror 2015 hyd at Ionawr 2023. Rhoddodd y dadansoddiad fewnwelediad i gwmpas y data a gasglwyd a pha mor gynhwysfawr oedd y wybodaeth honno. Archwiliai'r dadansoddiad amryw o newidynnau gan gynnwys demograffeg amrywiol cwmnïau (lleoliad busnes, sector diwydiannol, maint [gweithwyr], y flwyddyn a sefydlwyd) a dangosyddion perfformiad megis cynnydd mewn cyflogaeth, oriau cymorth, cyflogau swyddi a grëwyd a lefelau allforio cynyddol (mae rhestr lawn o newidynnau i'w gweld yn Atodiad A). Ymhellach, bu'n bosibl cynnal proses paru data gyda data WEFO a ddefnyddiwyd yn yr arolwg buddiolwyr (gweler isod) a hynny wedi rhoi mewnwelediad pellach i natur y buddiolwyr busnes a ymatebodd i'r arolwg hwnnw. Dechreuwyd ar y paru drwy ddefnyddio Rhif Cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau (CRN), fodd bynnag roedd bylchau sylweddol yn y ddwy set ddata o ran casglu'r rheiny y tu hwnt i'r rhai a oedd wedi ymgysylltu â'r cymorth cyn dechrau busnes (roedd 44% o'r rheiny a gefnogwyd drwy AP2.4 er enghraifft â rhifau CRN ar goll yn set ddata WEFO). O'r herwydd defnyddiwyd paru niwlog [troednodyn 2] yn sail i'r paru data ac i fynd i'r afael â'r bylchau yn y paru data. Defnyddiwyd enwau cwmnïau, e-byst a rhifau ffôn ar gyfer y paru niwlog. Gyda'i gilydd, arweiniodd y

[1] Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, Uned Ymchwil i Economi Cymru (2020) *Arolwg Aeddfedrwydd Digidol Cymru ar gyfer 2020*, yr arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau Busnes Cymru, a Munday, M. a Roche, N. (2021) *Adroddiad Mesur effaith economaidd Busnes Cymru.*
[2] Mae paru niwlog (*fuzzy matching*) yn dechneg a ddefnyddir i gymharu dwy set o ddata a phennu pa mor debyg ydyn nhw, hyd yn oed os nad yw'r data yn cyfateb yn union. Mae'n arbennig o ddefnyddiol wrth ymdrin â setiau data mawr a all gynnwys amrywiadau sillafu, teipio, neu anghysondebau bychain eraill.

broses paru data at baru 79% o gofnodion yr arolwg (718/909). Roedd yr ymarfer paru wedi galluogi categoreiddio busnesau a ymatebodd i weld a oeddent wedi derbyn cymorth Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru neu gymorth rhaglen Cyflymu Twf BC L5

- cynhaliwyd cyfres o chwe chyfweliad cwmpasu ym mis Awst/Medi 2022 trwy fideo gynadledda neu dros y ffôn i gael dealltwriaeth bellach o'r rhaglenni, y profiadau wrth eu cynnal, unrhyw addasiadau i fodelau cyflenwi ers y gwerthusiad canol tymor, ac unrhyw flaenoriaethau ar gyfer y gwerthusiad
- cynhaliwyd arolwg i fuddiolwyr fel rhan o werthusiad arall a oedd wedi canolbwyntio ar bedwar Amcan Penodol: AP1.2, AP2.2, AP2.3 ac AP2.4. Cynhaliwyd dadansoddiad cychwynnol o'r 1,014 o ymatebion i'r arolwg ar gyfer y tri AP sydd dan sylw yn yr astudiaeth hon a chyflwynwyd y dadansoddiad hwnnw yn y cam canfyddiadau interim. Cynhaliwyd y dadansoddiad cyn echdynnu is-set o ddata o'r AP hyn yn benodol ar gyfer buddiolwyr SFBE a Busnes Cymru. Arweiniodd echdynnu'r is-set honno o ddata at 909 o ymatebion i'r arolwg gan gyfranogwyr rhaglenni Busnes Cymru. Dadansoddwyd data'r arolwg hwn fel rhan o gam olaf y gwerthusiad hwn ac fe'i cyflwynir yn yr adroddiad hwn
- roedd y gwerthusiad o Gymorth Busnes yr ERDF hefyd yn cynnwys gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (CIE) ar gyfer y pedwar Amcan Penodol (mae manylion pellach am y dull gwerthuso'r gwrthffeithiol i'w cael isod). Cynhaliwyd y gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith ar gyfer gwerthuso'r Cymorth Busnes ar draws y pedwar AP ac yna fesul AP. Cyflwynwyd dadansoddiad cychwynnol o'r tri AP (AP2.2, 2.3 a 2.4) yn ystod y cam canfyddiadau interim. Gwnaed gwelliannau dilynol i'r gwerthusiad gwrthffeithiol hwnnw; ymhellach, mae asesiad gwerthusiad gwrthffeithiol ychwanegol wedi'i gynnal fel rhan o'r gwerthusiad hwn gan ddefnyddio is-set o ddata sy'n benodol i ddadansoddi'r busnesau cyfranogol hynny sydd wedi cael cymorth drwy raglen Cyflymu Twf (AGP) BC
- cynhaliwyd dadansoddiad ychwanegol o ddata'r rhaglenni drwy ddefnyddio data'r System Cyfrifon Busnes (BAS) ar gyfer pob un o'r rhaglenni hyd at 31 Ionawr 2023. Roedd hyn wedi galluogi dadansoddi patrymau perfformiad y rhaglenni ac fe'i cyflwynir yn adran 5

- holwyd 19 o randddeiliaid oedd â phersbectif strategol ar y ddarpariaeth yn ogystal â naw rhanddeiliad a oedd yn gysylltiedig â rheoli a darparu gwasanaethau. Gwnaed yr ymgynghoriadau hyn dros y ffôn a thrwy fideogynadledda yn ystod Mawrth ac Ebrill 2023 (mae rhestr o sefydliadau allanol a gymerodd ran yn y gwerthusiad i'w gweld yn Atodiad B). Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid strategol er mwyn cael safbwynt gwybodus ar gynnydd a llwyddiant y rhaglenni. Cynhaliwyd ymgynghoriadau hefyd â rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau drwy'r rhaglenni er mwyn cael gwybodaeth am yr adolygiad ar y broses a wnaed fel rhan o'r gwerthusiad canol tymor

## 2.1 Gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith

Cynhaliwyd gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (CIE) i archwilio cyflogaeth ar lefel cwmnïau ac effeithiau trosiant ymhlith y busnesau a oedd yn rhan sydd wedi'u cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau ac ar gyfer Treth ar Werth (TAW) neu'r Cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE). Roedd y gwerthusiad gwrthffeithiol hefyd wedi archwilio codi arian (sicrhau buddsoddiad allanol) mewn busnesau (sy'n rhoi arwydd o gyfeiriad twf busnes fel procsi ar gyfer arloesi) a chyflogau cyfartalog y busnesau sy'n cymryd rhan (fel dangosydd o ansawdd y gyflogaeth).

Yn y gwerthusiad gwrthffeithiol, yn ogystal â deall perfformiad y busnesau a gefnogwyd, cesglir tystiolaeth o'r hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y cymorth drwy archwilio busnesau tebyg nas cefnogwyd fel meincnod (y grŵp gwrthffeithiol neu'r grŵp cymharu). Mae'r dadansoddiad yn defnyddio Cronfa Ddata Strwythur Busnesau (BSD) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a data arall ar lefel cwmnïau. Mae'r BSD yn llunio ciplun bob blwyddyn o Gofrestr Busnesau'r ONS. Mae'r gofrestr yn cynnwys pob busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac/neu dreth incwm PAYE ac, felly, mae'n cynnwys pob busnes sylweddol sy'n gweithredu yn y DU. Caiff y BSD ei diweddaru'n flynyddol ac, felly, mae'n darparu ystod eang o newidynnau economaidd sy'n cael eu casglu'n gyson ar gyfer busnesau dros amser. Mae'r newidynnau a gesglir yn cynnwys oedran busnes, trosiant, cyflogaeth, sector ac a yw'r busnes yn dal i fodoli (goroesi). Mae hyn yn golygu y gellir dod o hyd i ddata cymaradwy ar gyfer busnesau yng Nghymru a gefnogir gan yr ERDF yn ogystal â busnesau eraill yn y DU a all weithredu fel y gwrthffeithiol.

Defnyddiwyd paru sgorau tueddiad (PSM) i nodi'r gwrthffeithiol. Gall hyn wedyn fod yn sail ar gyfer dadansoddiad gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau (DiD) i ddeall a yw'r twf a welwyd mewn busnesau a gefnogwyd a'r grŵp rheoli (y gwahaniaeth cyntaf) yn sylweddol

wahanol cyn ac ar ôl y cymorth (yr ail wahaniaeth). Mae unrhyw wahaniaeth sylweddol yn amcangyfrif o effeithiau ychwanegol y cymorth.

## 2.2 Cyfyngiadau Methodolegol

Roedd paru data'r System Cyfrifon Busnes â data gan WEFO (a data WEFO oedd ffynhonnell y data i gael cysylltiadau ar gyfer Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF) wedi'i danseilio gan gyfuniad o rifau cofrestru cwmni anghywir ac anghyflawn (CRN) a oedd yn golygu bod angen defnyddio paru niwlog, nid oedd yn bosibl cyfateb 22% o'r busnesau a gymerodd ran.

Yn sgil paru data a gedwid ar y busnesau a gymerodd ran yn Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF llwyddwyd i gynnal dadansoddiad ychwanegol ar ymatebion yr arolwg i nodi pa gyfran o ymatebwyr yr arolwg a gymerodd ran yn Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru a pha gyfran gymerodd ran yn rhaglen Cyflymu Twf (AGP) BC L5 [troednodyn 3]. Nododd y dadansoddiad, er bod 619 o ymatebwyr wedi cymryd rhan yn Craidd a Thwf BC L4 dim ond 14 oedd wedi ymwneud â rhaglen AGP BC (2% o sampl rhaglenni Busnes Cymru). Mae hyn er bod cyfranogwyr rhaglen AGP BC yn 8% (886/11,470) o holl gyfranogwyr Busnes Cymru mewn prosiectau AP2.2 neu AP2.4 [troednodyn 4] yn ôl data BAS y mae gennym fynediad iddo.

Mae cyfradd ymateb isel rhaglen AGP BC yn ymwneud â ffrâm y sampl a ddefnyddiwyd yn yr arolwg busnes. Gwnaethpwyd y penderfyniad i gyfyngu ffrâm y sampl i fusnesau a gafodd gymorth ym mlynyddoedd olaf y rhaglen (o fis Mawrth 2019 ymlaen). Mabwysiadwyd y dull hwn gyda'r ddealltwriaeth y byddai'n cryfhau'r broses o gofio am y cymorth ac yn rhoi ymatebion mwy cywir i gwestiynau, tra hefyd yn amlygu a galluogi cymharu rhwng y farn am y cymorth cyn ac ar ôl COVID-19. Fodd bynnag, roedd 78% o gleientiaid rhaglen AGP BC wedi cofrestru yn y gwasanaeth cyn Mawrth 2019 (o gymharu â 40% o gleientiaid Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru) ac, felly, wedi'u heithrio o ffrâm y sampl. Ni wyddai'r gwerthuswyr hyn ar adeg dylunio ffrâm sampl yr arolwg ac roedd yn golygu bod y mwyafrif o gleientiaid rhaglen AGP BC yn anfwriadol wedi'u heithrio o'r arolwg.

Ar ôl sylweddoli bod y rhan fwyaf o gleientiaid rhaglen AGP BC yn anfwriadol wedi'u gadael allan o'r arolwg, cynigiwyd nifer o opsiynau i Lywodraeth Cymru. Roedd yr opsiynau'n

[3] Nid yw data a gyflwynir i WEFO Ar-lein a ddarparwyd fel rhan o gontractau Cymorth Busnes yr ERDF yn cynnwys dadansoddiad o'r math o gymorth a gafwyd na hyd cyfnod y cymorth hwnnw.
[4] Nid yw'r amcangyfrif hwn yn cyfrif am gofnodion dyblyg yn nata'r System Cyfrifon Busnes (BAS).

cynnwys arolwg wedi’i dargedu at y garfan hon i sicrhau eu bod yn gynrychioliadol o boblogaeth yr arolwg. Codwyd pryderon gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r gwerth cymharol y byddai hyn yn ei gynhyrchu o’i gymharu â’r risg o flinder ymgynghori ac yn y pen draw ni chynhaliwyd yr arolwg.

Roedd hefyd nifer o gyfyngiadau yn gysylltiedig â’r arolwg busnes fel yr amlinellwyd yn y gwerthusiad o Gymorth Busnes yr ERDF [troednodyn 5]. Wrth gynllunio’r arolwg, codwyd pryderon ynghylch ei hyd a chymhlethdod rhai setiau o gwestiynau (pwysai’r arolwg ei hun yn helaeth ar arolwg a gynhaliwyd fel rhan o’r gwerthusiad canol tymor). Rhaid gosod hyn hefyd yn erbyn cefndir o ostyngiad yn y nifer sy’n ymateb i arolygon, a hynny wedi’i briodoli’n rhannol i flinder ymgynghori sy’n gysylltiedig ag ymchwil sylfaenol helaeth i fusnesau yn ystod pandemig COVID-19 a’r cynnydd yn nifer yr achosion o weithio o bell. Arweiniodd hyn at symleiddio (dileu rhai cwestiynau).

Roedd y casgliad o gwestiynau ynghylch priodoledd (attribution) yn un o’r meysydd a symleiddwyd. Yn sgil llai o wybodaeth yn yr arolwg wrth gael ymatebwyr eu hunain yn priodoli effaith, cyfyngwyd ar y gallu i gynnal gwerthusiad o effaith hunangofnodedig y cymorth. Fodd bynnag, nid yw effeithiau hunangofnodedig yn cael eu hystyried yn ddulliau priodol o briodoli ac asesu. Nid yw’r dull yn cofrestru ar Raddfa Dulliau Gwyddonol Maryland (sy’n graddio gwerthusiadau polisi o 1 [lleiaf cadarn] i 5 [mwyaf cadarn]), tra bod y dull gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE) a ddisgrifiwyd yn flaenorol yn yr adran hon wedi’i raddio ar Lefel 3. [troednodyn 6]

Roedd y dull gwrthffeithiol hefyd yn defnyddio rhifau CRN fel y dynodwyr unigryw ar gyfer paru data. Dim ond 5.4% o’r rhai a gefnogwyd drwy brosiectau AP2.2 (cymorth entrepreneuriaeth) a oedd yn cynnwys rhifau CRN gan felly gyfyngu ar y graddau y gellid eu cynnwys ym modelu’r gwrthffeithiol. Felly mae’r effaith ar gyfranogwyr prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth yn deillio’n bennaf o effeithiau hunangofnodedig a gwybodaeth reoli.

[5] Ibid.
[6] Gweler manylion gwahanol lefelau Graddfa Maryland

Mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- yn Adran 2 ceir trosolwg o'r cyd-destun a'r rhesymeg yn ogystal â chynnydd rhaglenni Busnes Cymru
- mae Adran 3 yn rhoi manylion ynghylch sut mae'r busnesau a'r entrepreneuriaid a gymerodd ran wedi ymgysylltu â'r cymorth, a phroffil pwy ydynt
- archwilia Adran 4 y math o gymorth a gafwyd a'r farn am y cymorth hwnnw
- mae Adran 5 yn dadansoddi'r canlyniadau, y deilliannau, a'r camau nesaf sy'n deillio o'r cymorth
- mae Adran 6 yn manylu ar werthusiad gwrthffeithiol o effaith ar gyfer y gwasanaeth
- yn Adran 7 ceir crynodeb o'r canfyddiadau ynghyd â chyfres o gasgliadau ac argymhellion

# 3. Rhesymeg a Chyd-destun

## 3.1. Cyflwyniad

Mae’r adran hon yn archwilio rhesymeg, tarddiad a chefndir yr hyn a gynigir gan Busnes Cymru, gan roi cipolwg ar y rhesymeg y tu ôl i’w ddyluniad a’i strwythur gweithredu.

## 3.2. Rhesymeg

Wrth archwilio’r rhesymeg y tu ôl i’r gwahanol raglenni, cyfeiriodd y gwerthusiad canol tymor at y bwlch parhaus mewn cynhyrchiant rhwng economi Cymru ac economi’r DU yn ei chyfanrwydd. Ymhellach, cyfeiriodd at y gwahaniaeth mewn cynhyrchiant rhwng awdurdodau lleol yn GCC (a oedd â GVA fesul pen £9,200 yn is na chyfartaledd y DU) a’r rhai yn DC (a oedd £4,300 yn is na chyfartaledd y DU) a disgrifiodd sut yr oedd gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru ar ei hôl hi o gymharu â chyfartaledd y DU.

I fynd i’r afael â’r materion hyn, roedd cyllid yr ERDF yn rhaglen 2007–2013 yr ERDF wedi buddsoddi mewn dwy raglen:

- Rhaglen Ymgysylltu â Chwsmeriaid, a oedd yn cynnig gwasanaethau cymorth busnes i BBaChau a oedd yn bodoli eisoes, drwy wefan Cymorth Hyblyg i Fusnes, cymorth dros y ffôn a gwasanaeth cynghori wyneb yn wyneb.
- Rhaglen Cymorth Dechrau Busnes Newydd, a oedd yn cynnig cymorth cyn dechrau i fuddiolwyr hunangyflogedig a chymorth cyn ac ar ôl dechrau i fusnesau newydd oedd â photensial i dyfu a graddedigion sy’n dechrau busnes. Roedd y gwasanaeth yn cynnal sesiynau blasu, gweithdai, cymorthfeydd un-i-un, a chyngor a mentora dwys un-i-un.

Un bwriad i’r gwerthusiad ar y Prosiect Ymgysylltu â Chwsmeriaid a ariannwyd gan ERDF 2007–2013 oedd adolygu rhaglen Busnes Cymru a gosod fframwaith ar gyfer darparu cymorth busnes yn y dyfodol yng Nghymru.

Argymhellodd gwerthusiad y gwasanaethau hyn y dylid cynnig cymorth i BBaChau ac entrepreneuriaid presennol o dan un brand Busnes Cymru. Yn y gwerthusiad argymhellwyd hefyd y dylai nod cyffredinol Busnes Cymru wrth symud ymlaen fod i “gefnogi creu busnesau, eu cystadleurwydd, eu cynhyrchiant a’u twf yng Nghymru”. Nododd y dylai amcanion penodol Busnes Cymru wrth symud ymlaen fod fel a ganlyn:

- bod y porth i ddarpar fusnesau a busnesau presennol yng Nghymru gael mynediad rhwydd at ystod o wasanaethau cymorth a ariennir yn gyhoeddus
- bod yn fecanwaith cydgysylltiedig a rhagweithiol ar gyfer darparu ystod o wybodaeth, cyngor, arweiniad, hyfforddiant, ac ambell wasanaeth cymorth ariannol i fusnesau yng Nghymru o dan un brand cydlynol
- annog a chynyddu cyfranogiad y sector preifat wrth gefnogi busnesau Cymreig
- gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig â phartneriaid cydgynhyrchu eraill yn y sector cyhoeddus a’r trydydd sector i ddiwallu anghenion cymorth sydd gan fusnesau Cymru

Ymhellach, argymhellodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficrofusnesau – a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi cyngor ac arweiniad ar strategaeth ar gyfer cefnogi microfusnesau yng Nghymru – y dylai Llywodraeth Cymru:

- symleiddio’r system a lleihau nifer y darparwyr cymorth busnes sydd yn y sector cyhoeddus
- mynd ati’n weithredol i hyrwyddo cael gafael ar y gwasanaethau cymorth busnes a dod yn fwy ymwybodol ohonynt
- creu un brand cydnabyddedig ar gyfer cael gafael ar gymorth busnes (cyhoeddus/preifat)
- datblygu rhwydwaith o ‘siopau un stop’ i ficrofusnesau gael cymorth uniongyrchol/anuniongyrchol ledled Cymru
- ehangu’r Gwasanaeth Canolfannau Rhanbarthol presennol i greu siop un stop i ficrofusnesau yng Nghymru

Roedd yr argymhellion hyn wedi bod yn sail i ddyluniad Gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru. Yn y cynllun busnes ar gyfer y prosiectau, nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod Busnes Cymru o ran ei wyneb cyhoeddus ac allanol, mor gyson, syml a chlir â phosibl yn y ffordd y mae’n cael ei gyflwyno i gwsmeriaid BBaCh ac entrepreneuriaid. Mae hyn yn

golygu, er ei bod yn anochel y bydd haenau o gymhlethdod 'y tu ôl i'r llenni' i'r hyn y mae'r cwsmer yn ei weld, dylai'r ffordd yr eir â'r 'cynnig' i'r farchnad a llwybr y cwsmer i mewn i'r gwasanaeth fod mor gyson a syml â phosibl. [troednodyn 7]

Roedd prosiect Cymorth Entrepreneuriaeth – Busnes Cymru (BC) ynghyd â phrosiect Cymorth i BBaChau BC wedi ffurfio rhan o weithgareddau asgwrn cefn y cymorth busnes y manylir arnynt yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd. Roedd creu grŵp cychwynnol o brosiectau asgwrn cefn strategol yn argymhelliad yn Adolygiad Guilford ar gyfer y prosiectau hynny a allai ddangos potensial clir i gyflawni amcanion allweddol yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd yn gynnar.

## 3.3. Band eang cyflym iawn

Yn 2013, roedd mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf (NGB) ac argaeledd band eang cyflym iawn (cyflymder gwirioneddol at y cwsmer o 30Mbit yr eiliad neu uwch) ar ei isaf yng Nghymru o holl ranbarthau'r DU (48% o gymharu â chyfartaledd y DU o 73%, er bod hyn wedi codi o 37% flwyddyn ynghynt). Roedd Cytundeb Partneriaeth y DU, a roddodd dystiolaeth a chyfiawnhad dros yr angen am ddarpariaeth cymorth, wedi cydnabod na fydd y farchnad yn diwallu'r her o gyflwyno seilwaith TGCh i'r ardaloedd daearyddol ymylol a mwy heriol (sef gan amlaf y rhai sy'n brin eu poblogaeth ac sydd â thirwedd heriol), ac felly bod angen buddsoddiad sylweddol gan yr ERDF. Felly, cynhaliwyd rhaglen Cyflymu Cymru 2007 i 2013, a hon wedi ceisio sicrhau band eang y genhedlaeth nesaf i 96% o'r 1.4m o adeiladau Cymru erbyn haf 2016.

Ar gyfer rhaglen 2014 i 2020, cynlluniwyd SFBE ar y sail y byddai argaeledd band eang yn gyffredinol (ar y dybiaeth y byddai Cyflymu Cymru i raddau helaeth yn llwyddo i'w ddarparu). Ar gam dylunio'r rhaglen, pan oedd seilwaith band eang wedi'i gwblhau, roedd cydnabyddiaeth nad oedd llawer o fusnesau'n ymwybodol ei fod ar gael neu'n anghyfarwydd â'i fudd posibl i'w sefydliad. Llywiwyd prosiect SFBE felly gan dybiaeth fod band eang ar gael a phwyslais ar ymelwa ar y seilwaith newydd hwnnw (i lawer).

[7] Llywodraeth Cymru (2016) *Busnes Cymru – Cymorth i BBaCh Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Ebrill 2015–Mawrth 2020 Achos Busnes Llawn*, Llywodraeth Cymru.

## 3.4. Darpariaeth Busnes Cymru

Yn ogystal â gwasanaeth Craidd a Thwf L1 i 4 BC, rhaglen AGP BC, a SFBE, câi elfennau cymorth eraill hefyd eu cynnig o dan frand Busnes Cymru. Llinell gymorth Busnes Cymru yw'r man cychwyn i'r rhan fwyaf o fusnesau sydd angen cymorth. Nhw yw'r porth i gymorth busnes, gyda'r llinell gymorth yn cyfeirio busnesau at y meysydd mwyaf perthnasol i gael cymorth. Cafodd cyfres arall o gymorth dan frand Busnes Cymru gyllid yr ERDF hyd at fis Rhagfyr 2019 gan barhau wedyn drwy gyllid craidd Llywodraeth Cymru yn unig. Roedd hyn yn cynnwys:

- Digidol Busnes Cymru (gan gynnwys GwerthwchiGymru a Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein)
- Marchnata Busnes Cymru
- Entrepreneuriaeth Ieuenctid Busnes Cymru – sydd â'r nod o ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid Cymru drwy roi cymorth ac arweiniad i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd â diddordeb mewn dechrau eu busnes eu hunain. Mae'r rhaglen yn cynnig ystod o adnoddau gan gynnwys cyngor a hyfforddiant, mentora, cyfleoedd rhwydweithio, a mynediad at gyllid.
- Eco-System Entrepreneuraidd (REAP), sydd â'r nod o sbarduno rhanddeiliaid i gymryd camau tuag at greu tirlun mwy entrepreneuraidd yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys yr ymgyrch Creu Sbarc i farchnata'r fenter i randdeiliaid.
- Strategaeth a Chynllunio Busnes Cymru, sy'n ariannu gweithgarwch ymchwilio a gwerthuso

Er bod yr elfennau ychwanegol hyn wedi'u hariannu i ddechrau arni gan yr ERDF, nid oeddent yn cyfrannu at gyflawni dangosyddion targed yr ERDF. Teimlwyd felly y dylid eu tynnu o gyfres prosiectau Busnes Cymru a ariennir gan yr ERDF (a gynhaliwyd yn 2018) er mwyn caniatáu mwy o ffocws ar y gweithgareddau hynny a fyddai'n cyflawni yn erbyn y dangosyddion hynny.

Dechreuodd yr holl brosiectau a amlinellir yn Nhabl 2.1 yn gynnar yn 2016 ond cymeradwywyd gwariant ôl-weithredol o ddechrau 2015. Y dyddiad gorffen gwreiddiol ar gyfer yr holl brosiectau oedd 31 Mawrth 2020, a sicrhawyd estyniadau wedi hynny a oedd yn golygu bod yr holl brosiectau wedi rhedeg tan 30 Ebrill 2023 yn y pen draw. Roedd y cyfiawnhad dros yr estyniadau yn ymwneud â'r angen i sicrhau parhad gwasanaethau i

fusnesau trwy gyfnod arwyddocaol o newid economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol yn sgil penllanw pandemig COVID-19, cyfnod pontio'r UE, ac ansicrwydd gwleidyddol. Ymhellach, roedd yr estyniadau'n adlewyrchu'r ffaith nad oedd, o ganlyniad i COVID-19, ddigon o gapasiti staffio i ddechrau a chwblhau'r broses o gaffael gwasanaeth newydd Busnes Cymru erbyn dyddiad diwedd y rhaglen. Y gobaith oedd y byddai'r amser ychwanegol y gofynnwyd amdano yn ddigon i ganiatáu i lefelau capasiti yn yr adran berthnasol ddychwelyd i normal [troednodyn 8].

**Tabl 2.1: Dyraniad ariannol Busnes Cymru fesul prosiect**

| Prosiect | Cost y Prosiect (gwreiddiol) | Cost y Prosiect (estyniad) | Newid yn y Gost | |
|---|---:|---:|---:|---:|
| | | | £ | % |
| Cymorth Entrepreneuriaeth (DC) | £10,333,119 | £9,363,009 | -£970,110 | -9.4 |
| Cymorth i BBaChau (DC) | £11,123,245 | £17,173,059 | £6,049,814 | 54.4 |
| Cymorth Entrepreneuriaeth (GCC) | £30,999,787 | £39,374,710 | £8,374,923 | 27.0 |
| Cymorth i BBaChau (GCC) | £33,328,037 | £45,699,803 | £12,371,766 | 37.1 |
| SFBE (GCC) | £8,575,153 | £10,871,721 | £2,296,568 | 26.8 |
| SFBE (DC) | £3,534,847 | £4,077,419 | £542,572 | 15.3 |
| **Cyfanswm cyllid** | **£97,894,188** | **£126,559,721** | **£28,665,533** | **29.3** |

Ffynhonnell: Llythyrau Cynnig Grant WEFO ac Adendwm i Gynllun Busnes Llywodraeth Cymru Fersiwn 7

## 3.5. Targedau'r prosiectau

### 3.5.1. SFBE

Mae Tabl 2.2 isod yn cyflwyno dwy set o dargedau ar gyfer prosiect SFBE. Y targedau gwreiddiol yw'r rhai a nodir yn y llythyr cynnig ym mis Medi 2015 (ac a dderbyniwyd yn Hydref 2015), a'r targedau diweddaraf yw'r rhai y cytunwyd arnynt yn Hydref 2021 fel rhan o'r estyniad i amserlen y prosiect.

[8] Addaswyd o (heb ei gyhoeddi) *Adendwm i'r Achos Busnes Fersiwn 3* (hyd at Hydref 2022) ac Adendwm i'r Achos Busnes Fersiwn 7 (hyd at fis Mawrth 2023).

Yn ogystal â’r ailbroffilio ym mis Hydref 2021, cynhaliwyd ailbroffiliau o SFBE ym mis Medi 2018 a mis Rhagfyr 2020 i adlewyrchu estyniadau i’r amserlen ar gyfer cyflawni prosiectau. Arweiniodd yr estyniadau hyn at ddiwygiadau i ddangosyddion targed a dyraniadau cyllid. Dengys Tabl 2.2 isod gynnydd o 15 i 16% yn y dangosyddion targed yn GCC a chynnydd o 18.5% yn DC o gymharu â’u dangosyddion targed gwreiddiol.

**Tabl 2.2: Dangosyddion targed allweddol ar gyfer Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)**

| GCC | Gwreiddiol | Estyniad | Addasiad |
|---|---|---|---|
| Nifer y mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol | 3,823 | 4,384 | 14.7% |
| Nifer y mentrau a gefnogwyd sy’n cyflwyno cynhyrchion newydd i’r cwmni | 1,480 | 1,709 | 15.5% |
| **DC** | | | |
| Nifer y mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol | 1,094 | 1,296 | 18.5% |
| Nifer y mentrau a gefnogwyd sy’n cyflwyno cynhyrchion newydd i’r cwmni | 400 | 474 | 18.5% |

### 3.5.2. Cymorth i BBaChau a Chymorth Entrepreneuriaeth

Mae Tabl 2.3 a Thabl 2.4 isod yn cyflwyno’r prif ddangosyddion targed ar gyfer y rhaglenni Cymorth i BBaChau a Chymorth Entrepreneuriaeth. Mae’r dangosyddion targed yn y tablau yn cynrychioli’r targedau gwreiddiol ar gyfer y prosiectau fel y’u cyflwynwyd yn llythyr cynnig Chwefror 2016 (ac a dderbyniwyd ym mis Gorffennaf 2016), a’r dangosyddion targed diweddaraf yn dilyn ailbroffilio ac estyn y rhaglenni hyd at 30 Ebrill 2023.

Gwnaed cyfres o addasiadau i’r dangosyddion targed a’r gwariant dros gyfnod y rhaglen. Ym mis Ebrill 2018, gofynnodd WEFO i dîm Rheoli Rhaglenni Busnes Cymru Llywodraeth Cymru sy’n rheoli rhaglenni Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau fynd ati i adolygu’r gwariant hyd yma ac ailbroffilio gwariant yn seiliedig ar ofynion cymorth yn y dyfodol hyd at fis Mawrth 2020.

Ym mis Rhagfyr 2018, gwnaed cais pellach gan WEFO i adolygu gwariant a pherfformiad dangosyddion perfformiad allweddol hyd yma yn y rhaglenni. Mae’r Adendwm cyfatebol i’r Cynllun Busnes [troednodyn 9] yn nodi’r angen i adolygu sawl dangosydd targed. O ran cynnydd

[9] Llywodraeth Cymru (2019) Adendwm i Achos Busnes, Busnes Cymru (Fersiwn 3.4) Ionawr 2019-Rhagfyr 2023 (heb ei gyhoeddi).

mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd, tua adeg canol y rhaglen, roedd Cymorth i BBaChau yn perfformio’n dda ar tua dwy ran o dair o’i darged cytundebol. O ran Cymorth Entrepreneuriaeth, fodd bynnag, roedd y prosiectau’n perfformio ar tua 20% o’r targed cytundebol, gan ysgogi adolygiad. Ymhellach, roedd y dangosydd ar gyfer mentrau newydd a gefnogwyd ar tua 15% o’r targed cytundebol ledled y ddau brosiect entrepreneuriaeth. Roedd y diffyg yn gysylltiedig â nifer o faterion:

- amodau macro-economaidd yng Nghymru a’r DU. Roedd y targedau ar gyfer y prosiectau yn ymestynnol ac yn seiliedig ar berfformiad hanesyddol. Fodd bynnag, oherwydd cyfraddau cyflogaeth uwch a chyfraddau diweithdra is nid oedd gymaint o angen am weithgarwch entrepreneuraidd. Ymhellach, roedd cynllun Lwfans Menter Newydd [troednodyn 10] DWP wedi darparu cynnig cymhellol i entrepreneuriaid seiliedig-ar-angen [troednodyn 11] ac yn debygol o fod wedi denu darpar gyfranogwyr i’r ddarpariaeth honno
- methu cofnodi’r holl fentrau newydd a’r holl fentrau a gefnogir (mater a effeithiodd ar raglenni Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau ill dau). Er y rhoddwyd caniatâd i gasglu dangosyddion perfformiad yn erbyn contractau hanesyddol yn ôl-weithredol, ni chofnodwyd unrhyw allbynnau yn erbyn y pedwar prosiect yn ystod y naw mis cyntaf, er gwaethaf cynnal a chyflawni dangosyddion. O ganlyniad i newidiadau ym meini prawf cymhwysedd ERDF (o gymharu â rownd flaenorol y Cronfeydd Strwythurol) ni allai Busnes Cymru ddarparu digon o dystiolaeth mewn perthynas â’r dangosyddion a gyflawnwyd i fodloni gofynion yr UE. Ymhellach, deellir bod y ffigurau targed gwreiddiol ar gyfer mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol wedi’u cyfrifo ar y rhagdybiaeth y gellid cyfrif cymorth ddwywaith os y’i rhoddir fwy nag unwaith; er hynny, ni ellid mewn gwirionedd ond eu cyfrif unwaith

Dywedodd tîm rhaglen Busnes Cymru eu bod wedi sôn wrth WEFO fod y targedau sy’n gysylltiedig â’r dangosyddion perfformiad allweddol yn heriol ac, o edrych yn ôl, yn rhy uchelgeisiol. Roeddent yn seiliedig ar berfformiad yn y rhaglen flaenorol a dywedwyd eu bod yn cael eu hystyried yn dargedau ymestynnol ar y cychwyn er mwyn cryfhau’r gobaith o sicrhau cyllid. Ar adeg lansio’r rhaglen, nid oedd y meini prawf cymhwysedd diffiniedig ar gyfer cymorth i ddechrau busnes wedi’u cyhoeddi gan WEFO. Ar ôl eu cyhoeddi teimlwyd

[10] Sylwer bod y cynllun wedi cau ar 1af Ionawr 2022.
[11] Llywodraeth Cymru (2019) *Adendwm i Achos Busnes, Busnes Cymru (Fersiwn 3.4) Ionawr 2019- Rhagfyr 2023* (heb ei gyhoeddi).

bod y gofynion yn llymach nag a ragwelwyd wrth lunio'r ffigurau, gan ddylanwadu ar raddfa'r dangosyddion targed y gellid eu cyflawni yn ogystal â'r casgliad dangosyddion ôl-weithredol.

Roedd maes arall a nodwyd yn Adendwm i Gynllun Busnes 2019 [troednodyn 12] yn sôn am ddiffyg yn y perfformiad yn erbyn dangosyddion targed yn ymwneud â chyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad themâu trawsbynciol. Disgrifir y rhain yn yr Adendwm i fod yn rhai hynod heriol, gyda llai na 10% o'r targed cytundebol wedi'i gyflawni ar draws holl raglenni Cymorth i BBaChau a Chymorth Entrepreneuriaeth. Arweiniodd y diffyg yn y ddarpariaeth at addasu'r dull o ymdrin â Themâu Trawsbynciol (a archwilir maes o law yn yr adran hon). Cytunwyd ar ailbroffilio'r amrywiol ddangosyddion ym mis Gorffennaf 2019.

Cyflwynwyd achos busnes arall ar gyfer prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau ym mis Rhagfyr 2019 [troednodyn 13] i gael cyllid ychwanegol ar 'sail tystiolaeth gref o effaith' yn ogystal ag estyniad wedi'i gynllunio i'r cymorth rhaglen hyd at 30 Medi 2021 (gweithredwyd yr estyniad ym mis Rhagfyr 2020). Roedd yr estyniad yn adlewyrchu'r ansicrwydd ar adeg trefniadau olynu Cronfeydd Strwythurol yr UE ac y gallai'r contractau gwreiddiol ddod i ben cyn y gellid cadarnhau trefniadau ariannu yn y dyfodol. Ynghyd â chyllid ychwanegol, gwnaed addasiadau i dargedau, gyda gostyngiad yn y targed ar gyfer mentrau a gefnogwyd ym mhrosiectau Cymorth i BBaChau wedi'i wrthbwyso gan gynnydd yn y targed hwnnw ar gyfer prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth. Cytunwyd ar ailbroffilio dangosyddion targed ym mis Ionawr 2020, a chymeradwywyd ailbroffilio pellach (ochr yn ochr â'r estyniad) ym mis Rhagfyr 2020.

Cymeradwywyd ailbroffilio pellach ym mis Rhagfyr 2021 i adlewyrchu estyniad ychwanegol o chwe mis i'r cyfnod cyflawni ar gyfer prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau o Hydref 2022 hyd at Ebrill 2023. Arweiniodd yr estyniad at addasiadau i ddangosyddion canlyniadau a oedd yn adlewyrchu perfformiad (a rhagolygon) diweddar. Ar gyfer dangosyddion themâu trawsbynciol bu newidiadau sylweddol yn yr ailbroffilio terfynol. Roedd dangosyddion canlyniadau yn yr ailbroffilio terfynol wedi'u dyblu mewn maint ar gyfer prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth (ac yn cynrychioli gwrthdroi'r addasu ar i lawr ym mhrosiectau Cymorth i BBaChau). Mae'r cynnydd yn y dangosyddion canlyniadau yn adlewyrchu sawl ffactor, yn ôl yr achos busnes dros yr estyniad. Mae'r naratif yn yr achos

[12] Ibid.
[13] Llywodraeth Cymru (2019) Busnes Cymru – Cymorth i BBaCh Gorllewin Cymru a'r Cymoedd / Dwyrain Cymru – Cais am Gyllid Ychwanegol – Rhagfyr 2019 (heb ei gyhoeddi).

busnes yn cyfeirio at gynnydd sylweddol i gryfhau'r ddarpariaeth cymorth sy'n bodloni gofynion y dangosyddion themâu trawsbynciol (gan gynnwys aliniad gwell â'r Addewid Cydraddoldeb a'r Addewid Twf Gwyrdd yn ogystal â'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r Contract Economaidd)[14]. Ymhellach, mae'n dangos cymeradwyaeth y tîm monitro a gwerthuso yn WEFO y gellid cyfuno oriau cymorth cyn dechrau busnes ac ar ôl dechrau busnes er mwyn cyflawni'r chwe awr o gymorth i alluogi'r prosiect i hawlio dangosyddion themâu trawsbynciol a'r dangosydd ar gyfer cynnydd mewn cyflogaeth [troednodyn 15].

Mae Tabl 2.3 yn dangos goblygiadau'r amrywiol ailbroffiliau ar gyfer prosiectau Cymorth i BBaChau. Mae addasiadau i'r rhan fwyaf o'r dangosyddion targed yn weddol gyson ar draws dwy ardal y rhaglen ac yn dangos maint y gostyngiad yn erbyn y dangosyddion mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol a chanlyniadau themâu trawsbynciol. Mae'r dangosydd ar gyfer y cynnydd yn lefel yr allforion, fodd bynnag, yn dangos gwahaniaeth amlwg yn GCC, a'r dangosydd targed wedi cynyddu bron i 150%, tra bod prosiect DC wedi gweld addasu bychan ar i lawr.

Yn Nhabl 2.4 mae ailbroffiliau prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth yn dangos addasiadau ar i lawr ledled yr holl ddangosyddion, gyda'r addasiadau ar i lawr yn fwy llym yn DC nag yn GCC.

[14] Mae'r Contract Economaidd yn gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r busnesau y mae'n eu cefnogi ar sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i greu busnesau cydnerth sy'n cynnig lle deniadol i weithio ynddo. Mae'r Contract yn ymrwymiad i ddarparu buddsoddiad cyhoeddus sy'n blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru tra'n adeiladu economi llesiant mwy gwydn a mwy llewyrchus. Gweler y Contract Economaidd i gael manylion pellach.

[15] (Heb ei gyhoeddi) *Adendwm i'r Achos Busnes Fersiwn 3* (hyd at Hydref 2022) ac *Adendwm i'r Achos Busnes Fersiwn 7* (hyd at fis Mawrth 2023).

### Tabl 2.3: Dangosyddion targed ar gyfer Cymorth i BBaChau

| Prosiect UE | Targed Cytundebol Gwreiddiol (2016) | Targed Cytundebol Terfynol yn dilyn adolygu | Addasiad | Newid Cyfrannol yn y targed |
|---|---|---|---|---|
| **Cymorth i BBaChau (GCC)** | | | | |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 6,800 | 9,982 | 3,182 | 46.8% |
| Cynnydd yn lefel yr allforion | £130m | £312.6m | £182.6m | 140.5% |
| Mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol | 12,000 | 5,833 | -6,167 | -51.4% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth | 4,800 | 1,709 | -3,091 | -64.4% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu datblygu cynaliadwy | 4,800 | 1,559 | -3,241 | -67.5% |
| **Cymorth i BBaChau (DC)** | | | | |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 4,500 | 6,292 | 1,792 | 39.8% |
| Cynnydd yn lefel yr allforion | £85m | £84.8m | -£0.2m | -0.2% |
| Mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol | 8,070 | 3,056 | -5,014 | -62.1% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth | 3,250 | 802 | -2,448 | -75.3% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu datblygu cynaliadwy | 3,250 | 710 | -2,540 | -78.2% |

**Tabl 2.4: Dangosyddion targed ar gyfer Cymorth Entrepreneuriaeth**

| Prosiect UE | Targed Cytundebol Gwreiddiol (2016) | Targed Cytundebol Terfynol yn dilyn adolygu | Addasiad | Newid Cyfrannol yn y targed |
|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Entrepreneuriaeth (GCC)** | | | | |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 10,250 | 7,701 | -2,549 | -24.9% |
| Mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol | 850[16] | 937 | -21 | -2.2% |
| Mentrau newydd a gefnogwyd | 6,000 | 3,938 | -2,062 | -34.4% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth | 1,500 | 1,060 | -440 | -29.3% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu datblygu cynaliadwy | 1,500 | 1,210 | -290 | -19.3% |
| **Cymorth Entrepreneuriaeth (DC)** | | | | |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 6,750 | 3,149 | -3,601 | -53.3% |
| Mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol | 400[17] | 554 | 102 | 22.6% |
| Mentrau newydd a gefnogwyd | 4,000 | 1,835 | -2,165 | -54.1% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth | 1,000 | 581 | -419 | -41.9% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu datblygu cynaliadwy | 1,000 | 673 | -327 | -32.7% |

[16] Wedi’i osod yn 2020 fel rhan o’r ailbroffilio. Mae’n werth nodi fod targedau yn y llythyr cynnig gwreiddiol wedi’u nodi ar gyfer y dangosydd ‘Unigolion yn derbyn cymorth’. Tynnwyd y dangosydd hwn wedyn o’r Echel Blaenoriaeth (ac felly nid oedd yn benderfyniad penodol i’r prosiect) ac fe’i disodlwyd gan y dangosydd ‘Mentrau yn derbyn cymorth anariannol’).
[17] Ibid.

Mae’r tabl terfynol ar ddangosyddion targed (Tabl 2.5) yn rhoi crynodeb o’r targedau ar gyfer prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau ledled y ddwy raglen weithredol.

**Tabl 2.5: Cyfanswm y dangosyddion targed ar draws prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau**

| Dangosydd Targed | Targed Cytundebol Gwreiddiol | Targed Cytundebol yn dilyn yr estyniad | Addasiad | Newid Cyfrannol |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 28,300 | 27,124 | -1,176 | -4.2% |
| Cynnydd yn lefel yr allforion | £215m | £397.4m | +£182.4m | 84.8% |
| Mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol | 21,320 [18] | 10,380 | -10,940 | -51.3% |
| Mentrau newydd a gefnogwyd | 10,000 | 5,773 | -4,227 | -42.3% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth | 10,550 | 4,152 | -6,398 | -60.6% |
| Mentrau sy’n mabwysiadu datblygu cynaliadwy | 10,550 | 4,152 | -6,398 | -60.6% |

Adolygwyd addasiadau cychwynnol i ddangosyddion targed yn annibynnol ar yr addasiadau i gyllid y rhaglen. Fodd bynnag, wrth gymharu maint y newid yn y dangosyddion targed â’r cynnydd mewn gwariant ariannol, mae’n dangos cost-effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd sy’n is (cost fesul allbwn a chost fesul canlyniad) wrth ddarparu gwasanaethau o gymharu â’r hyn a ragwelwyd yn y cam cynllunio busnes. O ystyried, mae hyn yn dangos y tybiwyd bod y canlyniadau y cytunwyd arnynt yn 2016 yn oruchelgeisiol a bod eu gostyngiad wedi arwain at gost uwch fesul canlyniad. At hynny, oherwydd yr anallu i gofnodi rhywfaint o’r ddarpariaeth cymorth a roddwyd, naill ai o ganlyniad i’r ffaith ei bod wedi’i chynnwys yn y rhaglen flaenorol neu oherwydd y diffyg tystiolaeth ofynnol i adlewyrchu’r cymorth a gafwyd, byddai’r costau fesul canlyniad hefyd wedi cynyddu.

[18] Mae hyn yn cynnwys dangosyddion ar gyfer y prosiectau cymorth entrepreneuriaeth a gyflwynwyd yn 2020 (ar draws y ddau brosiect cymorth entrepreneuriaeth a oedd yn cyfateb i gynnydd o 1,250 yn y targed). Heb gynnwys y targed cymorth entrepreneuriaeth hwnnw ar gyfer mentrau newydd a gefnogwyd byddai’r targed cytundebol gwreiddiol yn 20,070.

### 3.5.3. Strwythurau Gweithredu a Llywodraethu

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r prosiectau yn gyffredinol. Yna caiff y gwasanaethau eu darparu drwy gymysgedd o gyflenwi mewnol a thrydydd parti. Pennwyd Uwch Reolwr Contractau penodedig i bob contract allanol a hwythau'n gyfrifol am sicrhau bod y contract yn cael ei gyflawni'n effeithiol drwy gyfathrebu rheolaidd â'r contractwyr.

Mae Rhaglen Craidd a Thwf Busnes Cymru wedi'i chynnal gan Bartneriaeth Twf Cymru (sy'n cynnwys tri sefydliad: Busnes mewn Ffocws, Antur Teifi, a Serco). Y contractwr arweiniol yw Busnes mewn Ffocws.

Caiff Rhaglen Cyflymu Twf (AGP) Busnes Cymru ei chynnal gan Excelerator Consortium (sy'n cynnwys Winning Pitch [a ddaeth i feddiant Newable yn 2021] ac Impact Innovation). Y contractwr arweiniol yw Winning Pitch.

Mae'r rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE) wedi'i chontractio i'w chynnal gan Serco. Mae Prifysgol Caerdydd hefyd wedi cynnal ymchwil i gynorthwyo a chyfrannu at y rhaglen.

Ymysg yr Hybiau Menter, comisiynwyd Hwb Menter Wrecsam i ddechrau arni fel ymarfer peilot yn rhan o'r Rhaglen Craidd a Thwf. Caiff yr Hwb ei gontractio drwy Bartneriaeth Twf Cymru a'i gynnal drwy is-gontract â Town Square.

Mae'r pedwar Hwb Menter arall wedi'u cynnal drwy gontractau unigol:

- Lot 1 – M-Sparc (wedi'i gynnal gan Menter Môn)
- Lot 2 – Hwb Menter y Drenewydd (wedi'i gynnal gan Busnes mewn Ffocws)
- Lot 3 – Hwb Menter Caerfyrddin (wedi'i gynnal gan Busnes mewn Ffocws)
- Lot 4 – Hwb Menter Caerffili (wedi'i gynnal gan Ganolfan Arloesi Menter Cymru / Welsh Ice)

### 3.5.4. Barn rhanddeiliaid

Teimlai rhanddeiliaid yn gyffredinol fod rhaglen Busnes Cymru wedi llwyddo i ymgysylltu â darparwyr galluog a phrofiadol sydd wedi gallu cynnig gwerth sylweddol i gwmnïau, er bod rhai pryderon ynghylch sicrhau ansawdd a chysondeb y rhaglenni a gynhaliwyd (fel yr archwilir yn adran 4). Ymhellach, roedd ymgyngoreion o'r farn bod arweinyddiaeth tîm rhaglen Busnes Cymru yn hawdd gwneud â nhw, waeth beth fo'u gradd, gan greu amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i staff a busnesau.

### 3.5.5. Gweithgareddau hyrwyddo

Cynhaliwyd ymgyrch farchnata eang i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo Busnes Cymru fel y cyrchfan i fynd ato i'r rhai sydd am ddechrau neu dyfu eu busnes yng Nghymru. Mae'r ymgyrch wedi'i hyrwyddo drwy lu o gyfryngau gan gynnwys y teledu a'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol, ar fysiau, mewn gorsafoedd petrol, ac mewn pamffledi partneriaid allweddol (gan gynnwys Gwobrau'r Ffederasiwn Busnesau Bach [FSB]).

Adroddwyd mewn adroddiadau cynnydd chwarterol fod y marchnata wedi bod yn hynod effeithiol ar y cyfryngau cymdeithasol o ran creu ymwybyddiaeth a sicrhau 'trosi' (sef troi busnesau sy'n holi i fod yn rhai sy'n ymgysylltu â chymorth). Y sianel ar y cyfryngau cymdeithasol a berfformiodd gryfaf ar gyfer sicrhau trosiadau oedd Facebook, gyda hyrwyddo trwy Google a Bing wedi perfformio'n llwyddiannus hefyd.

Ategwyd y gweithgareddau hyrwyddo cenedlaethol gan hyrwyddo ar lefel leol a oedd yn cyd-fynd ag ymgyrch farchnata Busnes Cymru. Gwnaed gwaith hyrwyddo hefyd trwy'r Hybiau Menter, Rheolwyr Cysylltiadau, Banc Datblygu Cymru, a rhwydweithiau partner.

Yn dilyn COVID-19, newidiodd yr ymgyrch ar y cyfryngau ei chyfeiriad, gyda negeseuon wedi'u hanelu at gefnogi a bod yn galonogol (gan fod â'r neges graidd 'rydym yma i chi, i'ch busnes ac i'ch dyfodol').

### 3.5.6. Cynnydd yn erbyn targedau

#### 3.5.6.1 Cynnydd: 1af Ionawr 2019 hyd at fis Mawrth 2020

Perfformiodd prosiectau Busnes Cymru yn dda yn erbyn y dangosyddion targed rhwng Ionawr 2019 a Mawrth 2020 (cyn dechrau pandemig COVID-19), gyda momentwm yn cynyddu wrth i'r prosiectau ymsefydlu ymhellach a datrys materion yn ymwneud â dangosyddion targed allweddol, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adran hon. Er enghraifft, roedd nifer y mentrau newydd a gefnogwyd bob mis wedi cynyddu tua 35% yn ystod y cyfnod Ebrill-Mehefin 2019 o gymharu â'r un chwarter yn y flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd y contractwr ar brosiect Cymorth Entrepreneuriaeth wedi dechrau proses newydd i ymateb yn y fan a'r lle i ymholiadau, gan leihau amseroedd aros a gwella taith y cwsmer. Ar ben hynny, cynhaliodd y rhaglen 60 o weithdai 'rhoi cynnig arni' bob mis ar gefn ymgyrch farchnata newydd a oedd, yn ôl pob sôn, wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau.

Roedd prosiectau Cymorth i BBaChau yn gorgyflawni yn erbyn y dangosyddion targed ar gyfer gwerth allforion, gyda dangosyddion targed eraill yn gweithredu'n agos at y targed a broffiliwyd.

Roedd dangosyddion targed y themâu trawsbynciol hefyd yn dangos gwelliant sylweddol ar ôl heriau a gafwyd yng nghamau cynnar y rhaglen. Roedd nifer y mentrau a oedd wedi mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth neu ddatblygu cynaliadwy wedi bron i ddyblu wrth gymharu perfformiad yn hanner olaf 2019 â'r perfformiad ar ddechrau 2018. Adroddodd y tîm sut roedd cysylltu'r cymorth yn agos â datganiad Llywodraeth Cymru am argyfwng hinsawdd ac integreiddio polisïau adnoddau dynol a chynaliadwyedd mewn gweithdai tendro wedi cael effaith gadarnhaol ar y gyfradd mabwysiadu polisïau themâu trawsbynciol.

Yn rhaglen Cyflymu Twf (AGP) BC, aeth y prosiect ati i adolygu busnesau cyfranogol, gan drosglwyddo'r rhai na fyddent bellach yn cyrraedd y cerrig milltir y rhagamcanwyd ar eu cyfer i Craidd a Thwf L1 i 4 BC er mwyn sicrhau bod y busnesau'n cael y cymorth sy'n adlewyrchu eu cyfeiriadedd twf. Dywedwyd mewn adroddiadau cynnydd chwarterol bod recriwtio Rheolwr Gweithrediadau Rhaglen ar gyfer prosiect rhaglen AGP BC wedi arwain at wella prosesau.

#### 3.5.6.2 COVID-19

Ar 23 Mawrth 2020, mewn ymateb i bandemig COVID-19, cafodd y cyhoedd ym Mhrydain gyfarwyddyd gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig i aros gartref heblaw at ddibenion penodol. Dros y cyfnod dilynol o 15 mis, gweithredwyd cyfyngiadau clo a phellter cymdeithasol, a'r rheoliadau wedi amrywio mewn cyfnodau gwahanol.

Ar adeg y cyfyngiadau cyntaf, symudodd contractwyr Busnes Cymru o ddarparu wyneb yn wyneb i weithio o bell o fewn 48 awr. Wedi hynny, cynhaliwyd sesiynau (gan gynnwys gweithdai) 'yn rhithiol' (ar-lein), gyda staff yn gweithio un-i-un gyda chleientiaid trwy fideogynadledda neu dros y ffôn.

Newidiodd natur y cymorth yr oedd busnesau yn gofyn amdano yn sylweddol yn dilyn dechrau COVID-19. Mewn adroddiadau cynnydd chwarterol dywedir bod Busnes Cymru wedi'i foddi gan alwadau gan fusnesau yn gofyn am gymorth grant a chymorth i reoli llif arian eu busnes i'w helpu i oroesi. Trodd y ddarpariaeth at 'achub economaidd', gan ganolbwyntio ar ymyriadau byr a chyflym i gleientiaid.

Gostyngodd cynnydd a pherfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformio allweddol yn sylweddol yn dilyn cyfyngiadau symud y llywodraeth. Gostyngodd y galw am gyngor un-i-un ac roedd yr awydd am ymyriadau byr, cyflym yn ei gwneud yn anodd cyflawni'r trothwyon cymorth chwe awr a 12 awr a oedd yn gysylltiedig â'r dangosyddion targed.

Problem arall oedd un yn ymwneud â chael llofnodion i ddilysu'r cymorth a gafwyd. Cyn y pandemig, roedd gofyn am gasglu "llofnodion inc gwlyb" ond arweiniodd y pandemig at symud yn y broses hon at lofnodion electronig. Er bod y newid hwn yn y ffordd o weithio wedi cael croeso eang, roedd cael gafael ar lofnod digidol ar gyfer cymorth Busnes Cymru yn parhau i fod yn heriol pan na roddwyd cymorth wyneb yn wyneb bellach, gan y gofynnwyd i gleientiaid am y wybodaeth hon o bell bellach (trwy e-bost fel arfer), a hynny'n anoddach ei gael nag wrth ofyn am lofnod fel rhan o roi cymorth wrth gwrdd yn y cnawd. I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, ni nododd SFBE unrhyw heriau o'r natur hon. Yn wir, roeddent wedi bod yn lobïo i gael llofnodion electronig ers peth amser. Gall hyn fod yn adlewyrchiad o natur a ffocws y cymorth hwnnw (gyda llofnodion electronig efallai yn cyd-fynd yn dda wrth gynnig darpariaeth a oedd yn targedu ymelwa ar seilwaith ar-lein).

Er gwaethaf yr heriau a gafwyd o ganlyniad i'r pandemig, roedd rhai dangosyddion targed yn parhau i berfformio'n gryf, gyda'r cynnydd mewn allforion wedi gwneud yn arbennig o dda er gwaethaf heriau Brexit (gyda'r perfformiad allforio wedi parhau drwy gydol y rhaglen, yn enwedig drwy berfformiad cryf ymhlith cleientiaid rhaglen AGP BC). I'r gwrthwyneb, effeithiodd y pandemig yn sylweddol ar ddangosyddion targed themâu trawsbynciol wrth i fusnesau symud i ganolbwyntio ar oroesi.

Ymhlith cleientiaid rhaglen AGP BC arweiniodd y pandemig at newid yn y dull gweithredu, gyda'r log risg a ddefnyddiwyd ar gyfer pob cleient wedi'i addasu ac yn defnyddio graddfeydd yn gysylltiedig â Methu/Goroesi/Ffynnu. Roedd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i fod yn rhagweithiol yn ei ddarpariaeth a'i theilwra i sefyllfa'r cleient yn dilyn dechrau COVID-19. I fesur sefyllfa cleientiaid rhaglen AGP BC yn dilyn dechrau COVID-19, anfonwyd arolwg baromedr busnes at gleientiaid y rhaglen ym mis Mehefin 2020. O'r 240 o ymatebion a dderbyniwyd, roedd 17% yn cael trafferthion (gydag ychydig o dan hanner y rhain [7% o'r ymatebion o gyfanswm y sampl] naill ai "wedi rhoi'r busnes i'r neilltu" neu wedi "rhoi'r gorau i fasnachu"), disgrifiodd ychydig dros hanner (51%) eu busnes fel un oedd "yn goroesi – er gwaethaf yr heriau", a'r gweddill "yn ffynnu" (18%) neu gyda "dim newid" (14%).

Fodd bynnag, adroddwyd bod y dirywiad ym mherfformiad y prosiectau yn gymharol fyrhoedlog, gydag arwyddion cychwynnol o gynnydd yn y galw am gymorth tua diwedd Haf 2020. Fe wnaeth tonnau dilynol y pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig effeithio ar gynnydd ond i lai o raddau na'r don gyntaf honno. Hyd at Gwanwyn 2021, fodd bynnag, roedd natur y galw yn parhau i fod wedi'i anelu at ymyriadau byr, cyflym, a oedd yn golygu mai parhau oedd yr heriau o ran sicrhau'r oriau cymorth trothwy.

Yn chwarter cyntaf 2021, gwelwyd tystiolaeth o welliannau pellach mewn cynnydd yn erbyn dangosyddion, er bod y gyfradd cynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gefnogwyd wedi parhau i fod 50% yn is na pherfformiad cyn y pandemig. Parhau i wella wnaeth y cyflawni dangosyddion targed themâu trawsbynciol, ac ar ddechrau 2021 llwyddwyd i gyflawni mwy na'r proffil ar gyfer y chwarter.

Yn ystod hanner olaf 2021 adroddwyd bod y prosiectau'n perfformio'n gryf, gyda gwelliannau sylweddol yn y dangosydd ar gyfer cynnydd mewn cyflogaeth yn ogystal â llwyddiant parhaus gyda dangosyddion themâu trawbynciol yn helpu i leihau'r diffyg yn y targedau cytundebol. Mewn ymateb i bandemig COVID-19, adroddodd Busnes Cymru am ffocws cynyddol ar yr unigolion yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan COVID-19, megis y rheiny o darddiad du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ogystal â phobl anabl. Dywedir bod hyn wedi arwain at lefel uwch o gymorth allgymorth i wahanol grwpiau.

Dangosir y newid mewn perfformiad dros amser yn erbyn y dangosyddion targed yn Nhabl 2.6 isod. Mae'r tabl yn dangos nifer cyfartalog y cyflawniadau yn erbyn detholiad o ddangosyddion targed bob mis dros amser. Mae'r data yn seiliedig ar ddadansoddi ceisiadau hawlio chwarterol ar gyfer pob prosiect pan fo'r data hwnnw ar gael [troednodyn 19]. Er bod y tabl yn dangos cyfradd gymharol gyson o ran ymgysylltu â chymorth (yn enwedig ar gyfer DC), mae'n dangos y gostyngiad sylweddol yn narpariaeth dangosyddion themâu trawsbynciol yn ystod ton gyntaf COVID-19 (gwanwyn–hydref 2020). Ar gyfer dangosyddion y themâu trawsbynciol mae'r data'n dangos adferiad cryf mewn perfformiad yn erbyn y rhain, gyda'r prosiectau'n cyflawni, ar gyfartaledd, ddwywaith nifer y dangosyddion themâu trawsbynciol bob mis o gymharu â'r hyn a gyflawnwyd cyn y pandemig.

---

[19] Roedd data dangosyddion perfformiad ar gyfer rhai ceisiadau hawlio chwarterol ar goll felly dim ond y cyfnodau hynny lle mae data perfformiad wedi'i gynnwys yn y ceisiadau hawlio chwarterol sydd i'w cael yn Nhabl 2.6.

Yn ddiddorol, mae’r tabl yn dangos gostyngiad sydyn yn y gyfradd cynnydd mewn cyflogaeth yn DC, tra bod GCC, yn seiliedig ar y dangosyddion targed, fel petai wedi cael effaith gyfyngedig ar y gyfradd. Ymhellach, awgryma’r tabl fod y prosiectau yn DC wedi cael trafferth ailadrodd y gyfradd cynnydd mewn cyflogaeth a welwyd cyn y pandemig.

**Tabl 2.6: Perfformiad dros amser (cyfartaledd misol): Cymorth i BBaChau**

| **Cymorth i BBaChau (DC)** | **Hydref ’19–Gwanwyn ’20** | **Gwanwyn ’20–Hydref ’20** | **Hydref ’20–Haf ’21** | **Hydref ’21–Gaeaf ’22** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Nifer y mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol | 36 | 32 | 48 | 35 |
| Mentrau yn mabwysiadu neu’n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywioldeb | 10 | 1 | 18 | 20 |
| Mentrau yn mabwysiadu neu’n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy | 9 | 3 | 15 | 18 |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 136 | 40 | 72 | 79 |
| **Cymorth i BBaChau (GCC)** | | | | |
| Nifer y mentrau sy’n derbyn cymorth anariannol | 57 | 41 | 68 | 61 |
| Mentrau yn mabwysiadu neu’n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywioldeb | 17 | 5 | 27 | 34 |
| Mentrau yn mabwysiadu neu’n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy | 21 | 2 | 25 | 31 |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 110 | 124 | 130 | 133 |

Ffynhonnell: Dadansoddi Ceisiadau Chwarterol BBaChau

Mae Tabl 2.7 isod yn cyflwyno’r un data perfformiad dros amser ar gyfer prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth, lle’r oedd data ar gael yn y ceisiadau hawlio chwarterol [troednodyn 20]. Mae’r tabl yn dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y mentrau newydd sy’n cael cymorth sy’n cyfrannu at ddangosyddion themâu trawsbynciol (yn debyg i Cymorth i BBaChau). Ymhellach, tra bod arwyddion o ostyngiad yn nifer y mentrau newydd yn cael

[20] Roedd data dangosyddion perfformiad ar gyfer rhai ceisiadau hawlio chwarterol ar goll felly dim ond y cyfnodau hynny lle mae data perfformiad wedi’u cynnwys yn y ceisiadau chwarterol sydd i’w cael yn nhabl 2.7.

cymorth, nid yw'r data yn glir a yw hwn yn batrwm sy'n gysylltiedig â'r pandemig ai peidio (gan nad oes cynnydd amlwg mewn perfformiad yn erbyn y dangosydd targed hwn mewn misoedd mwy diweddar).

**Tabl 2.7: Perfformiad dros amser: Cymorth Entrepreneuriaeth**


| **Cymorth Entrepreneuriaeth (GCC)** | **Hydref '19 –Gwanwyn '20** | **Gwanwyn '20 – Hydref '20** | **Hydref '20 – Haf '21** | **Hydref '21 – Gaeaf '22** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y mentrau newydd sy'n cael cymorth | 125 | 54 | 57 | 65 |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywioldeb | 13 | 7 | 27 | 32 |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy | 22 | 8 | 29 | 33 |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 127 | 105 | 137 | 106 |
| **Cymorth Entrepreneuriaeth (DC)** | | | | |
| Nifer y mentrau newydd sy'n cael cymorth | | 22 | 25 | 32 |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywioldeb | | 3 | 18 | 19 |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy | | 5 | 17 | 19 |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | | 34 | 52 | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddi ceisiadau hawlio chwarterol Cymorth Entrepreneuriaeth

Mae'r perfformiad cryf mewn perthynas â'r themâu trawsbynciol yn adlewyrchu addasu'r model gwasanaeth, a arweiniodd at Busnes Cymru yn ymgorffori themâu trawsbynciol yn fwy canolog yn y prosesau darparu. Ystyriwyd hefyd bod y perfformiad yn gysylltiedig â galw cynyddol am gymorth o'r natur hwn, a hyn wedi'i archwilio ymhellach yn yr adran ganlynol. Mae Ffigur 2.1 isod yn dadansoddi data'r System Cyfrifon Busnes (BAS) ar gyfran y busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth neu strategaethau datblygu cynaliadwy yn ôl blwyddyn cofrestru. Mae'r data'n dangos gwelliannau cyson yn y cyfrannau sy'n mabwysiadu'r rhain, gyda gostyngiad ymylol yn gysylltiedig â phandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae cyfran y busnesau cyfranogol sy'n cyfrannu at ddangosyddion themâu trawsbynciol yn cynyddu'n sylweddol ac ar y pwynt data diweddaraf, cyfrannodd bron i ddeuparth y busnesau cyfranogol a

gofrestrodd yn 2022 at y dangosyddion hyn, sef pedair gwaith y gyfran a gofrestrodd yn 2015.

Ffigur 2.1: Cyfran y mentrau yn Cymorth Entrepreneuriaeth neu Gymorth i BBaCh yn cyflawni dangosyddion targed themâu trawsbynciol yn ôl blwyddyn ymgysylltu




Ffynhonnell: Data BAS (n=11,470)


### 3.5.6.3 Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)

Ar gyfer SFBE, mae'r rhaglen wedi sicrhau cynhyrchu arweiniad cryf trwy gymysgedd o weithgareddau marchnata a chydweithio. Gan amlaf, adroddir bod 90% o'r gweithgarwch a gynhaliwyd drwy'r SFBE wedi'i drefnu, gyda'r 10% arall yn ymatebol, a thrwy hynny'n sicrhau y gellid darparu ar gyfer amrywiadau mewn galwadau rhanbarthol a lleol.

Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgyrch, cyn y pandemig, wedi dioddef o gyfraddau mynychu is na'r disgwyl, gan arwain at gynnal gweithdai ychwanegol.

Parhaodd y perfformiad drwy gydol y prosiect yn gymharol gyson, a byrhoedlog oedd unrhyw effaith yn gysylltiedig â COVID-19 o safbwynt targedau ac ymgysylltu. Cyflwynir cynnydd dros amser yn Ffigur 2.2 isod, sy'n dangos nifer yr ymholiadau bob mis. Er bod tystiolaeth o ostyngiad bychan yn nifer yr ymholiadau, mae'r niferoedd wedi aros yn gymharol gyson drwy gydol y prosiect.


**Ffigur 2.2: Ymholiadau SFBE: Ionawr 2016 hyd at fis Medi 2022**




Ffynhonnell: Mae saethau llorweddol gwyrdd uchod yn nodi gwybodaeth fonitro SERCO am gyfnodau cyfyngiadau symud SFBE


Mae’r digwyddiadau (Ffigur 2.3) a nifer y sesiynau a gynhaliwyd un-i-un yn cyflwyno patrwm tebyg dros amser.

**Ffigur 2.3: Ymgysylltiad â digwyddiadau SFBE dros amser**




Ffynhonnell: Mae saethau llorweddol gwyrdd uchod yn nodi gwybodaeth fonitro SERCO am gyfnodau cyfyngiadau symud SFBE

**Ffigur 2.4: Darpariaeth sesiynau cymorth un-i-un SFBE dros amser**




Ffynhonnell: Mae saethau llorweddol gwyrdd uchod yn nodi gwybodaeth fonitro SERCO yn ystod cyfnodau cyfyngiadau symud SFBE

### 3.5.6.4 Cynnyrch newydd i'r cwmni

Mewn perthynas â mentrau yn cyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni, cynhaliodd tîm y rhaglen ddadansoddiad manwl o ddata i asesu dosbarthiad (yn ôl sector diwydiannol) a natur (technoleg uchel, canolig neu isel [troednodyn 21]) y cynnyrch newydd a gyflwynwyd i gwmni o ganlyniad i gymorth SFBE.

Mae'r dadansoddiad diweddaraf, sy'n seiliedig ar wybodaeth reoli mis Mehefin 2023, yn nodi ar gyfer pob busnes a adroddai gyflwyno cynnyrch newydd, ar gyfartaledd roeddent wedi mabwysiadu 2.3 cynnyrch newydd i'r cwmni. Fodd bynnag, dim ond unwaith y gellir cofnodi pob menter ar gyfer dangosyddion targed ERDF ar gyfer cynnyrch newydd i'r cwmni dim ots faint o gynhyrchion newydd a gyflwynid i'r cwmni. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ystyried yr asesiad gwerth am arian (wedi'i wneud ar sail cost fesul canlyniad) ar gyfer prosiectau SFBE.


Sefydlwyd Dangosfwrdd Pŵer Deallusrwydd Busnes i gyflwyno'r dystiolaeth ychwanegol a gasglwyd. O blith y cynnyrch newydd i'r cwmni a gyflwynwyd, ystyriwyd bod 19% ohonynt

[21] Mae cynnyrch technoleg uchel yn cynnwys technolegau cwmwl, rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, Diogelwch TG/gwrthfaleiswedd, caledwedd neu feddalwedd arbenigol (pwrpasol) a chyfathrebu Unedig. Mae technoleg ganolig yn cynnwys datrysiadau archebu ar-lein, meddalwedd rheoli dogfennau/rhannu ffeiliau, taliad electronig/cerdyn, seilwaith gweinydd. Mae technoleg isel yn cynnwys marchnata/rheoli e-bost, llwyfan cyfryngau cymdeithasol/meddalwedd rheoli, cydymffurfio â GDPR a meddalwedd fideogynadledda.

(646/3,378) yn gynnyrch technoleg uwch, 16% (526/3,378) yn gynnyrch technoleg ganolig a 65% (2,206/3,378) yn gynnyrch technoleg isel. [troednodyn 22]

Mae Ffigur 2.5 yn cyflwyno’r tebygolrwydd y bydd busnes sy’n cymryd rhan yn mabwysiadu cynnyrch technoleg uchel, canolig neu isel yn ôl sector. Dengys y siart fod datrysiadau technoleg uchel a chanolig yn arbennig o debygol ymhlith busnesau o’r sectorau morol ac iaith/cyfieithu. Ymhellach, yn y mwyafrif o sectorau, o’r rhai a fabwysiadodd dechnoleg, roedd dros 50% ohonynt wedi mabwysiadu datrysiad technoleg uchel neu ganolig.

**Ffigur 2.5: Tebygolrwydd y bydd busnes yn mabwysiadu datrysiadau technoleg uchel, canolig ac isel fesul sector**




Ffynhonnell: Dangosfwrdd Pŵer Deallusrwydd Busnes SFBE

### 3.5.6.5 Cyflawniadau hyd yma

Mae’r tablau terfynol yn yr adran hon yn cyflwyno’r data perfformiad diweddaraf yn erbyn targedau ar gyfer pob prosiect. Mae prosiectau SFBE wedi rhagori ar y targedau diwygiedig ledled y ddwy raglen, yn enwedig felly yn Nwyrain Cymru.

[22] Superfast Business Wales New to the Firm Technology Adoptions Analysis 27 Mehefin 2023 (heb ei gyhoeddi)

**Tabl 2.8: Perfformiad yn erbyn dangosyddion targed SFBE hyd at 31 Mawrth 2023**

| | Targed | Cyflawnwyd | Gwahaniaeth yn erbyn y targed |
|---|---|---|---|
| **GCC** | | | |
| Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol | 4,384 | 4,402 | +0.4% |
| Nifer y mentrau a gefnogwyd sy'n cyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni | 1,709 | 1,965 | +15% |
| **DC** | | | |
| Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol | 1,296 | 2,135 | +65% |
| Nifer y mentrau a gefnogwyd sy'n cyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni | 474 | 557 | +18% |

Dengys Tabl 2.9 fod Cymorth i BBaChau wedi cyflawni neu ragori ar bob un o'i ddangosyddion targed allweddol, gyda lefel yr allforion wedi'u rhagori gryn dipyn.

Cyflwynir patrwm tebyg o ragori yn erbyn y targedau yn Nhabl 2.10 ar gyfer Cymorth Entrepreneuriaeth, gyda chynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd yn rhagori uchaf ar ei darged.

**Tabl 2.9: Perfformiad yn erbyn monitro chwarterol – Cymorth i BBaChau hyd at 16 Mai 2023**

| Prosiect UE | Targed | Cyflawnwyd | Gwahaniaeth yn erbyn y targed |
|---|---|---|---|
| **Cymorth i BBaChau (GCC)** | | | |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 9,982 | 11,103.8 | +11% |
| Cynnydd yn lefel yr allforion | £312.6m | £444.1m | +42% |
| Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol | 5,833 | 6,113 | +5% |
| Mentrau sy'n mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth | 1,709 | 1,781 | +4% |
| Mentrau sy'n mabwysiadu datblygu cynaliadwy | 1,559 | 1,673 | +7% |
| **Cymorth i BBaChau (DC)** | | | |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 6,292 | 6,829.1 | +9% |
| Cynnydd yn lefel yr allforion | £84.8m | £123.1m | +45% |
| Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol | 3,056 | 3,406 | +11% |
| Mentrau sy'n mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth | 802 | 935 | +17% |
| Mentrau sy'n mabwysiadu datblygu cynaliadwy | 710 | 907 | +28% |

Ffynhonnell: Hawliadau Chwarterol Llywodraeth Cymru

**Tabl 2.10: Perfformiad yn erbyn monitro chwarterol – Cymorth Entrepreneuriaeth hyd at 15 Mai 2023**

| Prosiect UE | Targed | Cyflawnwyd | Gwahaniaeth yn erbyn y targed |
|---|---|---|---|
| **Cymorth Entrepreneuriaeth (GCC)** | | | |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 7,701 | 9,073.2 | +18% |
| Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol | 937 | 1,089 | +16% |
| Mentrau newydd a gefnogwyd | 3,938 | 4,583 | +16% |
| Mentrau sy'n mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth | 1,060 | 1,308 | +23% |
| Mentrau sy'n mabwysiadu datblygu cynaliadwy | 1,210 | 1,459 | +21% |
| **Cymorth Entrepreneuriaeth (DC)** | | | |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | 3,149 | 4,082.1 | +30% |
| Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol | 554 | 683 | +23% |
| Mentrau newydd a gefnogwyd | 1,835 | 2,210 | +20% |
| Mentrau sy'n mabwysiadu cydraddoldeb ac amrywiaeth | 581 | 710 | +22% |
| Mentrau sy'n mabwysiadu datblygu cynaliadwy | 673 | 814 | +21% |

Ffynhonnell: Hawliadau Chwarterol Llywodraeth Cymru

#### 3.5.6.6 Gwerth am arian

Mae Tabl 2.11 isod yn rhoi trosolwg o'r gost fesul darpariaeth yn erbyn prif ddangosyddion targed ar gyfer pob prosiect. Dengys y tabl fod costau fesul dangosydd targed ar gyfer Cymorth i BBaChau yn GCC yn fwy na dwbl y rhai yn DC. Mae GCC wedi'i ddynodi gan yr ESIF yn rhanbarth llai datblygedig ac, o'r herwydd, mae'n cael lefelau buddsoddi ERDF llawer uwch y pen nag y mae DC yn ei gael. Mae'r buddsoddiad cynyddol yn ymateb i'r lefel uwch o rwystrau i dwf a wyneba'r rhai sydd wedi'u lleoli yn GCC, ac mae'n adlewyrchu nod trosfwaol y Cronfeydd Strwythurol sy'n gysylltiedig â lleihau gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol rhanbarthol.

Ymhellach, mae'r tabl yn dangos bod y diwygiadau ar i fyny yng nghostau rhaglenni yn gymesur yn fras â'r targedau sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd; o ganlyniad, ychydig iawn o newid a welwyd yn nharged y gost fesul swydd a grëwyd drwy gydol y prosiect. Mae'r targed cost am bob menter a gefnogwyd wedi cynyddu'n sylweddol ar draws y ddau brosiect, fodd bynnag, a hynny o ganlyniad i'r gostyngiad yn y dangosydd targed tra bod cyfanswm y costau wedi cynyddu.

Mae cyflawniadau diwedd rhaglen (16 Mai 2023) yn dangos perfformiad cryf o ran y gost fesul swydd a grëwyd (cynnydd cyflogaeth), gyda phrosiect y GCC yn sicrhau gwelliant o 20% mewn cost-effeithiolrwydd o'r hyn a nodir yn y cynllun busnes (~£4,100 fesul swydd a

grëwyd o gymharu â ~£4,900 disgwyliedig fesul swydd a grëwyd). Ar gyfer prosiect Dwyrain Cymru, roedd y gost fesul swydd a grëwyd yn parhau i fod yn llawer llai na'r hyn ym mhrosiect GCC ac yn cyd-fynd yn agos â'r targed gwreiddiol yn y cynllun busnes. Yn erbyn nifer y mentrau a gefnogwyd, wrth ragori ar y targedau proffil diwygiedig, roedd y prosiectau yn fwy cost effeithiol yn erbyn y dangosydd hwn nag yr awgrymwyd gan yr ailbroffilio. Fodd bynnag, maent yn parhau i fod yn sylweddol uwch na tharged gwreiddiol y gost am bob menter a gefnogwyd oherwydd y problemau a oedd yn gysylltiedig â chofnodi yn erbyn y dangosydd targed hwnnw.

**Tabl 2.11: Rhagolwg cost fesul dangosydd a'r hyn a gyflawnwyd – Cymorth i BBaChau[troednodyn 23]**

| Prosiect | Cost Gwreiddiol y Prosiect | Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | Mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol | Cost am bob cynnydd cyflogaeth | Cost am bob menter a gefnogwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth i BBaChau – Targedau Cytundebol Gwreiddiol** | | | | | |
| GCC | £33,328,037 | 6,800 | 12,000 | £4,901 | £2,777 |
| DC | £11,123,245 | 4,500 | 8,070 | £2,472 | £1,378 |
| **Cymorth i BBaChau – Targedau Proffil Diwygiedig** | | | | | |
| GCC | £45,699,803 | 9,982 | 5,833 | £4,578 | £7,835 |
| DC | £17,173,059 | 6,292 | 3,056 | £2,729 | £5,619 |
| **Cymorth i BBaChau – Cyflawniadau hyd at 16 Mai 2023** | | | | | |
| GCC | £45,699,803 | 11,103.8 | 6,113 | £4,116 | £7,476 |
| DC | £17,160,643 | 6,829.1 | 3,406 | £2,513 | £5,038 |

Dengys y tabl dilynol (2.12) fod y targedau cytundebol gwreiddiol ar gyfer y gost am bob cynnydd cyflogaeth yn isel iawn gan fod yn £1,531 yn unig am bob swydd a grëwyd yn rhaglen Dwyrain Cymru. Mae'n werth nodi bod y gost hon fesul swydd a grëwyd yn is nag unrhyw gynllun cymorth busnes sydd â gwerthusiad cyhoeddedig wedi'i gyflwyno ledled rhaglen ERDF 2014 i 2020 yn Lloegr, gan ddangos targed mor heriol y byddai hwn wedi bod. Fodd bynnag, arweiniodd yr amrywiol ailbroffiliau at gost uwch am bob cynnydd cyflogaeth (swydd a grëwyd) a chost uwch am bob menter a gefnogwyd ac, yn y pen draw, roedd targedau wedi'u halinio'n agosach â'r rhai sy'n gysylltiedig â'r prosiectau sy'n cyflawni Cymorth i BBaChau.

[23] Yn seiliedig ar ddadansoddi gwybodaeth fonitro sy'n gysylltiedig â phrosiectau Cymorth BBaChau.

Er gwaethaf y cynnydd yn y gost fesul swydd a grëwyd yn dilyn y gwahanol ailbroffiliau, roedd y targedau ledled Cymorth i BBaChau a Chymorth Entrepreneuriaeth ar gyfer creu swyddi yn parhau i fod yn heriol iawn, gan fynnu lefelau cost-effeithiolrwydd arbennig o uchel (yn wir yn uwch na mwyafrif helaeth y rhaglenni cymorth a ariennir gan yr ERDF ledled Lloegr). Yn y pen draw, rhagorodd y prosiectau ar y targedau cost-effeithiolrwydd wedi'u hailbroffilio, yn enwedig yn erbyn y dangosydd cynnydd mewn cyflogaeth. Eto, yn debyg i brosiectau Cymorth i BBaChau, mae prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth yn rhoi gwerth da am arian o safbwynt cost-effeithiolrwydd, yn enwedig mewn perthynas â'r dangosydd cynnydd mewn cyflogaeth.

**Tabl 2.12: Rhagolwg cost fesul dangosydd a'r hyn a gyflawnwyd – Cymorth Entrepreneuriaeth [troednodyn 24]**

| Prosiect | Cost y Prosiect | Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogwyd | Mentrau newydd a gefnogwyd | Cost am bob cynnydd cyflogaeth | Cost am bob menter newydd a gefnogwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Entrepreneuriaeth – Targedau Cytundebol (2016)** | | | | | |
| GCC | £30,999,787 | 10,250 | 6,000 | £3,024 | £5,167 |
| DC | £10,333,119 | 6,750 | 3,149 | £1,531 | £3,281 |
| **Cymorth Entrepreneuriaeth – Targedau Proffil Diwygiedig** | | | | | |
| GCC | £39,374,710 | 7,701 | 3,938 | £5,113 | £9,999 |
| DC | £9,363,009 | 3,149 | 1,835 | £2,973 | £5,102 |
| **Cymorth Entrepreneuriaeth – Cyflawniadau hyd at 16 Mai 2023** | | | | | |
| GCC | £39,291,497 | 9,073.2 | 4,583 | £4,331 | £8,573 |
| DC | £9,363,009 | 4,082.1 | 2,210 | £2,294 | £4,237 |

Mae Tabl 2.13 isod yn ystyried y gost fesul targed ar gyfer SFBE. Dengys y tabl fod SFBE, ar draws yr holl ddangosyddion targed, wedi bod yn fwy cost effeithiol na'r disgwyl o'i gymharu â'r targedau cytundebol gwreiddiol a diwygiedig. Dengys y tabl bod y patrwm sy'n gysylltiedig â'r gost fesul dangosydd yn seiliedig ar dargedau cytundebol yn uwch yn DC nag yn GCC, a hynny'n groes i'r prosiectau eraill. Nid yw'n glir pam mae hyn yn wir. Mae'r tabl hefyd yn dangos nad yw'r cynnydd mewn costau a dangosyddion targed wedi cael llawer o ddylanwad ar gost-effeithiolrwydd y gwasanaeth.

[24] Yn seiliedig ar ddadansoddi gwybodaeth fonitro sy'n gysylltiedig â phrosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth.

O ddadansoddi'r dangosyddion a gyflawnwyd, yn erbyn cost am bob menter a gefnogwyd, gwelir bod y model cyflenwi yn fwy cost-effeithiol yn DW nag yn GCC, sy'n groes i'r hyn a broffiliwyd yn y cynlluniau busnes ond patrwm sy'n cyd-fynd yn well â phrosiectau eraill Busnes Cymru. Ar y llaw arall, yn achos y gost fesul cyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni, er bod y ddau brosiect yn fwy cost-effeithiol na'r proffil, unwaith eto mae perfformiad croes fesul prosiect yn amlwg (gyda GCC yn fwy cost-effeithiol na DC).

Nid yw'r dadansoddiad sy'n gysylltiedig â chost cyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni ychwaith yn cyfrif os cyflwynwy[d sawl cynnyrch gwahanol fesul cwmni. Pe bai'r dadansoddiad yn seiliedig ar y gost fesul cynnyrch newydd i'r cwmni (yn hytrach na nifer y cwmnïau lle mae cynhyrchion newydd i'r cwmni wedi'u cyflwyno) y gost fesul cyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni fyddai £2,124 (DC) a £2,733 (GCC).

### Tabl 2.13: Rhagolwg cost fesul dangosydd a'r hyn a gyflawnwyd – SFBE

| **Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn – Targedau Cytundebol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiect** | **Cost y prosiect** | **Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol** | **Nifer y mentrau a gefnogwyd i gyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni** | **Cost am bob menter a gefnogwyd** | **Cost am bob cyflwyno ar gynnyrch newydd i'r cwmni** |
| GCC | £8,575,153 | 3,823 | 1,480 | £2,243 | £5,794 |
| DC | £3,534,847 | 1,094 | 400 | £3,231 | £8,837 |
| **Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn – Targedau Proffil Diwygiedig** | | | | | |
| GCC | £10,871,721 | 4,384 | 1,709 | £2,479 | £6,361 |
| DC | £4,077,419 | 1,296 | 474 | £3,146 | £8,602 |
| **Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn – Cyflawniadau hyd at 31 Mai 2023** | | | | | |
| GCC | £9,600,000[25] | 4,402 | 2,135 | £2,181 | £4,885 |
| DC | £3,500,000[26] | 1,965 | 557 | £1,639 | £6,284 |

[25] Nid yw gwariant yn cynnwys costau y tu allan i gontract Partneriaeth Twf Cymru, gan gynnwys ymchwil sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Aeddfedrwydd Digidol blynyddol ac adroddiadau asesu effaith economaidd, trefnu'r bwrdd, a gwerthusiadau allanol.
[26] Ibid.

## 3.6. Crynodeb

- Sefydlwyd Busnes Cymru i fod yn borth i ddarpar fusnesau a busnesau sy’n bodoli eisoes gael mynediad rhwydd at ystod o wasanaethau cyhoeddus. Cynigiai ystod o wybodaeth, cyngor ac arweiniad i fusnesau yng Nghymru o dan un brand cydlynol.
- Cynlluniwyd SFBE gyda’r rhagdybiaeth y byddai band eang, yn dilyn cyflwyno Cyflymu Cymru yn llwyddiannus, ar gael i bawb yng Nghymru. Byddai’r rhaglen wedyn yn ceisio annog y defnydd gorau posibl ar y seilwaith newydd hwnnw.
- Gwnaed addasiadau i sawl un o’r prif ddangosyddion targed ar gyfer Cymorth i BBaChau a Chymorth Entrepreneuriaeth o ganlyniad i sawl her a gafwyd yn ystod camau cynnar y ddarpariaeth, gan gynnwys: casglu’r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer rhai dangosyddion, integreiddio themâu trawsbynciol yn y cymorth, a marchnad lafur sy’n cryfhau yn arwain at lai o alw sy’n gysylltiedig â gweithgarwch entrepreneuraidd ar sail angen.
- Roedd cynnal y rhaglen wedi llwyddo i ennill momentwm yn 2019; fodd bynnag, arweiniodd pandemig COVID-19 at addasu cyflym yn natur y cymorth a oedd ar gael (i ffwrdd o dwf a thuag at wydnwch a chymorth bugeiliol) ac yn y modd y rhoddwyd y cymorth hwnnw. Tua chwe mis ar ôl y cyfyngiadau cyntaf ym mis Mawrth 2020, ailsefydlwyd y momentwm yn narpariaeth Busnes Cymru a oedd yn gysylltiedig â’r cynnydd yn cyflawni dangosyddion targed.
- Llwyddodd SFBE i osgoi effeithiau’r pandemig i raddau helaeth gan lwyddo i gadw proffil cyflawni cymharol gyson drwy gydol y rhaglen.

# 4. Yr ymgysylltu â busnesau ac entrepreneuriaid a gymerodd ran

## 4.1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn myfyrio ar y prosesau a oedd yn gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth o'r amrywiol brosiectau a'r ymgysylltu a wnaeth busnesau ac entrepreneuriaid â'r prosiectau hynny. Mae'n pwyso ar dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ac arolwg Cymorth Busnes yr ERDF.

Ledled prosiectau Busnes Cymru, defnyddiodd darparwyr gwasanaethau amrywiaeth o ddulliau hyrwyddo ac ymgysylltu i recriwtio cyfranogwyr gan gael llwyddiant amrywiol.

Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymgyngoreion fod brand Busnes Cymru (BC) yn adnabyddus yn eang ac yr ymddiriedir ynddo, sy'n rhoi hygrededd i'r gwasanaethau a dyma un o'i gryfderau allweddol. Roedd ymdrechion marchnata a hyrwyddo Busnes Cymru yn uchel eu parch, a hynny wedi cyfrannu at ymwybyddiaeth gref o'i frand a'i ymdreiddiad i'r gymuned fusnes. Yn yr adolygiad o Hybiau Menter Busnes Cymru (lle'r oeddent yn bodoli) wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, nodwyd hefyd rôl bwysig yr Hybiau yn ymgysylltu ag entrepreneuriaid mewn cymunedau lleol na fyddent o reidrwydd wedi ymgysylltu â darpariaeth prif ffrwd. Tynnodd rhanddeiliaid strategol sylw at y ffaith bod cael siop-un-stop ar gyfer cymorth busnes o werth uchel i gyflogwyr, gan ei fod yn cynnig un pwynt cyswllt iddynt gael mynediad at ystod eang o wasanaethau cymorth. Fodd bynnag, roedd ymgyngoreion strategol yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd parhau, gan gynnwys sicrhau gwybodaeth leol a phwyso'n fwy ar grwpiau cymunedol, i gynyddu eu capasiti. Roedd hyn yn arbennig o bwysig wrth ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys cyfranogwyr o ddaearyddiaethau ac/neu ddemograffeg anos eu cyrraedd (megis rhywedd, ethnigrwydd, niwrowahaniaeth ac anableddau).

Ledled holl wasanaethau Busnes Cymru, ceir cydnabyddiaeth gyffredin o rôl hollbwysig defnyddio rhwydweithiau amrywiol, hysbysebu wedi'i dargedu, a chydweithio strategol er mwyn gwneud y mwyaf o atgyfeiriadau, codi ymwybyddiaeth, ac ymgysylltu'n effeithiol â'r busnesau targed. Ar y cyfan, roedd arwyddion cadarnhaol o alinio, megis y berthynas agos a'r cydweithio rhwng Busnes Cymru a'r Banc Datblygu. Dywedwyd bod y ddarpariaeth sgiliau wedi'i halinio'n dda, gan gynnig atgyfeirio cryf a chydgysylltu cynhwysfawr. Tynnwyd sylw hefyd at ymdrechion i gysylltu entrepreneuriaeth, y Warant i Bobl Ifanc, a chyflogadwyedd. Fel y crybwyllwyd uchod, pwysleisiwyd gwelliant parhaus

mewn perthynas ag atgyfeirio cliriach a gwell cydweithredu â sefydliadau allweddol, yn enwedig y rheiny a wasanaethai gymunedau amrywiol. Yn ogystal, yn y byd ôl-bandemig, pwysleisiodd ymgyngoreion bwysigrwydd rhyngweithio wyneb yn wyneb yn ogystal ag ymweliadau â swyddfeydd i gynnal a chryfhau'r perthnasoedd strategol hyn.

#### 4.1.1. Craidd a Thwf L1 i 4

Câi Gwasanaeth Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru ei hyrwyddo trwy fentrau marchnata strategol gan gynnwys hunanhyrwyddo, teledu, cwsmeriaid yn sôn wrth eraill, ac atgyfeiriadau sy'n cyfrannu at hyrwyddo Busnes Cymru.

- Atgyfeiriadau mewnol yn erbyn rhai allanol: ystyriwyd bod atgyfeiriadau a ddeuai drwy dîm marchnata Partneriaeth Twf Cymru o ansawdd uwch a bod ganddynt gyfradd trosi uwch na'r rhai a ddaeth drwy wefan Busnes Cymru (ffurflen ar y we), er efallai bod hyn yn annisgwyl, gan ei bod yn anoddach fetio ymholiadau ar-lein. Ymhellach, yn ystod ymgynghoriadau â'r tîm cyflenwi, dywedwyd mai gwerthfawr iawn oedd yr atgyfeiriadau gan randdeiliaid sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau ac yn dylanwadu arnynt, megis cyfreithwyr a chyfrifwyr, yn enwedig o ran busnesau sy'n canolbwyntio ar dwf. Awgryma'r tîm y byddai'n fuddiol gwella'r elfen hon, yn enwedig trwy fynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth ac ehangu ymwybyddiaeth.
- Cwsmeriaid yn sôn wrth eraill: ystyrir bod hyn yn ddylanwadol iawn, o ystyried yr ymwybyddiaeth gref o frand Busnes Cymru; fodd bynnag, nododd ymgyngoreion fod lle i wella yn dal o ran cynyddu ei amlygrwydd a'i enw da.
- Llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol: mae'r rhain wedi sicrhau cryn ymgysylltu, ond mae cyfradd trosi ymholiadau a gynhyrchir trwy'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn isel. Er ei bod yn cymryd cryn dipyn o amser, mae'r broses wirioneddol o drosi cyswllt drwy'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn llai llwyddiannus.
- Hysbysebu ar y radio: mae hyn wedi bod yn effeithiol o ran cyrraedd ardaloedd gwledig Cymru, yn enwedig ymhlith cymudwyr (sy'n tueddu i wrando ar y radio). Dywedir (gan randdeiliaid) bod y dull hwn wedi dangos canlyniadau cadarnhaol o ran codi ymwybyddiaeth.

Wrth roi'r rhaglen ar waith, mae Partneriaeth Twf Cymru (PTC) wedi meithrin perthynas waith agos â Llywodraeth Cymru, gan gydweithio ar weithgareddau marchnata ar yr un pryd â sicrhau cydymffurfio â rheoliadau. Nododd un rhanddeiliad fod yna gyfyngiadau i'r

hyn y gellir ac na ellir ei wneud mewn perthynas â marchnata, sy'n dangos glynu caeth at y canllawiau. Mae'r berthynas rhwng PTC a Llywodraeth Cymru wedi cryfhau dros amser, gan arwain at ymdrechion hyrwyddo mwy effeithiol. Er enghraifft, soniodd un cynghorydd am fwy o gyfathrebu rhwng cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a thîm marchnata PTC, gan arwain at well cyd-ddealltwriaeth o nodau, strategaethau marchnata cydlynol, a gwell cyfnewid gwybodaeth. Mae'r cyfnewid profiadau a gwybodaeth hwn am y farchnad wedi cyfrannu at wneud penderfyniadau gwybodus a gwell mentrau marchnata.

Wrth i gyfnod ariannu'r UE nesáu at ei derfyn, un o'r heriau mwyaf a wynebwyd gan PTC fu ymgysylltu a recriwtio busnesau yn effeithiol wrth lywio drwy dirwedd rhaglenni eraill sydd hefyd ar yr un pryd yn cynnig cymorth i fusnesau, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o'r Gronfa Adfywio Cymunedol (CRF). I fynd i'r afael â'r her hon, mae Busnes mewn Ffocws wedi ymateb drwy feithrin mwy o gydweithio â darparwyr gwasanaethau eraill. Maent hefyd wedi cymryd camau tuag at alinio eu naratif hyrwyddo a marchnata â natur gyflenwol y gwasanaethau hyn. Drwy bwysleisio'r synergeddau rhwng gwahanol raglenni cymorth, mae PTC wedi ceisio symleiddio'r cyfathrebu a rheoli'r ymgysylltiad â busnesau yn effeithiol.

#### 4.1.2. Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru (rhaglen AGP BC)

Mae rhaglen AGP BC yn dewis a dethol ac yn canolbwyntio ar fusnesau sydd â nodweddion penodol. Ystyrir bod dulliau marchnata eang yn wrthgynhyrchiol, gan y gallent ddenu busnesau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf twf. Yn lle hynny, mae gan Reolwyr Cysylltiadau rôl hollbwysig wrth recriwtio busnesau i raglen AGP BC. Gall Rheolwyr Cysylltiadau fynd ati'n ofalus i ddewis busnesau addas sydd â photensial i dyfu o'u portffolio a'u rhwydwaith.

Cymysg oedd y farn am effeithiolrwydd atgyfeiriadau gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru yn ogystal â phartneriaid strategol, fel y gwelwyd o ymgynghoriadau. Y consensws cyffredinol yw mai bychan oedd effaith atgyfeiriadau o'r fath. Fodd bynnag, nodwyd gan rai rhanddeiliaid strategol fod pryderon yn bodoli ynghylch y meini prawf cymhwyster ar gyfer lefelau darpariaeth a'r gwahaniaeth rhwng Lefel 4 Craidd a Thwf a rhaglen AGP BC. Argymhellodd un rhanddeiliad fod angen mwy o eglurder a gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid i sicrhau bod busnesau'n cael eu pennu'n briodol i'r rhaglen fwyaf addas.

Un o’r heriau wrth hyrwyddo ac ymgysylltu â busnesau targed oedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gychwynnol y cyfranogwyr. Nododd un ymgynghorai ddryswch ymhlith busnesau ynghylch y cysylltiad rhwng gwasanaeth Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru a rhaglen AGP BC.

#### 4.1.3. Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)

Tîm marchnata penodedig Serco oedd yn gyfrifol am hyrwyddo’r llinyn band eang a chymorth digidol. Defnyddiai’r tîm marchnata mewnol amryw o sianeli ar gyfer targedu, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, astudiaethau achos, a chroesgyfeiriadau â gwasanaethau cymorth eraill Busnes Cymru. Wrth hyrwyddo, canolbwyntiai’r tîm yn fwy ar fanteisio ar frand ac adnabyddiaeth Llywodraeth Cymru a Busnes Cymru.

Yn ogystal, cydweithiodd y tîm â rhanddeiliaid amrywiol (awdurdodau lleol, grwpiau rhwydweithio, a Croeso Cymru) i godi ymwybyddiaeth a darparu marchnata ar-lein wedi’i dargedu. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn gefnogol i rannu gwybodaeth o’r llinyn band eang a chymorth digidol drwy sianeli eu cyfryngau cymdeithasol, a hynny wedi helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Yn debyg i wasanaeth Craidd a Thwf L4, disgrifwyd y cyfyngiadau marchnata i fod yn llesteiriol. Anogir cleientiaid i gysylltu â Busnes Cymru yn gyntaf ac yna cânt eu cyfeirio at gymorth arbenigol gan SFBE os oes angen. Er bod gan Serco eu presenoldeb ar y we a’u hymgyrch farchnata eu hunain ar gyfer SFBE, mae’r gofyniad i gleientiaid gysylltu â Busnes Cymru wedi cyfyngu ar allu Serco i ymgysylltu’n uniongyrchol â’r gynulleidfa darged yn ôl yr hyn a ddeallir.

Er bod SFBE wedi bod yn weithgar drwy gydol y broses o gynnal y rhaglen, nododd ymgyngoreion fod busnesau yn dal nad ydynt wedi clywed am y gwasanaeth cymorth. Pe bai cynlluniau tebyg yn cael eu hystyried ar gyfer y dyfodol, efallai y bydd angen gwneud ymdrech i wella ymwybyddiaeth a sicrhau bod buddion y rhaglen yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

#### 4.1.4. COVID-19

Cyflymodd pandemig COVID-19 y newid i ddulliau ymgysylltu ar-lein. Yn hytrach na digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ymweliadau â chwmnïau, cynhaliwyd digwyddiadau ar-lein a chynigiwyd cymorth o bell. Daeth marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein yn llwybrau ymgysylltu allweddol yn ystod y pandemig. Ehangwyd ar y

defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol, a daeth sianeli digidol yn fwy amlwg wrth gyrraedd busnesau a rhoi cefnogaeth.

Yn ogystal, esgorodd y pandemig ar newidiadau i flaenoriaethau a negeseuon. Tynnodd y pandemig sylw at bwysigrwydd digideiddio a chyflwyno band eang, gan greu diddordeb a chyfleoedd i fusnesau addasu a mynd ar-lein.

Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau COVID-19 wedi cyfyngu ar y gallu i adeiladu rhwydweithiau a pherthnasoedd newydd. Er bod perthnasoedd sefydledig yn parhau’n gryf, roedd diffyg rhyngweithio personol wedi peri heriau wrth ddatblygu cysylltiadau â busnesau newydd. Mae’r dull digidol o ymgysylltu wedi parhau’n gryf hyd yn oed ar ôl y pandemig.

Roedd y newid hwn wedi caniatáu i’r ymgysylltu barhau ac wedi lleihau’r angen am deithio corfforol. Ystyriwyd bod gweithio o bell yn elfen gadarnhaol, gan arwain at fwy o effeithlonrwydd, llai o gostau rhedeg a theithio, a bod adnoddau ar-lein yn rhwydd cael atynt. Daeth gweminarau a grwpiau rhwydweithio ar-lein yn fwy cyffredin gan roi modd cael mwy o hyblygrwydd mewn patrymau gwaith.

## 4.2. Proffil y mentrau a gymerodd ran

Dengys data BAS ar 31 Ionawr 2023 bod 11,470 o gofrestriadau busnesau ac entrepreneuriaid yn rhaglen Craidd a Thwf BC (a ddechreuodd yn 2016) a rhaglen Cyflymu Twf BC (a ddechreuodd yn 2015). Ni chafodd pob busnes a gymerodd ran ddigon o gymorth ar ôl dechrau i fod yn gymwys i dderbyn cymorth anariannol, ac roedd rhai busnesau a gymerodd ran wedi elwa o fwy nag un prosiect (gan gymryd rhan yn Cymorth Entrepreneuriaeth yn ogystal â Chymorth i BBaChau, er enghraifft). Ceir dadansoddiad o’r cyfranogwyr yn ôl natur y ddarpariaeth a gafwyd yn Nhabl 3.1 isod.

**Tabl 3.1: Nifer y mentrau ac entrepreneuriaid a gymerodd ran**


| Lefel | Cymorth i BBaChau (DC) | | Cymorth i BBaChau (GCC) | | Entrepreneuriaeth(DC) | | Entrepreneuriaeth (GCC) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| AGP | 220 | 13% | 367 | 12% | 116 | 5% | 183 | 4% | 886 | 8% |
| 1–4 | 1,458 | 87% | 2,665 | 88% | 2,086 | 95% | 4,375 | 96% | 10,584 | 92% |
| Cyfanswm | 1,678 | 100% | 3,032 | 100% | 2,202 | 100% | 4,558 | 100% | 11,470 | 100% |

Ffynhonnell: Data BAS

Mae cyfranogwyr rhaglen Cyflymu Twf (AGP) BC yn fwy tebygol o fod yn BBaChau oedd yn bodoli eisoes nag yn unigolion oedd wrthi yng nghanol dechrau busnes, gyda rhaglen cleientiaid AGP BC yn cynrychioli un o bob wyth (12.4%) a gafodd gymorth prosiectau Cymorth i BBaChau ac un o bob 20 (5%) a gafodd gymorth prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth.

Cyflwynir proffil sector y mentrau a gymerodd ran yn Ffigur 3.1 isod. Dadansoddwyd y data fel canran o'r holl rai a gafodd gymorth lle cofnodir Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) pedwar digid ac i'r rheiny a gafodd ddigon o oriau i gael eu cofnodi i fod wedi derbyn cymorth anariannol. Dengys y ffigur mai'r sector mwyaf poblogaidd ar gyfer mynd am gymorth oedd y sector celfyddydau, adloniant a hamdden; fodd bynnag, yn y sector gweithgynhyrchu yr oedd cyfran uchaf y busnesau a ddosbarthwyd i fod yn rhai a gafodd gymorth anariannol.


**Ffigur 3.1: Mentrau cyfranogol sy'n derbyn cymorth anariannol yn ôl sector diwydiannol eang**




Ffynhonnell: Data BAS o fis Ebrill 2016 hyd at fis Ionawr 2023 (n=10,763 Cyfanswm Busnesau a n=5,960 yn cael cymorth anariannol)

Cyflwynir proffil sectorau ymatebwyr yr arolwg yn ôl math y ddarpariaeth (Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru neu raglen AGP BC L5) yn Ffigur 3.2 isod. Dengys y siart fod rhaglen AGP BC yn boblogaidd i fusnesau sy’n gweithredu yn y sectorau gweithgynhyrchu a gwybodaeth a chyfathrebu. O’u cymharu â’r busnesau yn narpariaeth Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru, mae’r rhai yn rhaglen AGP BC bron bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn gweithredu yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu a dwywaith yn fwy tebygol o fod yn gweithredu yn y sector gweithgynhyrchu.

**Ffigur 3.2: Proffil sectorau Craidd a Thwf L1 i 4 a rhaglen AGP BC**





Sylfaen: Pump %
Ffynhonnell: data'r System Cyfrifon Busnes (BAS)

Cyflwynir proffil sectorau holl ddata BAS yn Ffigur 3.3 isod ynghyd â chymhariaeth o'r holl fusnesau a holwyd o raglenni Busnes Cymru. Mae cryn amrywiaeth rhwng rhai sectorau; fodd bynnag, dylid nodi bod y tîm ymchwil wedi dyrannu ymatebwyr yr arolwg yn ôl sector yn seiliedig ar y disgrifiad a roddodd yr ymatebydd o'r hyn y mae eu busnes yn ei wneud. Deellir mai sgyrsiau rhwng y cleient a'r cynghorydd busnes fel rhan o'r broses gofrestru oedd sail y data sectorau sydd yn BAS. Mae'n bosibl bod proffil sectoraidd ymgysylltu â

darpariaeth Busnes Cymru hefyd wedi newid dros amser, ac mae'r nifer is na'r disgwyl o gyfranogwyr rhaglen AGP BC a gymerodd ran yn yr arolwg o ganlyniad i ffrâm y sampl hefyd yn debygol o gael rhywfaint o ddylanwad ar yr amrywiad.

**Ffigur 3.3: Proffil sector ymatebwyr yr arolwg yn erbyn data BAS** [troednodyn **27**]




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF a data BAS (n=909 [arolwg] a n=10,763 [BAS])


[27] Nid yw set data'r System Cyfrifon Busnes (BAS) ar hyn o bryd yn cynnwys data SFBE.

#### 4.2.1. Cwmpas daearyddol

**Argymhelliad**

Yn Ffigur 3.4 isod cyflwynir dosbarthiad daearyddol y mentrau a gymerodd ran yn ôl y math o gymorth a gafwyd. Mae'n dangos bod cleientiaid AGP BC yn fwy cyffredin ledled rhanbarthau De Cymru, gyda dim ond 3% o gleientiaid AGP BC wedi'u lleoli yn y Canolbarth (er bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru fentrau a oedd yn sicrhau lle yn rhaglen AGP BC).

**Ffigur 3.4: Dosbarthiad rhanbarthol mentrau ac entrepreneuriaid a gymerodd ran**





Ffynhonnell: Data BAS (n=886 [Cyflymu Twf] a n=10,584 [L1 i 4])

Mae Ffigur 3.5 isod yn dadansoddi dosbarthiad daearyddol busnesau ar lefel awdurdod lleol, gan gymharu cyfran busnesau Craidd a Thwf L1 i 4 BC, cyfran busnesau rhaglen AGP BC, a stoc yr holl BBaChau. Dengys y siart fod bron i 19% o'r rhai yn rhaglen AGP BC wedi'u lleoli yng Nghaerdydd i gymharu â 10 % o'r rheiny yn Craidd a Thwf L1 i 4 BC. Canfuwyd patrymau tebyg o orgynrychiolaeth yn rhaglen AGP BC yn Sir Benfro, Caerffili, ac, i raddau llai, Abertawe. Mae tangynrychiolaeth yn rhaglen AGP BC o gymharu â chyfanswm y stoc BBaCh yn amlwg mewn ardaloedd gwledig yn bennaf neu ardaloedd ymylol eu daearyddiaeth gan gynnwys Ceredigion, Powys, Gwynedd, ac Ynys Môn.

Mewn sawl ardal, sef Powys, Rhondda Cynon Taf, Sir y Fflint, Bro Morgannwg a Sir Fynwy, mae tangynrychiolaeth ar draws y ddau faes cymorth. Mewn rhai ardaloedd, gall proffil sector busnesau ddylanwadu ar lefelau ymgysylltu (mae gan Bowys, er enghraifft, nifer cymharol uchel o fusnesau yn gweithredu yn y sector amaethyddol, a'r rheiny'n debygol o gael mynediad at gymorth drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig). Mewn ardaloedd eraill mae'r rheswm dros lefelau ymgysylltu is â chymorth busnes yn llai clir.


**Ffigur 3.5: Canran cyfanswm y busnesau a gefnogwyd yn ôl awdurdod lleol o gymharu â chyfanswm stoc BBaChau: rhaglenni L1 i 4 BC ac AGP BC**




Ffynhonnell: Data BAS (n=886 [rhaglen AGP BC] a n=10,584 [L1 i 4])

Mae Ffigur 3.6 yn dadansoddi cyfranogwyr SFBE yn ôl ardal awdurdod lleol ac yn cymharu'r rhain â stoc y BBaChau. Mae'n dangos llai o amrywiad o'r stoc busnesau, gyda Phowys, Sir y Fflint, a Wrecsam wedi'u tangynrychioli braidd yn y ddarpariaeth, a Gwynedd a Chonwy wedi'u gorgynrychioli.

**Ffigur 3.6: Canran cyfanswm y busnesau a gefnogwyd yn ôl awdurdod lleol o gymharu â chyfanswm stoc BBaChau – SFBE**





Ffynhonnell: Data BAS (n=4,947 [SFBE])

O'r mentrau a gymerodd ran, roedd 73% o'r rheiny yn rhaglen AGP BC yn ficrofusnesau (0 i 9 o weithwyr) o'i gymharu ag 89% o'r rheiny yn Craidd a Thwf L1 i 4 BC a 91% yn SFBE.

Mae Ffigur 3.7 isod yn rhoi dadansoddiad o amseriad ymgysylltu â darpariaeth Craidd a Thwf L1 i 4 BC, rhaglen AGP BC, a SFBE. Dengys erbyn diwedd 2018 fod tri chwarter (75%) o holl gleientiaid rhaglen AGP BC wedi'u cofrestru yn y cymorth (ac erbyn 2019, 89% o holl gleientiaid rhaglen AGP BC). I'r gwrthwyneb, erbyn diwedd 2018, roedd 38% o'r rheiny a gofrestrodd yn Craidd a Thwf L1 i 4 wedi'u hymgysylltu a 30% yn SFBE. Roedd cofrestru cynnar ar raglen AGP BC yn adlewyrchu'r ffaith fod yn rhaglen wedi dechrau yn 2015 (tra bod Craidd a Thwf L1 i 4 a SFBE wedi dechrau yn 2016) yn ogystal ag adlewyrchu'r pwyslais ar roi cymorth dwys dros gyfnod parhaus i BBaChau a ddangosai'r rhagolygon cryfaf ar gyfer twf. Câi darparwyr contract eu contractio ar sail talu-wrth-ganlyniadau ac, felly, yn debygol o geisio cael busnesau i ymgysylltu'n gynnar i feithrin perthnasoedd a chefnogi busnesau drwy eu cromlin twf i wneud y gorau o'u gallu i gasglu dangosyddion targed.

**Ffigur 3.7: Y flwyddyn cael cymorth am y tro cyntaf gan Busnes Cymru**




Ffynhonnell: Data BAS (n=886 [rhaglen AGP BC], n=10,557 [L1 i 4], a n=4,844 [SFBE])

### 4.2.2. Proffil ymatebwyr yr arolwg

Mae Tabl 3.2 yn rhoi dadansoddiad o'r adeg yr ymgysylltodd ymatebwyr yr arolwg â darpariaeth Busnes Cymru ac yn dangos bod dros hanner y rhai a holwyd (54%, 488/909) wedi ymgysylltu â Busnes Cymru yn dilyn cyflwyno cyfnod clo cyntaf COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Ymysg y rhai ym mhrosiect twf BBaChau roedd gogwydd arbennig tuag at fusnesau a gofrestrodd ar ôl Mawrth 2020, gyda 61% wedi gwneud hynny.

**Tabl 3.2: Dosbarthiad ymatebwyr yr arolwg yn ôl adeg ymgysylltu â darpariaeth Busnes Cymru**

| | Mawrth i Hydref 2019 | Hydref 2019 i Mawrth 2020 | Mawrth 2020 ymlaen | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pawb (canran) | 27% | 19% | 54% | 100% |
| Pawb | 246 | 175 | 488 | 909 |
| Entrepreneuriaeth | 73 | 54 | 111 | 238 |
| Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn | 73 | 67 | 132 | 272 |
| Twf BBaCh | 100 | 54 | 245 | 399 |

## 4.3. Nodweddion yr unigolion a ddefnyddiodd rhaglen Busnes Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dadansoddiad o ddata demograffig ar gyfer darpariaeth rhaglen AGP BC a Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru. Mae Tabl 3.3 isod

yn cyflwyno demograffeg cleientiaid yn rhaglen AGP BC a Craidd a Thwf L1 i 4 a oedd yn fodlon rhoi'r wybodaeth honno. Dengys y tabl fod cydbwysedd bron rhwng y rhywiau yn narpariaeth Craidd a Thwf L1 i 4, tra bod dynion yn dominyddu'r rhaglen AGP BC, gan gyfrif am dros dri chwarter y cyfranogwyr.

Roedd y rheiny o darddiad du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn cynrychioli 7 i 8% o'r holl gyfranogwyr ac yn cynrychioli 5.2% o gyfanswm y boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru [troednodyn 28]. Felly mae'r rheiny o darddiad du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig wedi'u gorgynrychioli yn Busnes Cymru o gymharu â'r boblogaeth ehangach.

Roedd siaradwyr Cymraeg yn 8% o'r rhai a oedd wedi ymwneud â rhaglen AGP BC a 5% o'r rhai a gymerodd ran yng ngwasanaeth Craidd a Thwf L1 i 4, sy'n cymharu ag 18% o'r holl oedolion sy'n disgrifio eu hunain i fod yn siaradwyr Cymraeg [troednodyn 29]. Mae cynrychiolaeth is y siaradwyr Cymraeg sy'n cyrchu cymorth Gwasanaeth Craidd a Thwf L1 i 4 a rhaglen AGP BC yn debygol o fod wedi'i ddylanwadu gan ddosbarthiad daearyddol y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn (gyda'r rheini mewn ardaloedd daearyddol lle mae'r Gymraeg yn llai cyffredin yn defnyddio'r gwasanaethau hyn amlaf), fel yr amlinellir yn Ffigur 3.4 uchod.

Dengys y tabl hefyd gynrychiolaeth isel o blith unigolion 16 i 24 oed. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod darpariaeth bwrpasol ar gyfer y grŵp oedran hwn yn cael ei gynnig drwy'r Gwasanaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid a Syniadau Mawr Cymru.

**Tabl 3.3: Proffil cleientiaid yn ôl prosiect**

| Cofrestriadau cleientiaid o 2015 i Mawrth 2023 | Cyflymu Twf BC | | Craidd a Thwf L1 i 4 | |
|---|---|---|---|---|
| | n | % | n | % |
| Dynion | 1,875 | 77% | 25,146 | 53% |
| Menywod | 544 | 23% | 21,882 | 45% |
| Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | 205 | 8% | 3,060 | 6% |
| Anabl | 50 | 2% | 2,371 | 5% |
| Pobl ifanc (16–24) | 116 | 5% | 1,025 | 2% |
| Siarad Cymraeg | 197 | 8% | 2,541 | 5% |

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru

O'r mentrau a gefnogwyd a gafodd dros chwe awr o gefnogaeth ar ôl dechrau eu busnes, mae cyfansoddiad perchnogaeth y mentrau hynny wedi'u nodi yn Nhabl 3.4 isod. Mae'r tabl

[28] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer pobl 16–64 oed (Medi 2022).
[29] Cyfrifiad (2021).

yn dangos patrwm tebyg o ran rhyw ar gyfer rhaglen AGP BC o ran perchnogaeth busnes, tra ymhlith L1 i 4, menywod yw'r rhan fwyaf o berchenogaeth busnesau newydd sy'n cael cymorth gan Busnes Cymru.

**Tabl 3.4: Demograffeg perchnogion busnes a gafodd dros chwe awr o gymorth gan Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru a rhaglen Cyflymu Twf BC**

| Perchnogaeth | Mentrau a gefnogwyd drwy raglen Cyflymu Twf BC | | Busnesau newydd yn dechrau rhaglen Cyflymu Twf BC | | Mentrau a gefnogwyd L1 i 4 | | Busnesau newydd yn dechrau L1 i 4 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** | **N** | **%** |
| Dynion | 1,299 | 78% | 576 | 77% | 7,340 | 56% | 2,637 | 48% |
| Menywod | 368 | 22% | 176 | 23% | 5,724 | 44% | 2,860 | 52% |
| Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig | 149 | 9% | 56 | 7% | 524 | 4% | 349 | 6% |
| Anabl | 37 | 2% | 13 | 2% | 402 | 3% | 141 | 3% |
| Siarad Cymraeg | 143 | 9% | 71 | 9% | 762 | 6% | 615 | 11% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gofynnodd cyfanswm o 859 o gyfranogwyr (pob un wedi cael cymorth drwy wasanaeth Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru) am gael y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl y wybodaeth fonitro, ni ofynnodd unrhyw gyfranogwr yn rhaglen AGP BC i'r cymorth gael ei ddarparu yn Gymraeg. O'i ddadansoddi yn erbyn niferoedd y cyfranogwyr sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn Nhabl 3.4 uchod, awgryma hyn fod 62% (859/1,377) o siaradwyr Cymraeg wedi dewis derbyn y gefnogaeth yn y Gymraeg.

## 4.4. Ymwybyddiaeth o'r cymorth a chymhelliant dros ymwneud â'r cymorth

Mae Tabl 3.5 yn rhoi syniad o'r siwrnai tuag at gymorth i fusnesau a gymerodd ran. Mae'n dangos bod bron i draean o'r rheiny yn Cymorth Entrepreneuriaeth (28%) wedi'u hargymell i'r gwasanaeth; fodd bynnag, y llwybr mwyaf poblogaidd i ymgysylltu ar draws y ddarpariaeth, yn enwedig ar gyfer twf BBaChau, oedd trwy chwilio ar-lein.

**Tabl 3.5: Sut daethoch chi i wybod yn wreiddiol am y cymorth?**

| | Cymorth Entrepreneuriaeth | SFBE | Cymorth i BBaChau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Atgyfeiriad o sefydliad rhoi cymorth i fusnesau | 23% | 27% | 16% | **21%** |
| Chwilio ar-lein | 27% | 24% | 29% | **27%** |
| Cyswllt blaenorol â'r sefydliad darparu | 13% | 11% | 16% | **14%** |
| Ddim yn cofio | 3% | 9% | 6% | **6%** |
| Argymhelliad (gan fusnes arall, teulu, ffrind, etc.) | 28% | 15% | 20% | **21%** |
| Gweld marchnata'r rhaglen | 4% | 14% | 10% | **10%** |
| Arall (manylwch) | 1% | 0% | 3% | **2%** |
| Ymatebion | 238 | 272 | 399 | **909** |

Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF

Roedd ychydig llai na dwy ran o dair (64%) o ymatebwyr yr arolwg yn ymwybodol bod y cyngor neu'r cymorth a gawsant wedi'i ariannu drwy'r ERDF, a hynny'n cynyddu i 69% ymhlith y rhai a oedd wedi cael cymorth drwy SFBE (gweler Tabl 3.6 isod). Ymhellach, roedd 14 % o'r holl ymatebwyr wedi cael cymorth yn ddiweddar trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, gan gynyddu i 24% o ymatebwyr a gefnogwyd trwy SFBE yn Nwyrain Cymru.

**Tabl 3.6: Ymwybyddiaeth bod y cyngor neu'r cymorth wedi'i ariannu drwy'r ERDF**

| | Cymorth Entrepreneuriaeth | SFBE | Cymorth i BBaChau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Oeddwn | 61% | 69% | 63% | **64%** |
| Nac oeddwn | 34% | 25% | 30% | **30%** |
| Ddim yn gwybod | 5% | 6% | 7% | **6%** |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% | **100%** |

Pan ofynnwyd iddynt pam y daethant at y cymorth, mae'r ymatebion i raddau helaeth yn adlewyrchu natur y cymorth yr oedd busnesau a ymatebodd yn ceisio'i gael. Ymhlith y rhai a oedd yn derbyn Cymorth Entrepreneuriaeth, roedd 81% eisiau cymorth i ddechrau busnes, tra bod 70% o'r rhai yn SFBE a 61% o'r rhai yn Cymorth i BBaChau yn ceisio tyfu eu busnesau.

**Tabl 3.7: Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau eich rhesymau dros gael y cymorth? (sawl dewis)**

| | Entrepreneuriaeth | SFBE | Twf BBaCh | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Tyfu’r busnes | 42% | 70% | 61% | **59%** |
| Dechrau busnes | 81% | 24% | 29% | **41%** |
| Cynnal lefelau trosiant busnes, proffidioldeb | 19% | 35% | 34% | **31%** |
| Cyflwyno cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd | 25% | 29% | 29% | **28%** |
| Datblygu partneriaethau cydweithredol newydd | 15% | 13% | 21% | **17%** |
| Arallgyfeirio i farchnadoedd newydd yn y DU ac/neu ryngwladol | 11% | 12% | 15% | **13%** |
| Cymorth ymchwil a datblygu gan sefydliad addysg uwch | 7% | 4% | 9% | **7%** |
| Cynyddu lefelau gwerthiannau allforio | 7% | 3% | 8% | **6%** |
| Cymorth cyffredinol | 5% | 5% | 7% | **6%** |
| Cael gafael ar gyllid | 2% | 1% | 6% | **4%** |
| Cymorth digidol | 0% | 8% | 1% | **3%** |
| Marchnata | 0% | 9% | 1% | **3%** |
| **Nifer** | **238** | **272** | **399** | **909** |

Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF

Soniodd yr ymgynghoriadau â’r tîm cyflenwi a rhanddeiliaid am bwysigrwydd addasu a pharhau i fod yn hyblyg i anghenion newidiol busnesau. Pan ofynnwyd sut oedd anghenion cymorth busnes wedi newid dros amser:

- Gwasanaeth Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru: tynnodd un ymgynghorai sylw at y ffaith bod anghenion cymorth busnesau cyn dechrau eu busnes yn parhau yr un fath (waeth beth fo’r hinsawdd economaidd). Ar gyfer busnesau ar ôl iddynt ddechrau, fodd bynnag, mae’r gwasanaethau wedi ymateb i ffactorau allanol fel y dirwasgiad economaidd, y pandemig, a’r argyfwng costau byw – gan gynnwys cymorth â chyngor ar ansolfedd, canfod effeithlonrwydd gweithredol, recriwtio, cael gafael ar gyllid, a strategaethau twf. Mae cymhlethdodau Brexit wedi gweld ceisiadau am gymorth â mewnforio ac allforio, tra bod y pandemig a thueddiadau byd-eang wedi gweld y galw am gymorth digidol yn cynyddu
- Rhaglen Cyflymu Twf (AGP) BC: nid oes un her benodol ond yn hytrach ystod amrywiol o faterion. Yn hytrach, deuai busnesau’n aml at raglen AGP BC gydag anghenion penodol (yn hytrach nag yn chwilio am gymorth cyffredinol ar gyfer tyfu eu busnes). Mae’r rhaglen yn cynnig cymorth cychwynnol wedi’i deilwra ar gyfer yr anghenion penodol hyn, ac wrth i fusnesau symud ymlaen gallant dderbyn cymorth mwy cynhwysfawr yn ymwneud â rheoli, buddsoddi a

marchnata. Mae hyn yn cydnabod bod busnesau sy'n tyfu yn wynebu heriau cyffredin, er mewn modd nad yw'n digwydd mewn llinell syth

- SFBE: roedd y ffocws cychwynnol ar farchnata digidol a'r cyfryngau cymdeithasol wedi ehangu i gynnwys meysydd eraill fel e-fasnach, systemau cwmwl, cymorth optimeiddio peiriannau chwilio (SEO), a seiberddiogelwch. Awgryma hyn fod busnesau yn chwilio am gymorth ag elfennau mwy amrywiol gweithrediadau digidol

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a fyddent wedi chwilio am gymorth arall yn absenoldeb y cymorth hwnnw. Teimlai ychydig dros hanner yr holl ymatebwyr (53%) ei fod yn debygol neu'n debygol iawn y byddent wedi mynd i chwilio am gymorth arall, tra teimlai tua 40% o ymatebwyr (a 48% o ymatebwyr a gafodd gymorth SFBE) y byddai'n annhebygol y byddent wedi chwilio am gymorth yn rhywle arall pe na bai darpariaeth Busnes Cymru ar gael iddynt.

**Tabl 3.8: Petai'r rhaglen heb fodoli, pa mor debygol yw hi y byddech wedi chwilio am gymorth o ffynonellau eraill?**

| | Entrepreneuriaeth | SFBE | Twf BBaCh | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Tebygol iawn | 27% | 24% | 32% | 28% |
| Tebygol | 27% | 21% | 27% | 25% |
| Annhebygol | 22% | 31% | 22% | 24% |
| Annhebygol iawn | 19% | 17% | 13% | 16% |
| Ddim yn gwybod | 5% | 7% | 6% | 6% |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF. Sylwer bod y canrannau hyn wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf ac felly efallai nad ydynt yn ymddangos i fod yn gyfanswm o 100%

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd wedi eu denu at gymorth Busnes Cymru (yn hytrach na chymorth o ffynhonnell arall), ffactorau allweddol a oedd yn dylanwadu ar eu hymgysylltiad oedd hwylustod cael gafael ar y cymorth a'r ffaith ei fod yn rhad ac am ddim (yn enwedig i'r rhai a gafodd gymorth SFBE) (gweler Tabl 3.9 isod).

**Tabl 3.9: Pam wnaethoch chi fynd ar ofyn y cymorth drwy'r prosiect hwn, yn hytrach nag o ffynhonnell arall? (sawl dewis)**

| | **Entrepreneuriaeth** | **SFBE** | **Twf BBaCh** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogaeth a chyngor haws ei gael | 54% | 51% | 56% | **54%** |
| Am ddim neu'n rhatach na chymorth arall sydd ar gael | 48% | 59% | 48% | **51%** |
| Yn fwy addas i anghenion y busnes | 36% | 36% | 35% | **35%** |
| Gwell ansawdd | 27% | 18% | 21% | **22%** |
| Y rhaglen wnaeth gysylltu â ni | 10% | 16% | 12% | **13%** |
| Yr unig un y gwyddom amdano | 11% | 4% | 6% | **6%** |
| Argymhelliad | 5% | 4% | 5% | **5%** |
| Rydym yn ymddiried ynddo, gwyddem amdano yn flaenorol, ei gysylltu â Llywodraeth Cymru | 5% | 3% | 6% | **5%** |
| Arall | 6% | 4% | 4% | **5%** |
| Ddim yn gwybod | 2% | 4% | 4% | **3%** |
| Nifer | 238 | 272 | 399 | 909 |

Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF, sylwer y gallai ymatebwyr yr arolwg ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn, felly, nid yw'r canlyniadau yn y tabl yn adio i 100%.

## 4.5. Crynodeb

- Mae brand Busnes Cymru yn adnabyddus yn eang ac ymddiriedir ynddo ac mae'n dod yn fwyfwy poblogaidd mewn cymunedau lleol ac ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Drwy gydgysylltu gweithgarwch hyrwyddo rhwng Llywodraeth Cymru a'r contractwyr sicrhawyd bod y porth a'r gwasanaethau diagnostig yn cyd-fynd â'i gilydd.
- Un o'r heriau amlycaf oedd llywio drwy'r tirwedd sydd â rhaglenni eraill a oedd hefyd yn cefnogi busnesau, megis y Gronfa Adfywio Cymunedol, ar yr un pryd â pharhau i ymgysylltu a recriwtio busnesau yn effeithiol.
- Mae rhaglen Cyflymu Twf (AGP) BC yn dibynnu ar Reolwyr Cysylltiadau i fynd ati'n ofalus i ddewis a dethol busnesau addas sydd â photensial i dyfu o'u portffolio a'u rhwydwaith. Arweiniodd tîm marchnata penodedig yn Serco weithgarwch hyrwyddo SFBE gan ganolbwyntio ar ysgogi'r gydnabyddiaeth a'r ymddiriedaeth sy'n gysylltiedig â brand Busnes Cymru.
- Roedd y rheiny a oedd yn rhan o raglen AGP BC ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn gweithredu yn y sector gweithgynhyrchu a bron bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn gweithredu yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu na'r rhai yn Craidd a Thwf L1 i 4.
- Roedd busnesau o Gaerdydd, Sir Benfro a Chaerffili wedi'u gorgynrychioli yn rhaglen AGP BC, tra bod lleoliadau gwledig neu ymylol yn ddaearyddol yn tueddu i fod wedi'u tangynrychioli. Roedd ffrâm sampl yr arolwg busnes yn targedu'r rhai a oedd wedi cofrestru ers Mawrth 2019 er mwyn cynorthwyo â chofio'r gwasanaethau a gafwyd. Arweiniodd hyn at dangynrychiolaeth ymhlith cleientiaid rhaglen AGP BC yn yr arolwg busnes.
- Erbyn diwedd 2018, roedd 75% o gleientiaid rhaglen AGP BC wedi'u cofrestru ar y rhaglen, o'i gymharu â 38% o gleientiaid Craidd a Thwf L1 i 4 a 30% o gleientiaid SFBE.
- Roedd ychydig llai na dwy ran o dair o ymatebwyr yr arolwg yn ymwybodol bod y cymorth yn cael ei ariannu drwy'r ERDF, a hynny'n cynyddu i 69% ymhlith y rhai a oedd yn cael cymorth drwy SFBE.
- Teimlai tua 40% o ymatebwyr yr arolwg ei bod yn annhebygol y byddent wedi mynd i chwilio am gymorth o rywle arall pe na bai darpariaeth Busnes Cymru ar gael iddynt.

# 5. Darparu'r Gwasanaeth

## 5.1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio natur y cymorth a gafwyd a'r bodlonrwydd â'r cymorth hwnnw, gan dynnu ar dystiolaeth a gasglwyd drwy'r arolwg a gynhaliwyd ar gyfer contract Cymorth Busnes yr ERDF. At hynny, mae'n adfyfyrio ar adborth gan randdeiliaid strategol a'r rheiny sy'n ymwneud â rheoli a darparu gwasanaethau cymorth.

Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru sydd wedi ymwneud â dylunio, gweithredu a chael trosolwg strategol ar Busnes Cymru yn credu bod rhaglen Busnes Cymru wedi rhoi gwerth sylweddol i fusnesau, gan gynnig darpariaeth a rhyngweithiadau o ansawdd uchel. At ei gilydd, ystyriwyd ei fod wedi llwyddo i ymgysylltu â darparwyr abl sydd wedi gallu cynnig gwerth sylweddol i gwmnïau. Er bod rhai ymgyngoreion wedi nodi pryderon ynghylch sicrhau ansawdd a chysondeb y rhaglen a ddarperir gan gontractwyr annibynnol, cafodd y rhaglen ei chanmol gan ymgyngoreion am ei chydweithio, ymgysylltu a chydgysylltu effeithiol ar lefelau cynllunio gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys y rhyngwyneb strategol â gwasanaethau'r DU, yr hyn a gynigir yn genedlaethol yng Nghymru, a darpariaethau rhanbarthol a lleol.

Dangoswyd ymatebolrwydd a dealltwriaeth dda o ymddygiad a phatrymau busnes, gan symud ac addasu yn effeithiol a chyflym i ddiwallu anghenion (gan gynnwys y rheiny sy'n deillio o siociau allanol fel Brexit, COVID-19, a'r argyfwng costau byw).

Cafodd y rhaglen ei chanmol gan ymgyngoreion wrth sôn am ei hymateb cyflym i'r pandemig, yn enwedig y symud i ddarpariaeth ar-lein i barhau i gynnig gwasanaeth pan oedd yr angen ar ei uchaf, gan helpu busnesau i newid ac addasu i ymateb i farchnad oedd yn newid. Cyn y pandemig, roedd cefnogaeth wyneb yn wyneb yn amlwg; fodd bynnag, arweiniodd y pandemig at newid cyflym i weithio o bell a chynnig cymorth ar-lein, gan gynnwys gweminarau a chyfarfodydd rhithwir, a hynny wedi galluogi mwy o hyblygrwydd a gwell effeithlonrwydd. Ar y dechrau, wynebwyd heriau wrth fabwysiadu technolegau newydd fel Zoom a sefydlu systemau ar-lein diogel. Ymhellach, wrth i anghenion busnesau ddatblygu, felly hefyd y ddarpariaeth (gan gynnwys cyflwyno mentrau cymorth iechyd meddwl megis swyddogion llesiant, a mynediad at apiau cymorth).

Mae rhanddeiliaid o'r farn fod y rhaglen wedi dangos hyblygrwydd rhanbarthol wrth gyflwyno rhaglen genedlaethol, gan gydnabod yr angen i ategu'r hyn a gynigir ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Soniodd rhanddeiliaid i'r berthynas gryfhau dros amser rhwng

cynghorwyr Busnes Cymru a swyddogion lleol, gan hwyluso gwell cydweithio. Fodd bynnag, roedd barn wahanol ynghylch argaeledd cymorth ledled Cymru. Nid oedd llawer yn teimlo bod gwahaniaethau amlwg, tra soniodd eraill am bresenoldeb mwy o gefnogaeth yn DC, yn enwedig mewn perthynas â rhaglen AGP BC (o gymharu â dosbarthiad mwy cytbwys o gymorth Craidd a Thwf L1–4). Mae rhanddeiliaid yn rhybuddio y gallai heriau godi yn y dyfodol wrth i gronfeydd eraill ddod i'r fei, megis Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), a allai effeithio ar sicrhau cydgysylltu, ategu a chwmpas darpariaeth gyson ledled Cymru.

### 5.1.1. Rhaglen Craidd a Thwf L1 i 4

O ran cleientiaid Craidd a Thwf L1 i 4, roedd gweminarau un-i-lawer wedi'u hategu â chymorth dilynol a oedd yn darparu ar gyfer anghenion busnes unigol. Ceisiodd cymorth cychwynnol roi sylfaen fanwl a datblygu cynlluniau busnes i helpu busnesau i ddechrau busnes neu i helpu busnesau presennol â meysydd pwnc penodol. Roedd mentoriaid yn cynorthwyo'r rheiny ag anghenion penodol ac/neu anghenion ychwanegol. Amrywiai hyd y cymorth, gyda rhai cleientiaid yn derbyn oriau helaeth a chymorth personol.

Dywedodd ymgyngoreion fod cymorth i gwmnïau i dyfu (L3 a 4) wedi'i deilwra'n well, a hynny wedi sesiwn ddiagnostig fanwl. Roedd y math o gymorth a gafwyd yn tueddu i gynorthwyo cyfranogwyr â chaffael, cynllunio, datblygu ac ailstrwythuro dros gyfnod hirach. Pan oedd angen cymorth arbenigol ac/neu ychwanegol, roedd cynghorwyr busnes yn gweithio gydag arbenigwyr ac yn atgyfeirio cleientiaid at adnoddau a chymorth allanol.

Un o'r heriau allweddol yn ystod y rhaglen oedd annog newid y cysyniad am y gwasanaeth fel porth i gyllid, yn ogystal â newid meddylfryd i beidio â chanolbwyntio ar grantiau, ond gwaethygwyd hyn gan y pandemig. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cynyddodd y cynghorwyr a'r Rheolwyr Cysylltiadau eu hymdrechion i ddod o hyd i gyfleoedd eraill i fusnesau y tu hwnt i grantiau.

### 5.1.2. Rhaglen Cyflymu Twf (AGP) BC

Nid oedd dull cyflawni rhaglen AGP BC yn anhyblyg nac yn orchmynnol, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar fodwlaredd ac addasu. Cynlluniwyd y gwasanaethau i ddarparu ar gyfer ystod amrywiol o fusnesau, o fusnesau newydd un person bach i gwmnïau mwy o faint, gyda Rheolwyr Cysylltiadau yn nodwedd gyson yn eu taith. Nod rhaglen AGP BC oedd cynnig sylfaen o wasanaethau cynghori cyffredinol gyda hyfforddiant cymar-i-gymar a chymorth technegol arbenigol. Yn ogystal, roedd y rhaglen hefyd wedi cysylltu cyfranogwyr â mecanweithiau cymorth priodol eraill gan gynnwys Arloesedd SMART a Sgiliau Twf

Cymru yn ogystal â rhaglenni arbenigol fel Rhaglen Cyflymu Rhagoriaeth Amrywiaeth busnesau newydd a chynllun peilot Busnes Gwyrdd sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon.

### 5.1.3. Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn

Roedd llinyn cynnig gwasanaeth band eang a chymorth digidol yn canolbwyntio ar roi cymorth wedi'i dargedu mewn meysydd fel y cyfryngau cymdeithasol, marchnata digidol, a thechnolegau ar-lein. Symudodd y gwasanaeth o gynnal digwyddiadau mynychu yn y cnawd i gyflenwi ar-lein, gan gynnig apwyntiadau un-i-un gyda chynghorwyr digidol, gweminarau wedi'u cynnal yn bennaf gan hwyluswyr allanol, a chynlluniau gweithredu wedi'u teilwra. Câi cynnwys y cymorth ei ddiweddaru'n barhaus er mwyn bodloni anghenion newidiol, ac roedd cyrsiau ar-lein yn cael eu haddasu yn unol â hynny. Er bod darpariaeth ar-lein yn cynnig manteision o ran hygyrchedd ac ymgysylltu ac wedi arwain at fwy o ymgysylltu, eto collir rhai agweddau ar ryngweithio personol (gan gynnwys rhwydweithio personol a meithrin perthynas).

## 5.2. Mathau o gymorth a gynigiwyd

Mae Tabl 4.1 isod yn rhoi trosolwg o natur y cymorth y dywedodd busnesau a holwyd eu bod wedi'i gael drwy Busnes Cymru fesul prosiect. Mae'n dangos bod cymorth ar gyfer twf busnes yn gyson boblogaidd; nid yw'n syndod, fodd bynnag, mai marchnata digidol oedd fwyaf poblogaidd ymhlith cleientiaid SFBE, a dechrau busnes oedd fwyaf poblogaidd ymhlith cleientiaid Entrepreneuriaeth.

**Tabl 4.1: Pa rai o'r mathau canlynol o gyngor neu gymorth a gafodd eich busnes drwy'r rhaglen? (sawl dewis)**


| | Cymorth Entrepreneuriaeth | SFBE | Cymorth i BBaChau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor neu gymorth ar redeg a thyfu busnes | 67% | 58% | 58% | **60%** |
| Cymorth â marchnata digidol ac e-fasnach | 51% | 84% | 35% | **54%** |
| Cael gafael ar gyllid | 52% | 14% | 43% | **37%** |
| Cyngor neu gymorth ar ddechrau busnes | 76% | 18% | 24% | **36%** |
| Cyngor neu gymorth TGCh | 24% | 48% | 15% | **27%** |
| Datblygu cydweithrediad, partneriaeth, neu gefnogaeth rwydweithio | 34% | 18% | 23% | **24%** |
| Cyngor neu gymorth arloesi | 28% | 24% | 20% | **23%** |
| Drafftio strategaethau ac/neu brosesau cwmni cyfan (gan gynnwys strategaethau amgylcheddol a chydraddoldeb ac amrywiaeth) | 29% | 14% | 24% | **22%** |
| Cefnogaeth ar gyfer adeiladau busnes neu ofod swyddfa, gan gynnwys gofod labordy | 16% | 3% | 10% | **10%** |
| Cyngor neu gymorth allforio | 8% | 4% | 6% | **6%** |
| Arall (manylwch) | 4% | 4% | 5% | **5%** |
| Dim un o'r rhain | 2% | 3% | 6% | **4%** |
| Ddim yn cofio/Ddim yn gwybod | 2% | 2% | 4% | **3%** |
| n | 238 | 272 | 399 | **909** |

Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF, sylwer y gallai ymatebwyr yr arolwg ddewis mwy nag un ateb felly nid yw canrannau'r golofn yn adio i 100%.

### 5.2.1. Cymorth dechrau busnes

Gofynnwyd cwestiwn pellach i'r rhai a ddywedodd iddynt gael cymorth dechrau busnes er mwyn archwilio natur y cymorth hwnnw a gawsant. Mae Ffigur 4.1 isod yn dangos bod hyn yn ymwneud gan amlaf â llunio cynllun busnes, ond roedd hefyd yn nodweddiadol wedi cynnwys marchnata a hyrwyddo, cynnal ymchwil marchnad, a datblygu eu syniad busnes.

**Ffigur 4.1: Y cymorth dechrau busnes a gafwyd drwy'r rhaglen**





Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF (n=327)

Gofynnwyd cwestiwn atodol i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod wedi cael cyngor ar redeg a thyfu busnes ynghylch y meysydd pwnc yr oedd y cyngor yn ymwneud â hwy. Mae Ffigur 4.2 isod yn crynhoi dosbarthiad yr ymatebion mewn perthynas â'r cyngor hwnnw, a marchnata a hyrwyddo yn ogystal â chynllunio busnes unwaith eto yw'r meysydd pwnc mwyaf poblogaidd ar gyfer cymorth.

Roedd ychydig llai nag un o bob pump o'r ymatebwyr (19%) wedi cael cymorth ag adnoddau dynol, tra bod 10% wedi cael cymorth ag ynni ac effeithiolrwydd adnoddau – mae'r ddau faes hwn yn debygol o gyfrannu at ddangosyddion targed themâu trawsbynciol.

**Ffigur 4.2: Natur y cyngor ar redeg a thyfu busnes**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF

## 5.3. Hyd y cymorth

Mae dadansoddi oriau'r cymorth a gafwyd yn rhoi ymdeimlad cliriach o ddwyster cymharol y cymorth a gynigid drwy raglen L5 AGP BC o'i gymharu â'r rhai a gafodd gymorth L1 i 4 Craidd a Thwf. Cofnodir yn nata BAS mai nifer oriau cyfartalog (canolrifol) y cymorth ar ôl dechrau busnes a gynigid i gyfranogwyr yn rhaglen AGP BC oedd 89 awr o gymorth, sy'n cymharu â chwe awr o gymorth trwy Craidd a Thwf L1 i 4. Cyfartaledd cymedrig cymorth ar ôl dechrau oedd 137 awr ac 11 awr yn y drefn honno.

Gwelwyd o'r ymgynghoriadau â'r tîm cyflenwi mai bwriad a dyluniad gwreiddiol rhaglen AGP BC oedd i fusnesau adael y rhaglen ar ôl tair blynedd. Mewn gwirionedd, roedd nifer yr oriau cymorth a roddwyd yn amrywio'n sylweddol ymhlith busnesau. Cafodd rhai busnesau, yn enwedig y rhai a ymunodd ar y dechrau, gymorth mewn cylchoedd, gan amrywio am yn ail rhwng cyfnodau o gefnogaeth ddwys yn ystod cyfnodau twf arbennig o uchel yn ogystal â chymorth ysgafnach tra bod y cylch twf hwnnw ar gyfer busnes yn cael ei gadarnhau. Dywedodd un ymgynghorai, cyhyd â bod cyfranogwyr yn parhau i ddangos twf, yna byddai'n aros yn y rhaglen. Yn yr un modd, nododd ymgynghorai arall ei bod wedi bod yn anodd symud busnesau o'r rhaglen oherwydd bod digwyddiadau a gweithdai parhaus yn

cael eu hysbysebu'n barhaus i bawb yn rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM). Ar y llaw arall, gadawodd cyfranogwyr eraill y rhaglen pan nad oedd angen cymorth arnynt mwyach, pan oeddent wedi'u caffael gan gwmnïau mwy o faint neu pan nad oeddent bellach yn bodloni meini prawf twf rhaglen AGP BC a chael eu symud i Wasanaeth Craidd a Thwf L1 i 4.

Ar gyfer Craidd a Thwf L1 i 4, soniodd ymgyngoreion y tîm cyflenwi am eu cymhelliant i gyflawni eu dangosyddion perfformio allweddol, gan ddarparu chwe awr o gymorth. Teimlwyd bod hyn yn ddigon i ddarparu sylfaen fanwl ar bynciau sylfaenol a datblygu cynllun busnes. Byddai cymorth ychwanegol gan gynghorwyr busnes wedyn yn amrywio'n sylweddol, gydag un ymgynghorai'n nodi y gallai hyn amrywio o un awr i 25 awr o gymorth yn ystod eu taith, gyda rhai'n dychwelyd maes o law hefyd.

## 5.4. Barn am y cymorth a gafwyd


Cynhaliwyd arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid ar ran Llywodraeth Cymru gan Opinion Research Services (ORS) bob chwe mis, a'r rheiny'n cyfweld â derbynwyr a oedd wedi defnyddio gwasanaeth Busnes Cymru yn ystod y chwe mis blaenorol. O'r gwerthusiad canol tymor hyd at fis Mehefin 2021 bu cynnydd cyson mewn cyfraddau bodlonrwydd, o 84% yn gynnar yn 2019 hyd at 92% Ionawr–Mehefin 2021. Ers hynny mae'r cyfraddau bodlonrwydd uwch wedi syrthio'n ôl i 84%. Roedd y cynnydd mewn cyfraddau bodlonrwydd yn cyd-daro â'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig, sy'n awgrymu bod addasiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19 wedi cael derbyniad da gan y busnesau a gymerodd ran.

Cydnabyddir bod canlyniadau arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid Busnes Cymru Llywodraeth Cymru yn cyferbynnu â rhai Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF (a archwilir isod). Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y cwestiynau a osodwyd a bwriad yr arolygon yn amrywio rhywfaint. Mae arolwg LlC yn canolbwyntio'n benodol ar y gwasanaeth a'r ymyrraeth a gafodd y cleient gan Busnes Cymru (yn hytrach na gwerthuso strwythur y cymorth).

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF am eu barn am y cymorth. Ymysg holl ymatebwyr yr arolwg, roedd 70% (629/909) naill ai yn fodlon iawn neu'n fodlon â'r ffordd y darparwyd y cymorth (gweler Ffigur 4.3 isod), a hyn yn cynyddu i 78% (61/78) ymysg cyfranogwyr SFBE yn DC. Ar y llaw arall, roedd 15% naill ai'n anfodlon neu'n anfodlon iawn â'r ffordd y darparwyd y cymorth, a hynny'n cynyddu i bron i un o bob pump (19%, 76/399) ymysg y rheiny a gafodd Gymorth i BBaChau. Ymhellach, yn DC,

disgrifiodd 14% (24/167) o'r ymatebwyr eu hunain yn anfodlon iawn o gymharu â'r 10% yn GCC.

**Ffigur 4.3: Bodlonrwydd â'r cymorth**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF (n=909)

Pan ofynnwyd iddynt am eu barn am ansawdd y cymorth a gawsant, dywedodd 73% ledled y tri phrosiect (662/909) eu bod yn fodlon iawn neu'n fodlon â'r cymorth. Roedd bodlonrwydd ag ansawdd y cymorth ar ei uchaf ymhlith y rhai oedd wedi cael Cymorth Entrepreneuriaeth (77%, 189/238), gydag 84% (119/160) yn fodlon yn DC. Unwaith eto, roedd bron i un o bob pump yn Cymorth i BBaChau yn DC yn anfodlon ag ansawdd y cymorth, gyda 13 yn dweud eu bod yn anfodlon iawn.


Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg roi barn ar eu bodlonrwydd â chanlyniadau'r cymorth i'w busnes. Roedd cyfraddau bodlonrwydd mewn perthynas â'r elfen hon ychydig yn is, sef yn 57%; i'r rheiny a gafodd Gymorth Entrepreneuriaeth, fodd bynnag, cynyddodd i 68%. Yn ddiddorol, pan gyfunwyd cyfraddau bodlonrwydd â chanlyniadau cymorth â thwf cyflogaeth a adroddwyd, cyfraddau'r bodlonrwydd oedd 67% (215/321).

Drwy ddadansoddi bodlonrwydd yn erbyn agweddau penodol ar y cymorth, aethpwyd ati'n fanylach i archwilio'r farn am fodlonrwydd â'r cymorth a gafwyd. Mae Ffigur 4.4 isod yn dangos fod cyfraddau bodlonrwydd ar ei uchaf mewn perthynas â chymorth yn cael ei ddarparu o fewn amserlen dderbyniol, bod gweithdrefnau gweinyddol yn glir, a bod y cynghorwyr busnes/sefydliad yn deall anghenion eu busnes. Ymysg y rheiny a gafodd

Gymorth Entrepreneuriaeth, cynyddodd cyfraddau bodlonrwydd mewn perthynas â'r cynghorydd yn deall eu hanghenion i 80% yn gyffredinol ac 87% yn DC.

Roedd yr ymatebion i'r datganiad "bu digon o ymgysylltu dilynol ar ôl i mi ddefnyddio'r gwasanaethau" yn fwy pegynnol, gyda 69% o ymatebwyr yn mynegi bodlonrwydd â hyn ond 24% yn mynegi anfodlonrwydd. Cynyddai'r cyfraddau anfodlonrwydd ag agwedd hon y gefnogaeth i 29% ymysg y rheiny a gafodd Gymorth i BBaChau o gymharu â 67% yn fodlon â'r datganiad hwn.


**Ffigur 4.4: Bodlonrwydd ag elfennau penodol y cymorth**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF

Mae cydberthynas agos hefyd rhwng cyfraddau bodlonrwydd a hyd y cymorth a ddarparwyd, a hyn yn dystiolaeth bellach i ategu'r honiad bod yr argraff o ddiffyg cymorth dilynol wedi cael dylanwad negyddol ar gyfraddau bodlonrwydd. Dengys Ffigur 4.5 fod y rhai a oedd yn disgrifio eu hunain yn anfodlon iawn fel arfer wedi cael llai na chwe awr o gymorth, tra bod y rhai a oedd yn fodlon iawn, ar gyfartaledd, wedi cael dros 10 awr o gymorth.

**Ffigur 4.5: Hyd cyfartalog y cymorth (mewn oriau) yn ôl bodlonrwydd â'r rhaglen**





Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF a data BAS ar oriau cymorth

### 5.4.1. Bodloni disgwyliadau

Pan ofynnwyd a oedd y cymorth a gawsant wedi bodloni disgwyliadau, dywedodd 61% o ymatebwyr yr arolwg ei fod wedi rhagori ar eu disgwyliadau, tra bod 17% yn teimlo bod y cymorth wedi bod yn llai na'r disgwyl (gan godi i 23% ymhlith y rhai a gafodd Gymorth i BBaChau).

**Ffigur 4.6: Ar raddfa o 1–5 (gydag 1 yn ‘Llawer llai na’r disgwyl’ a 5 yn ‘Llawer mwy na’r disgwyl’), i ba raddau ydych chi’n meddwl bod eich disgwyliadau wedi’u bodloni?**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF

Fel rhan o’r ymgynghoriadau, gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ar ansawdd y cymorth a roddwyd yn ogystal â heriau o ran y darparu a meysydd i’w gwella. Roedd consenswS bod Busnes Cymru wedi bod yn arf dylanwadol wrth gefnogi ac ymgysylltu â chyfran sylweddol o fusnesau Cymru. Mae ei ddiben gwreiddiol wedi ehangu i gynnig cymorth hyblyg sy’n addasu i newidiadau economaidd-gymdeithasol yn ogystal â chylch oes busnesau. Yn nodedig, yn ystod pandemig COVID-19, wrth i’r ffocws symud o gefnogi twf i wydnwch, bu’n gyfrwng effeithiol ar gyfer cymorth a grantiau’r llywodraeth. Tynnodd ymgyngoreion mewnol ac allanol sylw yn aml at hyblygrwydd y rhaglen ac mai un o’i chryfderau allweddol oedd ei gallu i addasu i anghenion busnesau.

Cymysg oedd y farn ynghylch dylanwad polisïau Llywodraeth Cymru ar ddarparu’r gwasanaeth. Ystyrir bod Busnes Cymru mewn sefyllfa dda i gymryd rhan mewn sgyrsiau a dylanwadu ar benderfyniadau ar amcanion polisi ehangach gan gynnwys themâu trawsbynciol. Ar yr un pryd, fodd bynnag, roedd y tîm rheoli a chyflenwi yn ogystal â’r rhanddeiliaid strategol yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng amcanion polisi perthnasol a sicrhau bod y cymorth a gynigir yn parhau i fod â ffocws, yn effeithiol, ac yn ymatebol i anghenion esblygol busnesau.

Ar lefel gwasanaeth, mynegodd nifer o ymgyngoreion y farn bod Gwasanaeth Craidd a Thwf L1 i 4 wedi dod yn fwy gorchmynnol, gan fod â ffocws ar gyflawni dangosyddion perfformio allweddol o ran gofynion oriau cymorth. Yn fwy penodol, mynegodd rhai cyfranogwyr rwystredigaeth o ran buddsoddi amser mewn gweithdai nad oeddent efallai wedi bod yn

uniongyrchol berthnasol i'w hanghenion neu'r hyn yr oeddent yn chwilio amdano. Droeon eraill, mynegwyd pryderon ynghylch prosesau gweinyddol a oedd yn mynd â llawer o adnoddau ac amser, gan gynnwys gwirio allbynnau a chanlyniadau WEFO (a all ddigalonni busnesau).

### 5.4.2. COVID-19

Gan adfyfyrio ar y cymorth, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi cofrestru ar gyfer y cymorth yn ystod y pandemig a oedd COVID-19 wedi cael unrhyw effaith ar pryd neu sut y darparwyd y cymorth a gawsant. Ymhlith ymatebwyr yr arolwg, teimlai 39% (142/365) ei fod wedi cael effaith a phan ofynnwyd iddynt ym mha ffordd, cyfeiriodd bron i ddau draean (65%, 92/142) at y cymorth yn cael ei ddarparu o bell, a dim ond 8% (11/142) wedi disgrifio oedi yn y cymorth neu nad oedd ar gael o ganlyniad i COVID-19.

Yna gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ystyried a oedd cyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio ar gymryd unrhyw gamau gweithredu neu weithgareddau yn deillio o'r cymorth a gafwyd. Ymysg ymatebwyr yr arolwg, cadarnhaodd 40% (239/591) fod y cyfyngiadau wedi effeithio arnynt, a hynny'n cynyddu i 47% (67/144) o blith y rheiny a gafodd Gymorth Entrepreneuriaeth. Pan ofynnwyd ym mha ffyrdd, o'r rhai a ddisgrifiodd fod y cyfyngiadau'n effeithio arnynt, dywedodd 48% (114/239) fod yn rhaid i'w busnes gau i lawr neu na allent weithio, tra bod 23% (54/239) wedi adrodd colli masnach neu anawsterau wrth gyfathrebu â'u cwsmeriaid.

### 5.4.3. Brexit

Dywedodd un o bob pump bod Brexit wedi effeithio ar eu gallu i roi camau gweithredu ar waith yn dilyn cymorth, gan gynyddu i 26% o'r rheiny a gafodd Gymorth Entrepreneuriaeth yn DC. O'r rhai a nododd effaith, cyfeiriodd 35% (66/186) at allforio a mewnforio yn mynd yn anoddach neu'n ddrutach, cyfeiriodd 24% (44/186) at y farchnad Ewropeaidd yn dod yn anoddach ei chyrraedd, a 23% (43/186) wedi sôn am broblemau cadwyn gyflenwi.

## 5.5. Crynodeb

- Cafodd rhaglen gymorth Busnes Cymru ganmoliaeth eang gan randdeiliaid. Teimlid ei bod wedi cynnig darpariaeth o ansawdd uchel ac wedi dangos dealltwriaeth dda o ymddygiadau a phatrymau busnes, gan addasu'n gyflym i ymateb i anghenion oedd yn newid.
- Mae partneriaethau a chydberthnasoedd ag awdurdodau lleol wedi cryfhau dros amser a bydd yn ffactor pwysig wrth i ddarpariaeth cymorth busnes lleol ychwanegol ddod i'r fei drwy raglen yr UKSPF.
- Gan amlaf, roedd y ddarpariaeth yn dechrau drwy gefnogaeth un-i-lawer mewn gweithdai, ac yna rhoddid cefnogaeth un-i-un mewn ymateb i anghenion penodol cleientiaid. Addaswyd gweithdai yn dilyn y pandemig i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol ar-lein. Ar gyfer rhaglen Cyflymu Twf (AGP) CC, roedd y ddarpariaeth wedi'i theilwra i raddau helaeth i'r cyfleoedd a godai cleient, a chymorth dwys ar gael pan ymddangosai bod twf parhaus busnes yn debygol.
- Yn gyffredinol, canfuwyd cyfraddau bodlonrwydd mawr ymhlith ymatebwyr yr arolwg. Roedd lleiafrif o'r cyfranogwyr yn anfodlon â'r cymorth, fodd bynnag, gyda bron i un o bob pump o'r rheiny a gafodd Gymorth i BBaChau yn anfodlon â'r ffordd y darparwyd y cymorth.
- Roedd yr anfodlonrwydd gan amlaf yn ymwneud â diffyg cyfathrebu dilynol. Mae patrwm amlwg o fodlonrwydd yn cynyddu hefyd pan fo hyd y cymorth yn cynyddu.
- Dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r cyfranogwyr fod y ddarpariaeth wedi rhagori ar eu disgwyliadau.
- Ni chafodd COVID-19 unrhyw effaith ddiriaethol ar gyfraddau bodlonrwydd, a dim ond 8% o ymatebwyr a ddisgrifiodd y cymorth yn cael ei ohirio neu ddim ar gael o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, cadarnhaodd 40 % o ymatebwyr fod y pandemig wedi effeithio ar eu gallu i roi camau gweithredu ar waith neu gynnal gweithgarwch yn deillio o'r cymorth a gawsant.


# 6. Canlyniadau ac Effeithiau

## 6.1. Cyflwyniad

Mae’r adran hon yn pwyso a mesur y canlyniadau a’r effeithiau yr oedd y cymorth a gafodd busnesau wedi esgor arnynt yn ôl y busnesau eu hunain. Wrth fyfyrio ar y ffigurau hunangofnodedig mae’n bwysig ystyried tangynrychiolaeth cleientiaid rhaglen AGP BC yn yr arolwg. Eglurir y rhesymau y tu ôl i’w tangynrychiolaeth yn adran 1 (paragraff 1.27). Mae eu tangynrychiolaeth yn debygol o fod wedi arwain at ychydig o erydu ar y canlyniadau ac effeithiau hunanadroddedig (trwy ymateb yr arolwg) yn yr adran hon.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cymryd unrhyw gamau o ganlyniad uniongyrchol i’r cymorth, cadarnhaodd 77% (701/909) o’r ymatebwyr eu bod wedi gwneud hynny (gan gynyddu i 87% o gyfranogwyr [222/272] SFBE yn DC). Mae Ffigur 5.1 isod yn rhoi dadansoddiad o’r camau a gymerwyd gan fusnesau a gymerodd ran yn ôl prosiect, ac mae’n dangos mai ‘gwella gwerthiant a marchnata’ a ‘thargedu cwsmeriaid newydd’ oedd y camau mwyaf tebygol a gymerwyd gan fentrau ar ôl cael cymorth. Roedd natur y camau a gymerwyd yn nodweddiadol yn adlewyrchu’r cymorth a gawsant, gyda dros hanner yr ymatebwyr yn Cymorth Entrepreneuriaeth wedi dechrau busnes ar ôl derbyn cymorth, tra bod 38% yn SFBE wedi mabwysiadu technolegau newydd gan gynnwys TGCh.

**Ffigur 5.1: Pa gamau, os rhai o gwbl, ydych chi wedi'u cymryd o ganlyniad i gael cymorth drwy'r rhaglen?**





Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF

## 6.2. Dechrau busnes

Ymysg y rhai a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd eu bod wedi dechrau busnes ar ôl cael cymorth, gofynnwyd iddynt wedyn pa mor debygol oedd hi y byddent wedi sefydlu eu busnes beth bynnag yn absenoldeb y cymorth hwnnw. Ymysg y rhai a ymatebodd i'r arolwg, roedd 16% yn teimlo y byddai wedi bod yn annhebygol iddynt sefydlu eu busnes, tra bod 3% arall yn ansicr.

Pan ddywedai ymatebwyr eu bod wedi mabwysiadu technolegau newydd gan gynnwys TGCh, gofynnwyd cwestiynau mwy penodol iddynt am y rhain. Dengys Ffigur 5.2 mai ymhlith yr ymatebwyr hyn, datblygu gwefannau a gweithgarwch marchnata a hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol oedd y gweithgareddau a enwyd amlaf.

**Ffigur 5.2: Ydych chi wedi rhoi unrhyw un o'r newidiadau canlynol ar waith yn eich TGCh?**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF


Gofynnwyd yn benodol i'r busnesau a ymatebodd hefyd a oeddent wedi dechrau neu gynyddu eu defnydd o fand eang ffeibr neu gebl o ganlyniad i'r cymorth a gawsant. Roedd bron i un o bob pump o'r ymatebwyr wedi cynyddu eu defnydd o fand eang ffeibr/cebl, tra bod 16% o ymatebwyr wedi cyflwyno band eang ffeibr/cebl i'w busnes.

## 6.3. Creu swyddi

Dengys dadansoddiad o ddata BAS fod 70 % o'r mentrau a gymerodd ran yn Craidd a Thwf L1 i 4 neu raglen AGP BC wedi creu cyflogaeth ers cael cymorth. Gofynnwyd i fusnesau a ymatebodd i Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF a oeddent wedi creu swyddi ers cael cymorth gan Busnes Cymru o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth a gawsant. Ymysg ymatebwyr yr arolwg, cadarnhaodd 10% (88/909) eu bod wedi creu swyddi o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth a gawsant, sy'n rhoi ymdeimlad o faint y mae'r busnesau eu hunain yn priodoli creu swyddi i'r cymorth a gafwyd. Ymysg y rheiny a gafodd Gymorth i BBaChau, cynyddai hyn i 16% (63/399) o'r holl fusnesau (gan gynyddu i 18% [41/232] ymysg y rheiny a gafodd gymorth yn GCC). Yn y cyfamser, ymhlith y rhai a gefnogwyd gan SFBE, disgrifiodd 2% (6/272) greu swyddi o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth.

Mae set ddata BAS yn rhoi manylion am gyflogau'r swyddi sydd wedi'u creu. Dengys Ffigur 5.3 isod ddosbarthiad y swyddi a grëwyd yn ôl cyflog. Mae'n dangos bod bron i draean y swyddi a grëwyd yn rhai â chyflogau o lai na £15,000, tra bod dros hanner (55%) yn swyddi sy'n talu llai na £20,000. Gofynnwyd i fusnesau fel rhan o'r hawliadau allbwn ar gyfer swyddi a grëwyd i roi'r band cyflog cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar gyfer y swydd a grëwyd ac felly tybir bod y lefelau cyflog yn FTE. Ymddengys bod rhywfaint o gamddehongli'r cais hwn gan gyflogwyr fodd bynnag gan y gallai cyflogau o dan £15,000 fod yn llai na'r isafswm cyflog cenedlaethol (oni bai bod y swyddi hynny a grëwyd yn brentisiaethau neu'n cael eu talu drwy gyfuniad o ddifidend a chyflog).


**Ffigur 5.3: Dosbarthiad cyflog FTE y swyddi a grëwyd**




Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata BAS

Mae dadansoddiad o'r swyddi a grëwyd yn ôl maint (nifer y gweithwyr) y busnes wedi'i gyflwyno isod ac yn dangos perthynas glir rhwng maint y busnesau a'r cyflog y mae'r swyddi newydd yn ei gael.


**Ffigur 5.4: Cyflogau FTE y swyddi a grëwyd yn ôl maint y fenter**




Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata BAS

Gwnaed dadansoddiad hefyd o gyflogau'r swyddi a grëwyd yn erbyn y flwyddyn y cofrestrodd menter ar gyfer cymorth Busnes Cymru. Mae Ffigur 5.5 isod yn dangos cyfrannau cynyddol o swyddi ar gyflog is ymhlith busnesau po hwyraf y maent wedi cofrestru â'r gwasanaeth. Mae hwn yn ganfyddiad sy'n synnu ac, i ddechrau arni, yn anodd ei ddehongli. Dylai effeithiau chwyddiant arwain at gyflogau uwch dros amser ac i'r gwrthwyneb i'r patrwm a nodwyd. Fodd bynnag, credir y gallai nifer o ffactorau fod wedi dylanwadu ar hyn. O'i ddadansoddi fesul prosiect, nid yw'r rhaglen AGP BC yn dangos fawr ddim yn y ffordd o batrymau dosbarthiad, tra bod Craidd a Thwf L1 i 4 yn cyflwyno patrwm tebyg iawn i'r hyn a ddangosir yn Ffigur 5.5 isod. Roedd mwyafrif cofrestriadau AGP BC cyn 2019; felly, byddai llai o ddylanwad ar y ffigurau mwy diweddar o swyddi a grëwyd drwy fusnesau yn y ddarpariaeth honno. Mae data hefyd yn dangos bod cyfran y busnesau sydd â 0 i 1 o weithwyr a gymerodd ran yn narpariaeth Busnes Cymru wedi cynyddu o 37% yn 2015 i 69% yn 2022. Mae busnesau llai yn aml yng nghamau cynnar eu datblygiad ac efallai eu bod yn canolbwyntio ar sefydlu eu presenoldeb ac adeiladu sylfaen. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosibl eu bod yn blaenoriaethu cyflogi gweithwyr ar lefel mynediad, gan arwain at ystodau cyflog is neu gyflogi staff sy'n sicrhau eu henillion trwy gymysgedd o ddifidend, gwerthiant a chyflog.


**Ffigur 5.5: Cyflogau FTE y swyddi a grëwyd yn ôl blwyddyn cofrestru â darpariaeth Busnes Cymru**




Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata BAS

Mae dadansoddiad pellach yn ôl maint busnes dros amser wedi'i wneud i archwilio'r mater hwn yn fanylach. Mae'r dadansoddiad yn nodi bod cyfran gymharol gyson o swyddi a grëwyd ymhlith sefydliadau sydd â 0 i 1 o weithwyr yn ennill llai na £15,000 dros amser. Ymhlith y rhai sy'n cyflogi 2-9 o weithwyr mae'r patrwm yn Ffigur 5.5 yn cael ei ailadrodd unwaith eto, gan gynyddu o 30% o sefydliadau yn 2015 i 67% yn 2022. Ymhlith y rheiny sy'n cyflogi 10 i 49 o weithwyr mae'r un duedd hefyd yn amlwg. Gyda'i gilydd, mae'r data yn awgrymu gostyngiad yn ansawdd (o ran enillion) y swyddi a grëwyd dros amser yn ystod y rhaglen hyd yn oed pan roddir cyfrif am faint y busnes.


**Ffigur 5.6: Cyfran y swyddi a grëwyd oedd yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn dros amser yn ôl maint y sefydliad a gefnogwyd**




Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata BAS

Gofynnwyd hefyd i fusnesau a ymatebodd a oeddent wedi gweld newidiadau mewn trosiant/gwerthiannau, proffidioldeb a chynhyrchiant o ganlyniad uniongyrchol i gamau gweithredu ar ôl cael y cymorth. Mae Ffigur 5.7 yn rhoi crynodeb o ymatebion gan gyfranogwyr ar draws holl brosiectau Busnes Cymru ac yn dangos bod tua hanner y cyfranogwyr a holwyd wedi gweld twf ers cael y cymorth. Cymharol ychydig o amrywio sydd yn nosbarthiad yr ymatebion; ymysg y rheiny a gafodd Gymorth Entrepreneuriaeth, fodd bynnag, cyfeiriodd 57% o ymatebwyr at gynnydd mewn proffidoldeb ers cael y cymorth.

**Ffigur 5.7: Ydych chi wedi gweld unrhyw newidiadau i'r canlynol o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd gennych yn dilyn y cymorth a gawsoch?** [troednodyn30]




Er mwyn deall y gwerth ychwanegol mwy cyffredinol yr oedd busnesau'n ei adrodd eu hunain a ddeilliai o'r cymorth, gofynnwyd i ymatebwyr nodi sut roeddent wedi cymryd camau o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth a gawsant a lefel y cyfraniad yr oedd y cymorth wedi'i wneud i berfformiad cyffredinol eu busnes. Mae Tabl 5.1 isod yn dangos bod bron i chwarter yr holl ymatebwyr wedi dweud bod y cymorth wedi gwneud cyfraniad hanfodol at berfformiad eu busnes, gan gynyddu i 29% ymysg y rheiny a gafodd Gymorth Entrepreneuriaeth. Mae'r gyfran a ddywedodd fod y cymorth wedi gwneud cyfraniad hanfodol yn cynyddu ymhellach wrth ddadansoddi Cymorth Entrepreneuriaeth yn benodol ar gyfer DC, gyda 32% yn graddio'r cymorth i fod felly. Mae'n werth nodi hefyd bod tua 85% o ymatebwyr wedi disgrifio'r cymorth fel un sy'n cyfrannu o leiaf rhywfaint at berfformiad eu busnes ar draws yr holl brosiectau.

[30] Sylwer nad yw hyn yn cynnwys ymatebion gan y rhai a ddywedodd "Ddim yn gwybod", "Gwell gennyf beidio â dweud" neu "Amherthnasol".

**Tabl 5.1: Pa gyfraniad y mae'r cymorth a gafwyd gan y rhaglen wedi'i wneud i berfformiad eich busnes yn gyffredinol?**

| | Cyfanswm | Cymorth Entrepreneuriaeth | SFBE | Cymorth i BBaChau |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraniad hanfodol | 23% | 29% | 19% | 21% |
| Rhywfaint o gyfraniad | 62% | 57% | 66% | 62% |
| Dim cyfraniad | 12% | 10% | 11% | 13% |
| Ddim yn gwybod | 4% | 4% | 3% | 4% |
| n | 704 | 199 | 222 | 283 |

## 6.4. Sefyllfa bresennol busnesau a gymerodd ran

Er mwyn deall rhywfaint ar sefyllfa bresennol mentrau a gefnogwyd, holwyd y busnesau a ymatebodd am eu perfformiad yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf. O'r ymatebwyr hynny a oedd yn gallu neu'n fodlon rhoi ateb, roedd 70% (517/735) wedi sicrhau elw yn eu blwyddyn ariannol ddiwethaf, tra bod 30% (218/735) wedi gwneud colled. Holwyd yr ymatebwyr hefyd i ba raddau yr oedd COVID-19 wedi effeithio ar eu helw yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ar draws yr holl ddarpariaeth, teimlai dros hanner fod COVID-19 wedi effeithio ar eu helw i raddau helaeth, gan gynyddu i 60% ymhlith y rhai a gymerodd ran yn SFBE.

## 6.5. Barn rhanddeiliaid am y canlyniadau

O safbwynt y tîm rheoli a chyflenwi a'r rhanddeiliaid strategol, dyma oedd prif ganlyniadau'r rhaglen ar lefel gwasanaeth:


- Craidd a Thwf L1 i 4 Busnes Cymru – darparu cymorth i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol (megis heriau yn ymwneud ag awtistiaeth, trais domestig, neu rwystrau iaith) a chynulleidfaoedd amrywiol, e.e. unigolion ifanc yn ogystal â ffoaduriaid; rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i fusnesau ac entrepreneuriaid i ddechrau a thyfu eu busnesau; a mesurau meintiol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys mewn dangosyddion perfformio allweddol (megis mwy o werthiant a sicrhau contractau drwy gadwyni cyflenwi)
- Rhaglen Cyflymu Twf (AGP) BC L5 – yn ogystal â chynorthwyo busnesau i dyfu, canmolodd ymgyngoreion ymdrechion i wella gwydnwch a chystadleurwydd busnesau a gymerodd ran. Mae'r tîm cyflenwi hefyd wedi sylwi ar barodrwydd cynyddol i chwilio am gymorth pan fo angen

- SFBE – mae busnesau wedi dod yn fwy aeddfed yn ddigidol ac wedi cynyddu eu defnydd a'u dibyniaeth ar offer a llwyfannau digidol, gan gynnwys y rheini y tu hwnt i'r cyfryngau cymdeithasol, a'u parodrwydd i fynd i'r afael â heriau digidol yn annibynnol

## 6.6. Cymorth yn y dyfodol

Yn olaf, gofynnwyd i'r busnesau a ymatebodd pa fath o gymorth y teimlent y gallent fod ei angen yn y dyfodol. Roedd cymorth â marchnata a hyrwyddo yn ogystal â mynediad at gyllid yn arbennig o amlwg. Cymorth i leihau gorbenion oedd y pedwerydd ymateb mwyaf poblogaidd, gan ddangos yr heriau a wyneba'r busnesau a ymatebodd wrth sicrhau elw tra bod costau cyffredinol yn parhau i godi.

**Ffigur 5.8: Pa gymorth sydd ei angen ar eich busnes chi a busnesau tebyg yn ystod y 12-18 mis nesaf?**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth Busnes yr ERDF

Ymhellach, wrth ystyried cymorth yn y dyfodol mae'n nodedig bod bron i hanner yr ymatebwyr yn parhau i fod â phryderon parhaus ynghylch effaith hirdymor COVID-19 ar eu busnes.

**Tabl 5.2: Cyfran y busnesau a ymatebodd sydd â phryderon yn parhau ynghylch effaith hirdymor COVID-19**

| | Cyfanswm | Cymorth Entrepreneuriaeth | SFBE | Cymorth i BBaChau |
|---|---|---|---|---|
| Oes | 44% | 42% | 51% | 40% |
| Nac oes | 53% | 54% | 47% | 56% |
| Ddim yn gwybod | 4% | 5% | 3% | 4% |

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i ymgyngoreion am y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r cymorth i'w ddarparu yn y dyfodol gan raglen Busnes Cymru yng ngoleuni'r UKSPF sydd ar ddod. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw o'r farn bod cyflwyno'r UKSPF yn her i'r system bresennol sydd wedi'i hen sefydlu. Yn fwy penodol, ystyriwyd bod cryfderau allweddol Busnes Cymru, megis ei frand cydnabyddedig a'i rôl fel siop un stop ar gyfer cymorth busnes cynhwysfawr a chydgysylltiedig drwy gydol cylch cyfan bywyd busnes, mewn perygl oherwydd yr UKSPF. Mae'r symudiad tuag at awdurdodau lleol (ALl) yn cael mwy o reolaeth dros y cymorth a gynigir yn cyflwyno cyfleoedd a heriau. Gall ALlau fanteisio ar y newid hwn i ddatblygu rhaglenni cymorth lleol sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer anghenion busnes lleol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol i Busnes Cymru ac ALlau fod yn dryloyw a meddu ar ddealltwriaeth glir o'r cymorth sydd ar gael er mwyn sicrhau aliniad cryf. Mae cyfathrebu a chydgysylltu effeithiol yn hanfodol er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau bod cymorth ar gael ledled Cymru, yn ogystal ag egluro rolau a chyfrifoldebau er mwyn canolbwyntio adnoddau'n effeithlon.

## 6.7. Asesu effaith

Er mwyn helpu i fesur effaith y cymorth a gynigid drwy brosiectau Busnes Cymru, yn enwedig drwy Craidd a Thwf L1 i 4 a rhaglen AGP BC, cynhaliwyd gwaith modelu effaith economaidd i ddiweddaru elfennau o'r ymchwil a'r dadansoddi a wnaed gan yr Uned Ymchwil i Economi Cymru (WERU). Rhoddir crynodeb cam-wrth-gam isod:

- o ystyried y tebygrwydd mewn ymyriadau, defnyddiwyd y tybiaethau ychwanegedd a ddefnyddiwyd yn adroddiad Prifysgol Caerdydd wrth ystyried y ffigurau cyflogaeth gros yn nata BAS i bennu effaith net y rhaglen
- casglwyd cyfartaledd GVA ychwanegol/data gweithwyr o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) gan ddefnyddio amcangyfrifon prisiau GVA cyfredol ar gyfer 2019 yn

ogystal â gwybodaeth o'r Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth, a'u cymhwyso i'r ffigurau cyflogaeth net i ddeall cyfraniadau GVA y rhaglen

- yna defnyddiwyd lluosyddion fframwaith mewnbwn-allbwn Cymru i bennu effeithiau cadwyn gyflenwi a gwariant ysgogedig y rhaglen

Mae'r modelu wedi pwyso ar y data BAS diweddaraf ac yn nodi'r canlynol:

- cofnodwyd creu 31,088 o swyddi (gros) yn set ddata BAS. Priodolir ychydig dros 18,400 i fusnesau a gafodd gymorth Craidd a Thwf L1 i 4, tra priodolir tua 12,700 o swyddi i fusnesau a gafodd gymorth rhaglen AGP BC L5
- pan gyfrifir am ddifuddiant [troednodyn 31], dadleoli [troednodyn 32], colledion[troednodyn 33] a chyfnewid [troednodyn 34] gan ddefnyddio meincnodau cydnabyddedig, mae hyn yn cyfateb i greu amcangyfrif o 11,000 o swyddi uniongyrchol ychwanegol net [troednodyn 35]
- pan gaiff effeithiau lluosydd (rhai anuniongyrchol [troednodyn 36] ac ysgogedig [troednodyn 37]) eu cymhwyso i'r swyddi ychwanegol net hyn, mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 16,500 o swyddi ychwanegol net, tua 9,500 o'r rhain drwy gymorth Craidd a Thwf L1 i 4 a 7,000 drwy ddarpariaeth rhaglen AGP BC
- byddai cyfanswm y swyddi net y gellir eu priodoli i'r rhaglen yn cefnogi cynnydd amcangyfrifedig o £935m mewn GVA yng Nghymru, a £597m ohono yn deillio o effaith uniongyrchol y rhaglen. Mae cyfanswm cyfraniadau GVA yn ôl y math o gymorth wedi'u rhannu'n gyfartal, gyda £464m i'w briodoli i gymorth Craidd a Thwf L1 i 4 a'r £470m arall i raglen AGP BC (mae'n bwysig nodi bod nifer y busnesau a gefnogwyd gan raglen AGP BC yn llai na'r rheiny a gafodd gymorth Craidd a Thwf L1 i 4)

---

[31] (deadweight) – cyfeirio at i ba raddau y byddai'r newid gros mewn perfformiad busnes, sef cyflogaeth yn yr achos hwn, wedi digwydd heb gymryd rhan ym mhrosiectau Busnes Cymru – rhagdybir ei fod yn 46 %.
[32] (displacement) – cyfeirio at dwf busnesau a gefnogir gan raglen Busnes Cymru ar draul busnesau eraill yng Nghymru – rhagdybir ei fod yn 30 %.
[33] (leakage) – cyfeirio at y rhaglen yn esgor ar effeithiau y tu hwnt i'r ardal darged/grŵp buddiolwyr targed – rhagdybir ei fod yn 0 % gyda chanlyniadau swyddi yn gyfan gwbl o fewn Cymru.
[34] (substitution) – cyfeirio at fusnesau sy'n cyfnewid un gweithgaredd am un arall er mwyn cael mynediad at gymorth Busnes Cymru – rhagdybir ei fod yn bedwar %.
[35] Mae'r ffactorau ychwanegedd a ddefnyddir yn astudiaeth WERU yn deillio'n bennaf o bapur ymchwil BIS OCCASIONAL PAPER NO. 1 ar ymchwil i wella asesu ychwanegedd (Hydref 2009). Gweler: [Research to improve the assessment of additionality (publishing.service.gov.uk)](#).
[36] Mae'n dal effaith cadwyn gyflenwi busnesau a gefnogir gan Busnes Cymru.
[37] (induced). Mae'n dal effaith gwariant cynyddol yn economi Cymru o ganlyniad i incwm cynyddol y gellir ei briodoli o effeithiau cysylltiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol Busnes Cymru.

## 6.8. Aeddfedrwydd Digidol

Comisiynwyd Ysgol Fusnes Caerdydd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o raglen SFBE i gasglu tystiolaeth ar aeddfedrwydd digidol drwy arolwg blynyddol ar fusnesau Cymru rhwng 2016 a 2020. Canfu'r arolwg fod cyfran y BBaChau yng Nghymru sy'n mabwysiadu band eang cyflym iawn wedi cynyddu o 35 % yn 2016 i 61% yn 2020. Mae'r defnydd o gyfrifiadura cwmwl uwch hefyd wedi cynyddu, yn enwedig fideogynadledda (o 20% yn 2016 i 57% yn 2020), gyda'r gyfran wedi mwy na dyblu o 2019-2020 a hynny'n debygol o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Mae trafodion e-fasnach hefyd yn llawer amlycach ar draws BBaChau yng Nghymru, gyda'r rhai a ddywedodd fod mwy na thri chwarter eu gwerthiannau yn digwydd ar-lein yn cynyddu o 17% yn 2016 i 29% yn 2020.

Mae'r adroddiad aeddfedrwydd digidol yn pennu ymatebwyr arolwg i bedwar grŵp yn seiliedig ar lefel eu haeddfedrwydd digidol: dim ymgysylltiad digidol (yn 19% o ymatebwyr yr arolwg), ymelwyr goddefol (38% o ymatebwyr), ymelwyr gweithredol (31% o ymatebwyr), ac wedi ymgorffori'n ddigidol (12% o ymatebwyr) [troednodyn 38]. Gwnaed gwaith categoreiddio i gymharu am y tro cyntaf ddwy flynedd cyn hyn yn 2018. Fodd bynnag, ymddengys mai bach yw'r newid yng nghyfran yr ymatebwyr ym mhob grŵp yn ogystal ag arwyddion posibl o atchweliad, fel y nodir yn Nhabl 5.3 isod. Amcangyfrifir bod tua 20% o ymatebwyr i'r arolwg aeddfedrwydd digidol wedi cymryd rhan yn SFBE.

**Tabl 5.3: Grwpiau aeddfedrwydd digidol yng Nghymru (2018–2020) [troednodyn 39]**

| | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|
| Dim ymgysylltiad digidol | 12% | 15% | 19% |
| Ymelwyr goddefol | 36% | 38% | 38% |
| Ymelwyr gweithredol | 34% | 31% | 31% |
| Wedi ymgorffori'n ddigidol | 18% | 16% | 12% |

[38] Dim ymgysylltiad digidol — tuedda busnesau i fod yn ddefnyddwyr band eang safonol, gyda chyfran uchel o weithwyr yn meddu ar sgiliau TGCh is na'r cyfartaledd yn ogystal â dim gwerthiannau drwy drafodion ar-lein.
Ymelwyr goddefol (*passive exploiters*) — band eang safonol, sgiliau TGCh uwch na'r cyfartaledd ond defnydd isel ar blatfformau ar-lein i gynhyrchu e-werthiannau.
Ymelwyr gweithredol (*active exploiters*) — mynediad at fand eang cyflym iawn, sgiliau TGCh gwell na'r cyfartaledd a defnydd eang o blatfformau digidol a gwerthiannau ar-lein.
Wedi ymgorffori'n ddigidol — band eang cyflym iawn, cyfran uchel iawn o weithwyr â sgiliau TGCh llawer gwell na'r cyfartaledd a'r rhan fwyaf o'u gwerthiannau o drafodion ar-lein.
[39] Uned Ymchwil i Economi Cymru, blynyddoedd amrywiol – Arolwg Aeddfedrwydd Digidol Cymru.

Yn 2023, cafodd Etic Lab eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg aeddfedrwydd digidol. Canfu'r arolwg fod busnesau Cymru, ar y cyfan, wedi dangos twf cymedrol mewn aeddfedrwydd digidol ers 2016, yn enwedig ers dechrau pandemig COVID-19 yn 2020. Arafu wnaeth y twf digidol ym musnesau Cymru rhwng 2016 a 2019, cyn cynyddu'n sydyn yn dilyn dechrau pandemig COVID-19 yn 2020. Canfu fod y cynnydd mwyaf arwyddocaol mewn twf digidol wedi digwydd yn ystod Gwanwyn a Haf 2022, sy'n dangos bod bwrlwm o weithgarwch digidol wedi digwydd a oedd yn cyfateb i'r cynnydd mewn gweithgarwch economaidd yn dilyn codi mesurau cyfyngiadau ar symud yn fyd-eang.

## 6.9. Crynodeb

- Roedd dros hanner yr ymatebwyr a gafodd Gymorth Entrepreneuriaeth wedi dechrau busnes ar ôl cael y cymorth hwnnw. Pan ofynnwyd iddynt a fyddent wedi sefydlu eu busnes heb y cymorth, dywedodd 16 cant na fyddent wedi gwneud hynny, tra bod tri % arall yn ansicr.
- Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg busnes a oedd wedi mabwysiadu technolegau newydd sy'n gysylltiedig â TGCh, soniodd bron i dri chwarter ohonynt am ddatblygu gwefan, a gweithgarwch marchnata a hyrwyddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ddigon tebyg o ran poblogrwydd.
- Yn ôl data BAS, roedd 70% o'r mentrau a gymerodd ran yn Craidd a Thwf L1 i 4 neu yn L5 rhaglen AGP BC wedi creu cyflogaeth ers cael cymorth. Ymysg ymatebwyr yr arolwg, roedd 10% wedi creu swyddi o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth, gan gynyddu i 16% o'r rheiny a gafodd Gymorth i BBaChau.
- Yn ôl data BAS, roedd y rheiny a oedd wedi cofrestru â darpariaeth yn fwy diweddar wedi creu swyddi sydd â chyflog is ar gyfartaledd o gymharu â'r rheiny a gofrestrodd yn y gwasanaeth yn gynharach yn y rhaglen. Gall hyn adlewyrchu newid ym mhroffil y busnesau a oedd yn cofrestru ar y rhaglen, gyda chyfran uwch o fusnesau sydd â 0 i 1 o weithwyr yn cofrestru ar gyfer cymorth wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.
- Soniodd tua hanner ymatebwyr yr arolwg am gynnydd mewn cynhyrchiant, gwerthiant a phroffidioldeb o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth. Ymhellach, dywedodd bron i draean o'r rhai a gymerodd ran yn Cymorth Entrepreneuriaeth fod y cymorth wedi gwneud cyfraniad hollbwysig at berfformiad eu busnes.
- Mae cymhwyso modelu economaidd tebyg i asesiad blaenorol ar effaith yn nodi amcangyfrif o 16,500 o swyddi ychwanegol net wedi'u creu drwy'r cymorth (sy'n cyfateb i gynnydd GVA o £935m yng Nghymru) [troednodyn 40].
- Mae ymchwil yn nodi twf cymedrol mewn aeddfedrwydd digidol ymhlith busnesau yng Nghymru ers 2016, yn enwedig ers pandemig COVID-19, gyda'r cynnydd mwyaf arwyddocaol yng ngwanwyn a haf 2022 yn dilyn llacio cyfyngiadau ledled y byd.
- Marchnata a mynediad at gyllid oedd y meysydd cymorth a enwyd amlaf gan fusnesau pan ofynnwyd iddynt ba gymorth y gallent fod ei angen yn y dyfodol.

[40] Sylwer y caiff y ffigurau hyn eu haddasu unwaith y bydd y dangosyddion terfynol wedi'u darparu.

# 7. Gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith

## 7.1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (CIE) fel rhan o werthusiad Cymorth Busnes yr ERDF [troednodyn 41] i archwilio cyflogaeth ar lefel cwmnïau ac effeithiau trosiant ymhlith y busnesau a gymerodd ran sydd wedi cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau ac ar gyfer Treth ar Werth (TAW) neu'r Cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE). Gwnaed y dadansoddiad ar lefel Amcanion Penodol (AP). Mae cyfranogwyr Cymorth Entrepreneuriaeth Busnes Cymru yn cyfrif am 97% (ar fis Mawrth 2022 pan gynhaliwyd y dadansoddiad) o'r holl gyfranogwyr trwy brosiectau AP2.2. Ymhellach, SFBE yw'r unig brosiect yn AP2.3, ac roedd Cymorth i BBaChau Busnes Cymru wedi rhoi cymorth i 95% o'r holl gyfranogwyr ym mhrosiectau AP2.4. Gyda'i gilydd, felly, ar lefel AP mae'r dadansoddiad gwrthffeithiol yn adlewyrchu cymorth Busnes Cymru.

Mae cam cyntaf y dadansoddiad yn cysylltu'r busnesau a gefnogwyd â'u Rhifau Cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau (CRN). Fodd bynnag, datgelodd dadansoddiad o'r data monitro nad oedd rhifau CRN ar gael i bob busnes. O ganlyniad, roedd angen ymchwil ychwanegol, trwy ddefnyddio cofrestr Tŷ'r Cwmnïau ac enw'r cwmni a manylion eraill, er mwyn dod o hyd i'r rhif CRN.

Ar ôl llwyddo i nodi'r rhif CRN, yr ail gam oedd cysylltu'r busnesau â data ONS, yn bennaf drwy Gronfa Ddata Strwythur Busnesau (BSD).

Dangosir y broses baru yn Nhabl 6.1 isod, sy'n crynhoi nifer y busnesau a oedd ar gael i'w dadansoddi o dan bob Amcan Penodol. Mae'r tabl yn dangos cyfradd dileu sylweddol ar gyfer y rhai a gefnogwyd trwy AP2.2, gan fod entrepreneuriaid a busnesau newydd yn llai tebygol o fod wedi cofrestru ar gyfer TAW a PAYE. Pan oeddent wedi cofrestru, nid oedd y rhan fwyaf i'w gweld ar Gofrestr Busnes yr ONS neu roeddent wedi'u cefnogi neu eu sefydlu'n ddiweddar iawn ac, felly, ni ellid eu defnyddio yn y modelu gwrthffeithiol (gan nad oeddent ar Gofrestr Busnes yr ONS am y cyfnod o ddwy flynedd flaenorol). Felly mae cyfranogwyr AP2.2 (Cymorth Entrepreneuriaeth) wedi'u gadael allan o'r gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith.

---

[41] Wavehill, Belmana, a Winning Moves (2023) Gwerthusiad o Gymorth Busnes yr ERDF (heb ei gyhoeddi).

**Tabl 6.1: Rhifau CRN yn ôl Amcan Penodol [troednodyn 42]**

| Amcan penodol | Cyfanswm Cyfranogwyr | Nifer y rhifau CRN unigryw ymysg busnesau oedd yn rhan | | Cwmnïau a ddefnyddiwyd mewn modelu CIE | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | Canran y cyfranogwyr | Nifer | Canran y rhifau CRN unigryw a ddefnyddiwyd |
| AP2.2 | 4,841 | 2,218 | 45.9 | 120 | 5.4 |
| AP2.3 | 5,306 | 2,425 | 45.7 | 1,286 | 53.0 |
| AP2.4 | 8,145 | 4,080 | 50.1 | 3,112 | 76.3 |
| Cyfanswm | 18,292 | 8,723 | | 4,518 | |

Yn y dadansoddiad gwrthffeithiol dilynol sy'n rhan o'r gwerthusiad hwn, neilltuwyd cyfranogwyr cymorth Busnes Cymru naill ai i raglen AGP BC neu Craidd a Thwf L1 i 4 yn dibynnu ar natur y cymorth a gawsant. Cyflwynir hyn yn Nhabl 6.2 isod. Mae'r manylu ychwanegol yn angenrheidiol, o ystyried y gwahaniaeth yn llwybr twf cleientiaid rhaglen AGP BC a dwyster y cymorth a gawsant o gymharu â'r rheini yn Craidd a Thwf L1 i 4.

**Tabl 6.2: Rhifau CRN yn ôl math o gymorth**

| Grŵp | Disgrifiad | Rhifau CRN unigryw | Cwmnïau a ddefnyddwyd mewn modelu CIE |
|---|---|---|---|
| Rhaglen AGP BC L5 | Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru (Lefel 5) | 763 | 508 |
| L1–4 | Gwasanaeth Craidd a Thwf (Lefelau 1–4) | 4,278 | 2,266 |

## 7.2. Paru Busnesau [troednodyn 43]

Mae'r gwerthusiad gwrthffeithiol yn ceisio amcangyfrif effaith net y rhaglen ar fusnesau a gefnogwyd, hynny yw, yr effaith ychwanegol uwchlaw'r hyn a fyddai wedi digwydd heb yr ymyriad. Ni fyddai cymharu'r holl fusnesau a gefnogwyd â'r holl fusnesau nad ydynt yn cael cymorth yn gynrychioliadol, gan fod y ddau grŵp hyn yn debygol o fod yn wahanol iawn. Er bod rhai prosiectau sy'n cynnig cymorth busnes drwy raglenni'r ERDF yng Nghymru yn agored i bob BBaCh, mae rhywfaint o ddarpariaeth wedi'i thargedu at grwpiau penodol. Felly mae angen llunio grŵp cymharu o fusnesau na chafodd gymorth ond sy'n debyg i'r rhai a gafodd. Er enghraifft, mewn senario lle mae busnesau a gefnogwyd yn tueddu i fod

[42] Ibid.
[43] I gael manylion am y broses baru ar lefel Amcanion Penodol gweler: Wavehill, Belmana, a Winning Moves (2023) Gwerthusiad o Gymorth Busnes yr ERDF.

yn fach, bydd y broses baru yn nodi busnesau nad ydynt wedi cael cymorth ond sydd o faint tebyg.

Y gronfa ar gyfer paru yw'r boblogaeth o fusnesau y mae busnesau tebyg yn cael eu dewis ohonynt (y rheiny nad ydynt wedi derbyn cymorth Busnes Cymru). Dewisir busnesau o blith y boblogaeth ehangach o fusnesau yn y DU. Mae tynnu o'r gronfa hon yn defnyddio model dethol sy'n deillio o nodi ac amcangyfrif ffactorau sy'n cyfateb i fusnes sy'n cael cymorth [troednodyn 44]. Amcangyfrifwyd mwy na dwsin o fodelau drwy addasu'r newidynnau a ddefnyddiwyd ym mhob un o'r modelau hyn. Arweiniodd hyn at setiau gwahanol o fusnesau gwrthffeithiol na chafodd gymorth. O'r modelau amcangyfrif amrywiol, nodwyd dau grŵp rheoli:

- Grŵp Rheoli a ffefrir 1 – 'Busnesau Cymaradwy Cyfatebol': Mae hwn yn paru busnesau tebyg o ran trosiant gwirioneddol a chyflogaeth wedi'u rhannu'n gategorïau, ac a oedd y busnes mewn diwydiant gwasanaethau gwybodaeth uchel a gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg ai peidio. Pennwyd y grŵp hwn hefyd yn ôl a oedd y busnes wrthi'n tyfu (twf o 20 %), yn cael ei olrhain gan Beauhurst ai peidio [troednodyn 45], ac yn fuddiolwr i Innovate UK (IUK). Mae'r model hefyd yn defnyddio newidynnau ar gyfer cyflogau isel, busnesau newydd, ac unedau byw lleol [troednodyn 46] ac mae'n cyflwyno lefel twf trosiant y diwydiant yn ogystal â thwf cyflogaeth a busnesau yn y flwyddyn flaenorol
- Grŵp Rheoli amgen 2 – 'Busnesau Cymaradwy Cyfatebol': Nodwyd busnesau tebyg ar gyfer y grŵp hwn drwy ddefnyddio trosiant gwirioneddol wedi'i rannu'n gategorïau ac a yw'n fuddiolwr prosiect IUK, wedi'i olrhain gan Beauhurst. Mae'r model hefyd yn defnyddio newidynnau ar gyfer busnesau newydd, sef a oedd y busnesau wedi derbyn ffyrlo ai peidio, a ydynt yn uwch-dechnoleg, ac yn cynnwys newidyn ar gyfer cofnodi cyflog isel

[44] Mae hyn wedi'i fodelu gan ddefnyddio model probid, lle mae'r ffaith bod cwmni unigol yn cael cymorth (gan gymryd gwerth 1, neu 0 fel arall) yn cael ei atchwelyd ar nodweddion y busnesau cyn iddynt gael cymorth i benderfynu beth sy'n ysgogi busnesau i gael cymorth.
[45] Mae Beauhurst yn ddarparwr data sy'n olrhain grŵp o fwy na 50,000 o gwmnïau twf uchel. Er bod olrhain gan Beauhurst yn gallu bod yn brocsi ar gyfer potensial twf uchel, un o'r prif resymau i Beauhurst ddilyn busnes yw bod y busnes wedi llwyddo i godi arian (i hwyluso twf o'r fath).
[46] Mae lleoliad pob swyddfa sefydliad (menter) yn cael ei gofnodi fel uned leol.

### 7.3. Proffilio’r busnesau a gafodd gymorth

Ar gyfer y gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE) ar lefel cwmni, mae 763 o fusnesau a gefnogwyd gan raglen AGP BC sy’n cysylltu â data ONS. Mae’r dethol yn digwydd cyn iddynt gael y cymorth ac mae’r modelu yn gofyn am ddata o leiaf y flwyddyn cyn i’r cymorth ddechrau. Mae sampl o 459 o fusnesau yn bodloni’r gofyniad hwn. Mae’r dadansoddi angen gwybodaeth am y flwyddyn cyn y cymorth a’r flwyddyn cyn hynny hefyd. Er mwyn osgoi gorfod gollwng rhagor o fusnesau, cymerwyd camau [troednodyn 47] ar gyfer busnesau ‘newydd’ nad oedd yn bresennol ar gofrestrau busnes am y cyfnod o ddwy flynedd cyn cymorth fel bod modd cadw’r busnesau hyn.

Mae Cronfa Ddata Strwythur Busnesau (BSD) yn rhoi cipolwg blynyddol o’r boblogaeth fusnes yn y DU, gan olrhain cyflogaeth a throsiant dros amser. Mae’n rhoi’r dosbarthiad diwydiant (cod SIC) a blwyddyn dechrau’r busnes, ynghyd â newidynnau eraill sy’n nodweddu’r busnes. Drwy hyn gall y dadansoddiad olrhain y busnesau a gefnogwyd ar draws nifer o flynyddoedd, yn ogystal â chymharu eu perfformiad â pherfformiad busnesau tebyg eraill.

Roedd y BSD yn gysylltiedig â rhestrau o brosiectau a ariannwyd gan IUK a oedd yn cynnwys rhif Tŷ’r Cwmnïau (CRN) y cwmni a gefnogwyd gan y cyllid. Yn ogystal, cysylltwyd data ar lefel cwmni ar y codi arian llwyddiannus a wnaed gan fusnesau sy’n cael eu holrhain gan Beauhurst (gan fod busnesau arloesol sy’n tyfu’n gyflym fel arfer yn hwyluso eu twf ar gyfer codi arian). Setiau data cyhoeddus eraill y gellir eu cysylltu â rhif CRN oedd patentau a data’r busnesau a ddefnyddiodd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

Mae Tabl 6.3 yn rhoi nodweddion busnesau a gefnogwyd gan raglen AGP BC, y boblogaeth fusnes ehangach, a’r Grŵp Rheoli a ffefrir. Mae’r ‘cymhariaeth a ffefrir’ yn paru ar sail maint y busnes, categorïau cyflogaeth, twf blaenorol, dangosydd unrhyw gyllid blaenorol gan Innovate UK a gwaith olrhain Beauhurst. Ystyriwyd modelau eraill. Mae’r ‘gymhariaeth amgen’ yn seiliedig ar fodel tebyg sy’n cynnwys a oedd busnes wedi gwneud cais i’r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ai peidio [troednodyn 48]. Cyflwynir tabl tebyg yng

[47] Roedd hyn wedi cynnwys gosod y data cyn dechrau’r busnes i 0 ac yna cynnwys newidyn hafal i 1 lle’r oedd y busnes yn fusnes newydd, gan felly osgoi’r modelu yn gollwng y busnes oherwydd bod data amdano cyn dechrau’r busnes ar goll.

[48] Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn cyhoeddi set ddata sy’n cwmpasu holl geisiadau’r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a gyflwynwyd gan gyflogwyr o ddechrau’r cynllun hyd at 31 Awst 2021. Mae’n cynnwys ystadegau am y ceisiadau eu hunain a’r swyddi a gefnogwyd. Gellir defnyddio gwneud hawliad drwy’r cynllun hwn fel procsi bod sioc COVID-19 wedi cael effaith negyddol.

ngwerthusiad Cymorth Busnes yr ERDF, sy'n dangos cymaroldeb holl gyfranogwyr Cymorth Busnes yr ERDF (AP 1.2, 2.2, 2.3 a 2.4) yn erbyn y grŵp cymharu [troednodyn 49].

[49] Gweler Tabl 7.2 yn ibid.

### Tabl 6.3: Rhifau CRN yn ôl math o gymorth

| | Rhaglen AGP BC-Busnesau a gefnogwyd | Cymhariaeth a ffefrir | ERDF Cymru | BSD ehangach [50] |
|---|---|---|---|---|
| **Newidyn** | **Cymedrig (n=459)** | **Cymedrig (n=459)** | **Cymedrig (n=4,804)** | **Cymedrig (n=3,570,536)** |
| **Maint y busnes** | | | | |
| Cyflogaeth | 23 | 22 | 23 | 10 |
| Trosiant gwirioneddol (£'000) | 2,935 | 2,771 | 2,954 | 1,768 |
| Cynhyrchiant gwirioneddol | 116 | 137 | 109 | 147 |
| **Dosbarthiadau diwydiant** | | | | |
| Cyflog isel | 22% | 24% | 28% | 28% |
| Uwch dechnoleg | 32% | 31% | 17% | 13% |
| Gweithgynhyrchu | 22% | 15% | 16% | 4% |
| Gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg | 2% | 2% | 1% | 0% |
| Gwasanaethau dwys eu gwybodaeth | 17% | 19% | 7% | 8% |
| Gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg ganolig | 7% | 5% | 4% | 2% |
| **Procsi arloesedd** | | | | |
| Prosiect IUK yn flaenorol | 7% | 8% | 3% | 0% |
| Yn meddu ar batent | 8% | 6% | 4% | 1% |
| Wedi'i olrhain gan Beauhurst | 26% | 27% | 8% | 1% |
| **Effaith y Coronafeirws** | | | | |
| Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo) | 52% | 32% | 54% | 18% |
| **Demograffeg y busnesau** | | | | |
| Unedau lleol | 1.5 | 1.6 | 1.7 | 1.1 |
| Blynyddoedd o weithgarwch | 9.2 | 11.0 | 12.8 | 11.5 |

Nodyn: Cyfrifwyd ystadegau cryno ar gyfer y flwyddyn sylfaen drwy ddefnyddio data BSD a setiau data cyhoeddus eraill. Cyfrifwyd ystadegau BSD ehangach ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Cyfrifwyd trosiant gwirioneddol gan ddefnyddio datchwyddwyr sector-benodol a'i fynegi mewn miloedd o bunnoedd gan ddefnyddio 2021 fel y flwyddyn sylfaen. Defnyddir Eurostat i nodi sectorau gwybodaeth-ddwys drwy ddefnyddio dangosyddion ar gymysgedd sgiliau. Dengys data'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws gan y CThEF a oedd cwmni wedi cael cymorth ar gyfer cyflogeion ar ffyrlo ai peidio. Mae cynhyrchiant gwirioneddol yn weithgarwch trosiant gwirioneddol fesul cyflogai.


[50] Nid yw'r BSD ehangach yn cynnwys busnesau mawr iawn, a ddiffinnir fel rhai sydd â mwy na 5,000 o weithwyr neu drosiant dros £1bn.

## 7.4. Effaith y Cymorth ar Dwf Cyflogaeth

Mae Ffigur 6.1 yn dangos bod y busnesau a gefnogwyd drwy AP2.3 (SFBE) wedi tyfu'n arafach o ran cyflogaeth na phob un o'r grwpiau cymharu. Defnyddiai'r ffigur hwn a ffigurau diweddarach newidynnau cofnodedig fel nad oedd unrhyw allanolion yn y twf yn dylanwadu'n ormodol ar yr amcangyfrif a bod y ffocws ar y twf ym mherfformiad y cwmni. Ym mhob ffigwr, caiff y perfformiad ei fynegeio fel bod y gwerth yn y flwyddyn sylfaen yn cael ei osod i 100 er mwyn gallu gweld unrhyw wahaniaeth yn haws yn y llwybrau perfformiad maes o law rhwng y grŵp a gafodd gymorth a'r grŵp cymharu. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos cyfnod y cymorth, gyda busnesau wedi'i gael yn ystod y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn sylfaen.

Yn nwy o'r tair blynedd ar ôl y cymorth, nid oedd y canlyniadau yn arwyddocaol yn ystadegol (gan eithrio'r 8.2% o dwf llai tair blynedd ar ôl y cymorth). Roedd cwmnïau a gafodd gymorth SFBE wedi tyfu o ran cyflogaeth 4.8% ym mlwyddyn y cymorth, 7.6% yn yr ail flwyddyn ar ôl y cymorth, a 7.6% dair blynedd ar ôl y cymorth mewn cymhariaeth â'r flwyddyn sylfaen. Ceir gwybodaeth ychwanegol yn Nhabl D1 yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.


**Ffigur 6.1: Effeithiau cyflogaeth darpariaeth SFBE (AP2.3)** [troednodyn 51]




[51] Ibid.

Mae Ffigur 6.2 yn dangos bod y busnesau hynny a gefnogwyd drwy AP2.4 (twf BBaCh) wedi tyfu'n sylweddol fwy yn ystadegol nag yn y grwpiau cymharu. Twf swyddi mewn busnesau lle targedwyd y cymorth at gyflogaeth oedd 10.8% ym mlwyddyn y cymorth, 19.4% yn yr ail flwyddyn ar ôl y cymorth, a 21.2% dair blynedd ar ôl y cymorth. Dangosodd y canlyniadau gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau fod y cwmnïau wedi tyfu 5.7% yn gyflymach na'r grŵp cymharu a ffefrir yn y flwyddyn gymorth, 9.4% yn gyflymach yn yr ail flwyddyn ar ôl cymorth, ac 8.5% yn gyflymach dair blynedd ar ôl y cymorth mewn cymhariaeth â'r flwyddyn sylfaen. Roedd hyn ar gyfartaledd yn ychwanegedd o 47% y cymorth dros y tair blynedd. Rhoddir gwybodaeth ychwanegol yn Nhabl D1 yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

**Ffigur 6.2: Effeithiau cyflogaeth ar ôl cymorth sy'n targedu twf BBaCh (AP2.4)**
**[troednodyn 52]**





Mae Ffigur 6.3 yn dangos bod twf cyflogaeth ar gyfer busnesau a gefnogwyd gan raglen AGP BC yn uwch na'r grwpiau cymharu a'r boblogaeth fusnes ehangach.

[52] Ibid.

Y llinell “cymorth” yw’r mynegai cyflogaeth ar gyfer busnesau a gefnogwyd. I’r rhai a gafodd gymorth drwy raglen AGP BC ERDF, mae twf cyflogaeth cofnodedig [troednodyn 53] yn 17% ym mlwyddyn y cymorth, 31.1% ddwy flynedd wedyn, ac yn 36.6% dair blynedd ar ôl y flwyddyn sylfaen (gweler Tabl D2 yn Atodiad yr adroddiad hwn i gael rhagor o fanylion). Mae’r ffigur yn dangos bod hwn yn dwf cyflogaeth llawer uwch nag mewn busnesau yn y boblogaeth fusnes ehangach. Fel y nodwyd yn flaenorol, fodd bynnag, mae busnesau a gefnogwyd yn wahanol o ran eu natur i’r boblogaeth fusnes ehangach, ac ar ôl paru, defnyddir set o fusnesau sy’n fwy tebyg i’r rhai a gafodd gymorth (a’r gwahanol grwpiau cyfatebol wedi’u cyflwyno). Er bod y grwpiau cyfatebol hefyd yn dangos cyfraddau twf cyson uwch nag yn y boblogaeth fusnes ehangach, mae cyfraddau twf y busnesau a gefnogwyd yn dal yn uwch fyth.

**Ffigur 6.3: Effeithiau cyflogaeth rhaglen cymorth AGP BC ar fusnesau a dargedwyd**




Gellir profi i ba raddau y mae’r cyfraddau twf yn wahanol drwy ddefnyddio gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau (DiD), gan amcangyfrif sut mae newidiadau mewn cyflogaeth yn y rhai a gafodd gymorth a’r rhai gwrthffeithiol (y gwahaniaeth cyntaf) wedyn yn gwahaniaethu


[53] Mae dadansoddi cyflogaeth o ran yr hyn a gofnodwyd yn dangos bod y gostyngiad gros a welwyd mewn cyflogaeth wedi’i ysgogi’n bennaf gan allanolion (*outliers*).

cyn ac ar ôl y cymorth (yr ail wahaniaeth). Mae'r canlyniadau DiD i'w gweld yn Nhabl D2 yn Atodiad yr adroddiad hwn.

### 7.4.1. Effaith cymorth ar drosiant gwirioneddol

Dengys Ffigur 6.4 fod busnesau a gefnogwyd drwy SFBE wedi tyfu'n arafach mewn trosiant gwirioneddol o gymharu â'r grŵp rheoli a ffefrir, gyda'r gwahaniaeth mewn gwahaniaethau yn ystadegol arwyddocaol dair blynedd ar ôl y cymorth. Mae'r twf mewn trosiant gwirioneddol 11.4% yn is ar gyfer y busnesau a gefnogwyd nag ar gyfer y cymaryddion. Tyfodd cwmnïau a gefnogwyd trwy dalebau a gwelliannau rhwydwaith mewn trosiant gwirioneddol o 2.7% ym mlwyddyn y cymorth, 1.6% yn yr ail flwyddyn ar ôl y cymorth, a 4.1% dair blynedd ar ôl y cymorth o gymharu â'r flwyddyn sylfaen. Ceir gwybodaeth ychwanegol yn Nhabl D3 yr Atodiad.

**Ffigur 6.4: Effeithiau trosiant gwirioneddol SFBE (AP2.3) [troednodyn 54]**





Dengys Ffigur 6.5 bod trosiant gwirioneddol wedi tyfu'n sylweddol gyflymach mewn busnesau a gefnogwyd drwy'r Amcan Penodol twf BBaChau (AP2.4) o gymharu â'r grŵp rheoli a ffefrir. Tyfodd trosiant gwirioneddol y busnesau a gefnogwyd o 5.2% ym mlwyddyn y

[54] Ibid.


cymorth, 11.9% yn yr ail flwyddyn ar ôl y cymorth, a 18.1% yn y drydedd flwyddyn ar ôl y cymorth mewn cymhariaeth â'r flwyddyn sylfaen. Tyfodd trosiant gwirioneddol buddiolwyr cymorth twf BBaCh yn gyflymach na'r busnesau cymharu o 5.5% ym mlwyddyn y cymorth, 9.3% yn yr ail flwyddyn ar ôl y cymorth, a 9.3% tair blynedd ar ôl y cymorth o gymharu â'r flwyddyn sylfaen. Roedd ychwanegedd y cymorth ar gyfartaledd yn 78% dros gyfnod y tair blynedd.

**Ffigur 6.5: Effeithiau trosiant gwirioneddol twf BBaCh (AP2.4)**




Mae Ffigur 6.6 yn dangos y twf trosiant gwirioneddol ar gyfer busnesau a gefnogwyd gan raglen AGP BC o'i gymharu â'r grwpiau cymharu a'r boblogaeth fusnes ehangach. Er bod twf trosiant gwirioneddol yn uwch nag yn y ddau grŵp gwrthffeithiol (y grŵp a ffefrir a'r grŵp amgen) a'r sampl busnes, nid oedd y gwahaniaethau y sylwyd arnynt yn arwyddocaol yn ystadegol. Ceir gwybodaeth ychwanegol yn Nhabl D4 yn Atodiad D.

**Ffigur 6.6: Twf trosiant mewn busnesau a gefnogwyd gan AGP BC yn erbyn cymaryddion**




## 7.5. Effaith cymorth ar drosiant gwirioneddol fesul cyflogai (cynhyrchiant gwirioneddol)

Ledled yr holl Amcanion Penodol roedd y grwpiau a gefnogwyd oll wedi gweld gostyngiad mewn cynhyrchiant gwirioneddol; fodd bynnag nid oedd y canfyddiadau yn arwyddocaol yn ystadegol. Mae cynhyrchiant gwirioneddol yn gweld cryn dwf dair blynedd ar ôl y cymorth yn y grŵp a gafodd gymorth, gan awgrymu effaith dal i fyny (gweler Ffigur D1 yn yr Atodiad). Mae’n amlwg bod cynhyrchiant go iawn yn gostwng ar gyfer y rhai a gafodd gymorth a’r rhai ar y BSD ehangach ac yna’n gwella’n araf, a gellid esbonio hyn drwy effaith COVID-19 ar yr economi. Gan fod cynhyrchiant gwirioneddol yn ymwneud â throsiant a chyflogaeth (trosiant fesul cyflogai), a bod y ddau ffactor wedi cynyddu ymhlith derbynwyr Cymorth i BBaChau, yn enwedig ymhlith cyfranogwyr rhaglen AGP BC, ymddengys bod cynhyrchiant gwirioneddol wedi aros yn ddigyfnewid a sefydlog i raddau helaeth.

## 7.6. Crynodeb

- Mae dadansoddiad o’r gwrthffeithiol (CIE) yn nodi bod y busnesau hynny a gymerodd ran yn narpariaeth Cymorth i BBaChau wedi tyfu’n fwy yn ystadegol arwyddocaol nag ymhlith y grwpiau cymharu. Dros dair blynedd o gefnogaeth roedd y busnesau ar gyfartaledd wedi cael 47% o ychwanegedd. Yn yr un modd, nodwyd twf ystadegol arwyddocaol mewn trosiant hefyd ar gyfer y cyfranogwyr hynny yn narpariaeth Cymorth i BBaChau.
- Tyfodd y busnesau hynny a gafodd gymorth SFBE yn arafach o ran cyflogaeth a throsiant ill dau na’r grŵp cymharu.
- Mae cynhyrchiant gwirioneddol yn sefydlog ar y cyfan, ar ôl dangos gostyngiad cychwynnol o gymharu â’r gymhariaeth ar draws holl ddarpariaeth Busnes Cymru, ond gydag ‘effaith dal i fyny’ yn amlwg dair blynedd ar ôl y ddarpariaeth.

# 8. Crynodeb o'r Canfyddiadau ac Argymhellion Allweddol

Mae'r adran hon yn myfyrio ar ganfyddiadau'r ymchwil, gan nodi cyfres o argymhellion i'w hystyried ar gyfer rhaglenni cymorth busnes yn y dyfodol.

## 8.1. Trosolwg

Mae rhaglen Busnes Cymru wedi ennill ei phlwyf fel y prif wasanaeth cymorth i fusnesau yng Nghymru. Fe'i hadwaenir yn eang i fod yn siop un stop i gael gafael ar atebion neu frocera cefnogaeth. Mae'r brand yn adnabyddus ac ymddiriedir ynddo ac mae'r mwyafrif o gyfranogwyr a rhanddeiliaid yn ystyried y gwasanaeth yn rhwydd cael gafael arno a'i ddeall.

Cryfhau wnaeth partneriaethau, cydweithrediadau, a gweithgareddau atgyfeirio wrth i'r rhaglen fynd rhagddi a dywedodd rhanddeiliaid fod hyn wedi gwella'r ddarpariaeth allgymorth yn ogystal â'r ymgysylltu â chymunedau lleol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Roedd yr adolygiad o Hybiau Menter a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn adleisio'r safbwynt hwn wrth nodi'r rôl bwysig sydd gan yr Hybiau wrth ymgysylltu ag entrepreneuriaid na fyddent o reidrwydd wedi ymgysylltu â darpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru. Yn ogystal, cryfhau hefyd wnaeth y cysylltiadau â darpariaethau eraill ar gyfer busnesau sy'n canolbwyntio ar dwf (gan gynnwys yr hyn sy'n gysylltiedig â darpariaeth y Banc Datblygu a SMART). Fodd bynnag, nododd sawl rhanddeiliad y gellid cryfhau'r integreiddio ymhellach.

**Argymhellion**

- Dylai gwybodaeth reoli a gesglir trwy raglenni cymorth yn y dyfodol gofnodi nifer yr achosion o atgyfeirio rhwng gwasanaethau. Byddai hyn yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i ba raddau y mae integreiddio rhwng rhaglenni cymorth amrywiol yn digwydd.
- Dylai cyflenwyr gael eu rheoli o ran perfformiad er mwyn annog atgyfeiriadau priodol rhwng gwasanaethau.

Braidd yn gymysg oedd perfformiad y rhaglen o gymharu â'r targedau cytundebol gwreiddiol. Roedd yr SFBE wedi perfformio'n gryf yn erbyn yr holl ddangosyddion drwy gydol cyfnod y rhaglen. Mae'n amlwg i'r galw am gymorth barhau'n gyson, gan fod yn hynod wydn i'r effeithiau economaidd-gymdeithasol amrywiol a gododd yn ystod cyfnod y rhaglen.

Mae prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau wedi perfformio'n gryf o ran lefelau allforio a chreu swyddi ond wedi cyflawni'n is na'r disgwyl o ran mentrau yn

derbyn cymorth anariannol. Serch hynny, roedd y perfformiad yn erbyn y dangosydd mentrau yn derbyn cymorth anariannol wedi dod o dan ddylanwad y ffaith fod targedau wedi bod yn seiliedig ar berfformiad hanesyddol, a bod amodau macro-economaidd wedi bod yn newidiol, yn ogystal â diffygion mewn tystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â chasglu dangosyddion perfformiad yn ôl-weithredol yn ystod naw mis cyntaf y prosiect.

### 8.1.1. Cyd-destun

Mae llu o ddata economaidd-gymdeithasol yn dangos pwysigrwydd buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau cymorth busnes ac entrepreneuraidd, o ystyried y diffyg mewn cyfraddau cynhyrchiant a gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill y DU. O ran y SFBE, roedd y cymorth a gynigid yn cynrychioli'r cam rhesymegol nesaf wrth ddarparu gwasanaethau yn dilyn y buddsoddiad mewn seilwaith band eang cyflym iawn yn rownd flaenorol Cronfeydd Strwythurol yr UE.

Dros amser, newidiodd y cyd-destun economaidd-gymdeithasol yn sylweddol, a hynny wedi dylanwadu ar berfformiad, a'r siociau allanol a ddylanwadodd fwyaf oedd y rhai a oedd yn gysylltiedig â phandemig COVID-19, Brexit, a'r argyfwng costau byw. Cyn y pandemig, fodd bynnag, arweiniodd y cynnydd yn y farchnad lafur yng Nghymru a'r cyfraddau diweithdra isel at ostyngiad yn y galw am weithgarwch entrepreneuraidd ar sail angen. Yn ei dro, credir bod hyn, ochr yn ochr â chyflwyno'r cynllun Lwfans Menter Newydd, wedi arwain at alw is na'r disgwyl am Gymorth Entrepreneuraidd.

### 8.1.2. Cynnydd

Cafodd y prosiectau eu dylunio a'u lansio fel prosiectau asgwrn cefn strategol yn rhaglen yr ERDF ac, felly, cawsant fudd o fuddsoddiad cynnar a dechrau cynnar. Yn ogystal, mae'n debygol bod eu pennu yn brosiectau asgwrn cefn wedi helpu eu gwreiddio ymhellach yn y dirwedd cymorth busnes. Un o'r heriau o fod yn un o'r cynlluniau cynnar mewn rownd cyllid drwy Gronfeydd Strwythurol yr UE yw'r risg uwch y gallai fod rhai bylchau mewn gwybodaeth, neu rai elfennau ar ofynion tystiolaeth a allai fod yn llai clir. Mae'n bosibl bod hyn wedi dylanwadu ar rai o'r problemau cynnar a gododd yn y rhaglen ynghylch casglu tystiolaeth a oedd yn cydymffurfio â gofynion yr UE.

**Argymhelliad**

- Yn ystod y cam rhoi prosiect ar waith dylid cynnal adolygiad cynnar o brosesau casglu data yn erbyn meini prawf cymhwysedd.

Mae'r modelau darparu gwasanaeth ar gyfer Craidd a Thwf L1 i 4 ar draws prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau yn wahanol i'r hyn a gynigid drwy raglen AGP BC. Roedd angen hyrwyddo gweithredol a pharhaus ar Craidd a Thwf L1 i 4, ynghyd â gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a meithrin lefel uwch o gydweithio ac ymgysylltu â'r gymuned leol dros amser. Roedd SFBE hefyd wedi dibynnu ar frand Busnes Cymru i hybu lefelau ymgysylltu, tra bod rhaglen AGP BC wedi dibynnu'n drymach ar Reolwyr Cysylltiadau i ganfod busnesau addas ar gyfer y rhaglen.

Mae'r ddarpariaeth wedi sicrhau cwmpas cenedlaethol; fodd bynnag, mae'n amlwg bod tuedd i leoliadau gwledig neu ymylol gael eu tangynrychioli yn rhaglen AGP BC. Fodd bynnag, gall y tangynrychioli hwn fod yn symptomatig o natur (o ran sector a chyfeiriadedd twf) y busnesau sy'n gweithredu yn y lleoliadau hynny. Ymhellach, roedd amseriad y cofrestru ym mhob rhaglen yn amrywio. Roedd tri chwarter o gleientiaid AGP BC wedi'u cofrestru yn y rhaglen cyn diwedd 2018, tra mai dim ond 30% o gleientiaid SFBE oedd wedi cofrestru yn y rhaglen erbyn hynny.

Roedd prosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau yn brin yn eu proffil yn erbyn nifer o'u dangosyddion yn y cyfnod cyn y gwerthusiad canol tymor. Fodd bynnag, dangosodd y prosiectau berfformiad cryf mewn perthynas â thwf cyflogaeth a gwerthiannau allforio a chafodd y perfformiad hwnnw ei gynnal i raddau helaeth trwy gydol gweddill y prosiectau (er gwaethaf y problemau yn gysylltiedig â'r pandemig).

Yn dilyn y gwerthusiad canol tymor yn 2018, cynyddodd momentwm y rhaglen hyd at Fawrth 2020 (pan gyrhaeddodd pandemig COVID-19 y DU). Ar yr adeg honno trodd y gwasanaeth yn gyflym ac yn llwyddiannus i gynnig gwasanaeth o bell, wedi'i anelu at wydnwch a chydnerthedd (yn hytrach na thwf). Roedd y newid hwnnw yn y gwasanaeth i ddarpariaeth o bell yn ategu'r addasu a wnaed ar natur y cymorth a ddarparwyd, a oedd ar brydiau yn gofyn rhoi llawer mwy o bwyslais ar gymorth bugeiliol a llesiant.

Mae darpariaeth ar-lein o bell bellach yn cael ei derbyn yn eang gan fusnesau sy'n cymryd rhan ac mae'n ddull mwy effeithlon o ddarparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gall darpariaeth bersonol yn y cnawd fod â rhan allweddol wrth fynd i'r afael â materion penodol a helpu i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i'w cefnogi. Mae'n debygol, felly, y bydd angen cynnig gwasanaeth cyfunol yn narpariaeth y dyfodol.

**Argymhelliad**

- Dylid cadw model gwasanaeth cyfunol mewn rhaglenni cymorth yn y dyfodol oherwydd ei werth yn cynnig hyblygrwydd ac effeithlonrwydd ychwanegol wrth

ddarparu'r gwasanaeth ar yr un pryd hefyd â chadw'r gallu i roi cymorth personol yn y cnawd pan fo'n briodol.

Yn erbyn cefndir o ddiffyg a oedd yn bodoli eisoes yn erbyn eu proffil dangosyddion, arafodd y pandemig gynnydd ym mhrosiectau Cymorth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaChau yn erbyn mwyafrif y dangosyddion, gan ddylanwadu ymhellach ar y gwahaniaethau mewn perfformiad yn erbyn targedau'r proffil.

Cyfeiriodd rhanddeiliaid at y targedau cychwynnol fel rhai heriol, ac ambell un yn eu disgrifio fel rhai rhy uchelgeisiol. Deellir bod perfformiad hanesyddol wedi dylanwadu ar osod dangosyddion targed, ond gyda rhaglenni'r dyfodol yn seiliedig ar fodel cyflenwi tebyg (er yn gyfunol), bydd hi'n bwysig gosod targedau yn erbyn cyd-destun perfformiad camau olaf y rhaglen hon.

**Argymhelliad**

- Mewn rhaglenni yn y dyfodol pan ddefnyddir dangosyddion perfformiad cyson, dylid defnyddio'r cynnydd yng nghamau olaf y rhaglen hon wrth lywio'r gwaith o osod targedau.

Roedd y perfformiad cynnar yn erbyn dangosyddion themâu trawsbynciol yn wael ac ar adeg y gwerthusiad canol tymor roedd y rhaglen yn gweithredu ar ffracsiwn o'r proffil a ragwelwyd yn erbyn y dangosyddion hyn. Ers y pandemig, fodd bynnag, bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn erbyn dangosyddion themâu trawsbynciol. Adlewyrchai hyn weithgarwch wedi'i dargedu i ymwreiddio hyn yn fwy canolog yn y ddarpariaeth gwasanaeth, gan arwain at bron i ddwy ran o dair o'r holl fentrau cyfranogol yn cyfrannu at ddangosyddion targed themâu trawsbynciol yn 2022 (o gymharu â llai nag un o bob pump o'r mentrau cyfranogol yn 2016).

**Argymhelliad**

- Mewn cymorth yn y dyfodol, dylid cadw ac adeiladu ar yr arferion da sy'n gysylltiedig ag integreiddio effeithiol ar ddarpariaeth a gyfrannodd at ddangosyddion themâu trawsbynciol. Ni ddylai colli cyllid yr UE ac, felly, y gofynion ar gyfer cyfrannu at themâu trawsbynciol, arwain at wyro oddi wrth y gweithgarwch hwn.

Nid yw'r symud mwy cyffredinol yn y gwasanaeth at gyflawni targedau wedi bod heb bryder, gyda rhai rhanddeiliaid yn nodi'r tensiwn y gallai hyn ei greu rhwng cyflawni dangosyddion targed (yn enwedig y dangosyddion hynny sy'n gysylltiedig ag oriau cymorth) a darparu cymorth sy'n adlewyrchu anghenion cleientiaid.

**Argymhelliad**

- Dylid rhoi llai o bwyslais ar ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar brosesau (megis cyrraedd trothwy yn hyd cyfnod y cymorth a roddir) mewn rhaglenni yn y dyfodol.

### 8.1.3. Barn am y cymorth

Yn yr arolwg i gyfranogwyr, gwelwyd cyfraddau cymharol uchel o fodlonrwydd ymhlith y busnesau a ymatebodd, a theimlid bod y daith tuag at y ddarpariaeth yn arbennig o syml. Roedd y model gor-syml hwn o safbwynt y cwsmer yn amcan allweddol gan Busnes Cymru (gyda phwyslais ar guddio'r cymhlethdod y tu ôl i'r gwahanol gontractau) ac ymddengys ei fod wedi'i gyflawni'n llwyddiannus.

Fodd bynnag, roedd barn groes iawn i'w gilydd ar y cymorth yn amlwg ymhlith rhai cyfranogwyr. Dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr a holwyd y rhagorwyd ar eu disgwyliadau. Fodd bynnag, dywedodd bron i un o bob pump o'r rhai a gafodd Gymorth i BBaChau eu bod yn anfodlon â'r ffordd y darparwyd y cymorth. Mae dadansoddi hyd y cymorth yn awgrymu cydberthynas rhwng faint o gymorth a roddwyd a lefel y bodlonrwydd â'r cymorth hwnnw. Er ei bod yn debygol bod cleientiaid a oedd yn anfodlon â'r gwasanaeth yn fwy tebygol o fod wedi tynnu'n ôl o'r cymorth yn gynnar, eto prif ddylanwad ar anfodlonrwydd cyfranogwyr oedd pryderon ynghylch diffyg cyfathrebu dilynol â chleientiaid ar ôl cael cymorth.

**Argymhelliad**

- Mae angen i raglenni'r dyfodol sicrhau neges eglur ynghylch natur y cymorth sydd ar gael tra hefyd ar yr un pryd reoli disgwyliadau ymhlith y grŵp cleientiaid o ran hyd y cymorth y gallent ei gael.

### 8.1.4. Canlyniadau ac effaith

#### Rhaglen Craidd a Thwf L1 i 4 a rhaglen AGP BC

Mae Craidd a Thwf L1 i 4 a rhaglen Cyflymu Twf (AGP) BC wedi arwain at lefelau da o greu swyddi, a hynny o fewn y dangosyddion targed a gofnodwyd a'r gwerthusiad gwrthffeithiol (CIE). Yn ôl data BAS, roedd 70% o'r mentrau yn Craidd a Thwf L1 i 4 neu raglen AGP BC wedi creu cyflogaeth ers cael y cymorth. Mae'r rhaglen hefyd yn cynrychioli gwerth da am arian ar sail cost-effeithiolrwydd wrth gyfrifo'r gost fesul swydd a grëwyd ymhlith busnesau a gefnogwyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai is na'r disgwyl oedd nifer y busnesau eu hunain a oedd wedi priodoli swyddi drwy'r arolwg.

Mae cyflogau FTE y swyddi a grëwyd wedi gostwng ymhlith y busnesau hynny a gofrestrodd ym mlynyddoedd olaf y rhaglen. Er bod hyn yn debygol o fod dan ddylanwad

proffil y busnesau a oedd yn ymgysylltu â chymorth (gyda mentrau oedd â 0 i 1 o weithwyr yn dod yn fwyfwy cyffredin yn y rhaglen bob blwyddyn), mae'r patrwm yn parhau pan roddir cyfrif am faint y busnes. Mae cyflogaeth yn dod ag ystod o fanteision economaidd a llesiant. Mewn ymchwil yn y dyfodol byddai'n ddefnyddiol cael cipolwg ychwanegol ar y swyddi a grëwyd gan gynnwys oriau a sicrwydd cytundebol y rolau hynny ac a yw unigolion a oedd yn ddi-waith yn flaenorol wedi mynd i'r swyddi hynny ai peidio. Byddai hynny'n help i roi rhagor o eglurder ynghylch gwerth ychwanegol y swyddi hynny a grëwyd yn erbyn patrwm o gyflogau sy'n gostwng sydd, ar yr wyneb, yn awgrymu gostyngiad mewn cynhyrchiant fesul swydd a grëwyd ac yn ansawdd y swyddi hynny.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr a gafodd Gymorth Entrepreneuriaeth wedi dechrau busnes ar ôl cael y cymorth hwnnw. Heb y cymorth, ni fyddai 16% ohonynt wedi sefydlu busnes, tra bod 3% arall yn ansicr a fyddent wedi gwneud hynny ai peidio.

Disgrifiodd tua hanner yr ymatebwyr i'r arolwg gynnydd mewn cynhyrchiant, gwerthiant a phroffidioldeb o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth. Ymhellach, roedd bron i draean o'r rheiny a oedd yn rhan o Gymorth Entrepreneuriaeth wedi dweud bod y cymorth wedi gwneud cyfraniad hanfodol tuag at berfformiad eu busnes. Mae'r rhain yn ddangosyddion canlyniadau cryf sy'n dangos gwerth yn y cymorth nad yw'n cael ei godi drwy ddangosyddion yr ERDF.

Er yr ymddengys bod twf mewn gwerthiannau yn gryf ar gyfer darpariaeth Cymorth i BBaChau, roedd dangosyddion cynhyrchiant wrth gymharu â'r grŵp cymhariaeth yn llai cryf (er bod effaith dal i fyny yn amlwg dair blynedd ar ôl y cymorth). Mae'n bosibl bod y diffyg pwyslais yn y dangosyddion targed ar dwf gwerthiannau neu gynhyrchiant domestig wedi dylanwadu ar y canlyniad hwn.

#### 8.1.5. Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE)

Y dangosydd canlyniad allweddol ar gyfer prosiect SFBE yw nifer y mentrau a gefnogwyd i gyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni. Rhagorodd y prosiect ar y targed yn erbyn y dangosydd hwn gan eu cyflawni'n fwy cost-effeithiol na'r targed a osodwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol. Ymhellach, ar gyfartaledd, roedd pob busnes a gefnogwyd gan SFBE wedi mabwysiadu 2.3 cynnyrch newydd i'r cwmni sy'n dangos llwyddiant y prosiect yn erbyn y dangosydd targed hwn.

O ddadansoddi natur y cynnyrch newydd a gyflwynwyd i'r cwmnïau, gwelir bod bron i un o bob pump (19%) yn cael eu hystyried yn gynnyrch technoleg uchel tra bod 16% arall yn cael eu hystyried yn gynnyrch technoleg ganolig. Yn fwy cyffredinol, ar gyfer busnesau ar draws

y rhan fwyaf o'r sectorau diwydiannol, roedd dros hanner y cynnyrch newydd a gyflwynwyd yn ddatrysiad technoleg uchel neu ganolig.[troednodyn 55]

Ychydig iawn o effaith y mae'r gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (CIE) yn ei awgrymu a gafwyd ar dwf cyflogaeth y rhai a gafodd gymorth SFBE. Mae hyn yn debygol o ymwneud â'r ffaith nad oedd darpariaeth SFBE erioed wedi'i bwriadu i gyflawni canlyniadau swyddi. Roedd y prif ddeilliannau a ddisgwylid ar gyfer y cymorth hwn yn ymwneud â chynhyrchiant ac enillion effeithlonrwydd, yn wir teimlai 85% o ymatebwyr yr arolwg fod y cymorth wedi gwneud o leiaf rhywfaint o gyfraniad i berfformiad eu busnes tra bod 59% yn adrodd am gynnydd mewn cynhyrchiant yn eu busnes. Ymhellach, mae'n debygol y byddai pwyslais cysylltiedig cymorth SFBE ar gyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni yn gweld oedi rhwng eu cyflwyno ac unrhyw newidiadau diriaethol mewn gwerthiant a chyflogaeth i'w cynnwys yn y CIE.

**Argymhellion**

- Dylid sicrhau bod ystod ehangach o ddeilliannau targed/dangosyddion canlyniad yn gysylltiedig â menter sy'n rhoi cymorth i fusnesau. Byddai hyn yn galluogi prosiectau (mentrau) i dargedu a chipio'r dangosyddion canlyniad hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cymorth a gynigir.
- Dylid ystyried rhoi mwy o bwyslais ar gynhyrchu gwerthiannau ac enillion cynhyrchiant ymhlith cyfres o ddangosyddion targed yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth cymorth i fusnesau sy'n canolbwyntio ar dwf.

### 8.1.6. Darpariaeth yn y dyfodol

Mae'r pandemig yn parhau i ddylanwadu ar berfformiad busnes, gyda dros hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn dweud ei fod wedi effeithio ar eu helw i raddau helaeth yn eu blwyddyn ariannol ddiwethaf.

**Argymhelliad**

- Dylai darpariaeth cymorth yn y dyfodol barhau i ganolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynnwys elfennau sy'n cefnogi busnesau i adfer ar ôl yr economi newidiol a ddeilliodd o bandemig COVID-19 ac i addasu i'r economi hwnnw.

---

[55] Mae cynnyrch technoleg uchel yn cynnwys technolegau cwmwl, rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, Diogelwch TG/gwrthfaleiswedd, caledwedd neu feddalwedd arbenigol (pwrpasol) a chyfathrebu Unedig. Mae technoleg ganolig yn cynnwys datrysiadau archebu ar-lein, meddalwedd rheoli dogfennau/rhannu ffeiliau, taliad electronig/cerdyn, seilwaith gweinydd.

Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'n eang gyllid pellach ar gyfer Busnes Cymru. Maent yn ei ystyried yn elfen hollbwysig yn y dirwedd cymorth busnes yng Nghymru ac yn ffynhonnell adnabyddus y gellir ymddiried ynddi i gael cyngor diduedd yn y gymuned fusnes. Canmolwyd yn fawr ei hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion busnes dros gyfnod economaidd-gymdeithasol cythryblus, ond mae pryderon a fydd y gallu hwnnw i newid ac ymateb i argyfyngau yn y dyfodol yn parhau heb adnoddau ychwanegol.

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn destun pryder i'r rhan fwyaf o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Mae Busnes Cymru wedi symleiddio'r dirwedd cymorth busnes, ond cred rhanddeiliaid yn eang y gallai'r UKSPF arwain at gynnig cymorth busnes a fyddai'n fwyfwy cymhleth, darniog ac anghyson.

**Argymhelliad**

- Bydd angen gwaith helaeth gydag awdurdodau lleol a chymunedau i feithrin perthnasoedd cryf a rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau aliniad llwyddiannus rhwng darpariaeth Busnes Cymru a'r hyn a ddaw i'r fei drwy UKSPF.

# 9. Adran Cyfeiriadau

Bryer, H a Munday, M (2016) Cam 2 Gwerthusiad terfynol y prosiectau Ymgysylltu â Chwsmeriaid a Chymorth Dechrau Busnes Newydd (Busnes Cymru), Llywodraeth Cymru.

Bryer, N (2022) Adolygiad o hybiau menter gwasanaethau cymorth entrepreneuraidd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Cymru.

Etic Lab (2023) Project Datblygu Band Llydan Cyflym Iawn i Fusnesau: Arolwg Aeddfedrwydd Digidol ar gyfer Cymru 2023, Llywodraeth Cymru.

Guilford, G (2013) Adolygiad Annibynnol o'r Trefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020, WEFO, Caerdydd.

Ofcom (2013) Infrastructure report – 2013 Update [cynnwys wedi'i archifo] Archif We Llywodraeth y DU - Yr Archifau Gwladol (aethpwyd iddo Mai 2023).

Uned Ymchwil i Economi Cymru (2020) Arolwg Aeddfedrwydd Digidol Cymru ar gyfer 2020, yr arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau Busnes Cymru

Wavehill (2023) Gwerthusiad o 'Gymorth Busnes' yr ERDF, Llywodraeth Cymru European Regional Development Fund support for business evaluation: final report | GOV.WALES

Zaidi, A Shah, P a Beadle, S (2018) Gwerthusiad o Wasanaethau Cymorth Busnes yng Nghymru: adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

# Atodiad A

**Newidynnau data o’r Gronfa Ddata Strwythur Busnesau (BAS)**

- Rhanbarth
- Rhaglen rhoi cymorth (BBaCh/Entrepreneuriaeth) a L1 i 4 neu Gyflymu Twf
- Rhif Cofrestru’r Cwmni
- Lleoliad (cod post, awdurdod lleol/unedol)
- Sector (SIC dau ddigid)
- Maint (nifer y cyflogeion)
- Dyddiad y cafwyd y cymorth
- Mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywioldeb
- Mabwysiadu neu wella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro
- Cynnydd yn y lefel allforio
- Cynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gefnogwyd (yn ôl rhyw)
- Cyflogau FTE y cynnydd mewn cyflogaeth
- Oriau a ddilyswyd cyn dechrau ac ar ôl dechrau

# Atodiad B

**Rhestr rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw**

Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol fel rhan o'r gwerthusiad:

- Anabledd Cymru
- Antur Cymru
- Assadaqaat Community Finance
- Banc Datblygu Cymru
- Busnes mewn Ffocws
- Catalyst Growth Partners
- Coleg Penybont
- Cwmpas
- Cynrychiolwyr awdurdodau lleol (tri)
- Diwydiant Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Hwb Entrepreneuraidd Nat West
- Impact Innovation & Growth Services Ltd
- Llywodraeth Cymru
- Menter a Busnes
- Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (dau)
- Prifysgol Abertawe
- Serco
- Something Different Wholesale
- Winning Pitch

# Atodiad C

## Offer Ymchwilio

### 1. Cwestiynau ar gyfer trafodaeth

Cyflwyniad/cyd-destun

- Amlinellwch beth yw eich rôl wrth reoli/darparu gwasanaethau Busnes Cymru.
- Sut (os o gwbl) y mae eich rôl ar gontract presennol Busnes Cymru wedi esblygu dros amser?

Model Cyflenwi

Ymgysylltu

- Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo Busnes Cymru?
    - Yn eich barn chi/hyd y gwyddoch pa mor llwyddiannus fu'r rhain?
- Pa lwybrau atgyfeirio (os o gwbl) sydd wedi bod yn llwybrau allweddol i ymgysylltu â darpariaeth Busnes Cymru?
- Pa weithgareddau hyrwyddo a ddefnyddir, os o gwbl, i ymgysylltu/cofrestru busnesau/entrepreneuriaid â Busnes Cymru?
- Sut (os o gwbl) y mae'r dulliau hyn wedi newid dros amser ac yn enwedig ers pandemig COVID-19?

Cymorth

- Sut y câi anghenion cymorth y busnesau eu pennu?
    - Sut mae anghenion cymorth wedi newid dros amser?
    - Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y mae pandemig COVID-19 wedi dylanwadu ar anghenion cymorth?
    - Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y mae'r argyfwng costau byw wedi dylanwadu ar anghenion cymorth?
- Pa fathau o gymorth/gweithgareddau sy'n cael eu darparu i fusnesau (cyfwelydd i gadarnhau pa brosiect y mae'r rhain yn gysylltiedig ag ef ac os mai Busnes Cymru ai 1-4 neu AGP)
    - Pa rai o'r rhain gafodd eu cynnal un-i-un a pha rai un i lawer?
- Sut mae'r dull o ddarparu'r cymorth wedi newid dros amser (ers 2018) ac yn enwedig ers pandemig COVID-19?
- Am ba mor hir y mae busnesau fel arfer yn ymgysylltu â'r cymorth?
    - Sut mae hyn yn amrywio yn ôl y math o ymyriad y mae'r busnes yn ei gael?
- Yn fras, pa mor hir (mewn oriau) yw'r cymorth y maent yn ei gael yn ystod yr amser hwnnw?
    - Yn fras, pa gyfran o hyn a roddir un-i-un
- Sut mae busnesau yn gadael y prosiect? – Sut y penderfynir nad oes angen rhagor o gymorth arnynt?

- Pa rwystrau neu heriau i ddarparu cymorth ydych chi wedi'u hwynebu?
    - Sut (os o gwbl) y cafodd y rhain eu goresgyn?
- Ym mha sefyllfaoedd ac at ba brosiectau/sefydliadau eraill y byddech yn cyfeirio busnesau am gymorth ychwanegol?

Themâu Trawsbynciol

- Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo cyflawni canlyniadau sy'n gysylltiedig â Themâu Trawsbynciol drwy'r prosiect? Rhowch sylwadau ar wahân ar y canlynol:
- Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd a'r Iaith Gymraeg; (gan gynnwys arferion a gweithdrefnau Adnoddau Dynol, recriwtio etc.)
- Datblygu Cynaliadwy; (gan gynnwys effeithiolrwydd adnoddau / lleihau carbon, rheoli gwastraff etc.)
- Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol. (Gan gynnwys cyflog byw, gweithredu wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol etc.)
- A ddefnyddiwyd y Pecyn Cymorth ar gyfer Dyfodol Busnes gyda busnesau a gymerodd ran yn y gwasanaeth a ddarparwyd gennych chi/eich tîm?
- (Os do) Pa mor ddefnyddiol yw'r pecyn cymorth i fusnesau? (Pam ydych chi'n dweud hynny)
- Ym mha ffyrdd y gellid gwella'r defnydd o'r pecyn cymorth?
- Ym mha ffyrdd y mae rhaglen gymorth Busnes Cymru wedi cyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

Effeithiau

- Beth yn eich barn chi yw prif effeithiau'r cymorth (y tu hwnt i unrhyw ddangosyddion targed)?
- A fu unrhyw effeithiau neu ganlyniadau annisgwyl i'r prosiect, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol?

Adfyfyrio

- Wrth adfyfyrio ar y prosiect, pa wersi a ddysgwyd:
    - Beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda a pham?
    - Beth oedd ddim wedi gweithio gystal a pham?
- Gan adfyfyrio'n ehangach ar natur y cymorth sydd ei angen ar fusnesau, beth fyddai eich prif argymhellion ar gyfer mentrau cymorth busnes yn y dyfodol?

## 2. Cyfweliadau â Rhanddeiliaid – Cynrychiolwyr Strategol

Cwestiynau ar gyfer trafodaeth

- A fyddech gystal ag amlinellu eich rôl/rôl eich sefydliad ac yn arbennig sut y mae'n berthnasol i ddarpariaeth cymorth busnes wedi'i ariannu gan ERDF yng Nghymru?
- Pa elfennau o gymorth busnes Busnes Cymru y byddech chi'n disgrifio eich hun i fod yn gyfarwydd â nhw?
- Yn gyffredinol (a heb gynnwys unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â'r pandemig) sut ydych chi'n meddwl y mae'r elfennau hynny rydych chi'n fwyaf cyfarwydd â nhw wedi perfformio ers 2018?
- Hyd y gwyddoch chi, a fu unrhyw wahaniaethau amlwg mewn perfformiad wrth gymharu rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) ag un Dwyrain Cymru (DC)?
- Hyd y gwyddoch chi, a fu unrhyw wahaniaethau amlwg o ran cynnydd a llwyddiant wrth fyfyrio ar wahanol feysydd y gwasanaethau a gynigir? Wrth sôn am feysydd rydym yn golygu'r canlynol:
    - Cymorth Entrepreneuriaeth
    - Cymorth i BBaChau (L1 i 4)
    - Rhaglen Cyflymu Twf
    - Band eang cyflym iawn
- Ac eithrio'r materion a gododd o bandemig COVID-19, hyd y gwyddoch chi, ym mha ffyrdd y mae rhaglenni Busnes Cymru wedi addasu i'r cyd-destun economaidd newidiol ar gyfer busnesau (mewn ymateb i Brexit neu bwysau chwyddiant er enghraifft) ?
    - Yn eich barn chi pa mor llwyddiannus fu'r addasiadau hyn?
- O'ch safbwynt chi, pa effaith gafodd COVID-19 ar natur y cymorth a ddarparwyd i fusnesau?
- Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu unrhyw addasiadau i gymorth mewn ymateb i'r pandemig?
- A sut, os o gwbl, yr effeithiodd pandemig COVID-19 ar gynnydd rhaglenni cymorth Busnes Cymru?
- Beth yw cryfderau allweddol y rhaglenni hyn yn eich barn chi?
- Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y gellid gwella'r cymorth a gynigir drwy'r rhaglenni hyn?
- Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y mae'r cynnig hwn gan Busnes Cymru yn integreiddio ac yn cyd-fynd â darpariaeth cymorth busnes arall (e.e. rhaglen SMART, Banc Datblygu Cymru)?
- A oes unrhyw ffyrdd y gellid gwella integreiddio o gwbl?

- Yn sgil colli cyllid yr UE a newid i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, pa gyfleoedd a heriau ar gyfer integreiddio cymorth busnes ydych chi'n eu rhagweld?
- Sut, o'ch safbwynt chi, y gellid goresgyn unrhyw heriau (os oes rhai)?
- O'ch safbwynt chi, sut, os o gwbl, y mae anghenion cymorth busnes yng Nghymru wedi newid ers y gwerthusiad canol tymor yn 2018?
- Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y mae Busnes Cymru wedi ymateb i'r anghenion newidiol hyn?
- Yn eich barn chi, beth yw'r dysgu allweddol o raglen Busnes Cymru?
- Gan feddwl yn ehangach am natur y cymorth sydd ei angen ar fusnesau, beth fyddai eich prif argymhellion i wella cymorth i fusnesau yn y dyfodol?

# Atodiad D

Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith - Setiau Data Ychwanegol

**Tabl D1: Amcangyfrifon o effeithiau cyflogaeth ychwanegol – SFBE a Chymorth i BBaChau**

| **Buddiolwyr ERDF Cymru** | | **Model a ffefrir** | | **Model Amgen** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **SFBE** | **Twf** | **Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau** | **Ychwanegedd** | **Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau** | **Ychwanegedd** |
| Blwyddyn y cymorth | 4.8% | -0.4%<br>(0.19) | 0% o'r twf yn ychwanegol | -1.7%<br>(0.89) | 0% o'r twf yn ychwanegol |
| 2 flynedd o'r flwyddyn sylfaen | 7.6% | -2.2%<br>(0.76) | 0% o'r twf yn ychwanegol | -4.5%<br>(1.52) | 0% o'r twf yn ychwanegol |
| 3 blynedd o'r flwyddyn sylfaen | 7.6% | -8.2%<br>(2.18) | 0% o'r twf yn ychwanegol | -6.6%<br>(1.73) | 0% o'r twf yn ychwanegol |
| **Cymorth i BBaChau** | **Twf** | **Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau** | **Ychwanegedd** | **Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau** | **Ychwanegedd** |
| Blwyddyn y cymorth | 10.8% | 5.7%<br>(3.91**) | 53% o'r twf yn ychwanegol | 5.5%<br>(3.75**) | 51% o'r twf yn ychwanegol |
| 2 flynedd o'r flwyddyn sylfaen | 19.0% | 9.4%<br>(4.15**) | 49% o'r twf yn ychwanegol | 10.0%<br>(4.65**) | 53% o'r twf yn ychwanegol |
| 3 blynedd o'r flwyddyn sylfaen | 21.2% | 8.5%<br>(2.79**) | 40% o'r twf yn ychwanegol | 7.6%<br>(5.67**) | 36% o'r twf yn ychwanegol |


Sylwer: Y lefelau arwyddocâd yw 1% (**) a 5% (*); cyflwynir ystadegau T mewn cromfachau gan ddefnyddio gwallau safonol cadarn. Mae'r gwahaniaeth mewn gwahaniaethau yn cael ei drin fel rheolaeth negyddol.

**Tabl D2: Amcangyfrifon o effeithiau cyflogaeth ychwanegol – rhaglen AGP BC**

| Twf Cyflogaeth | Twf yn y rhai a gefnogwyd | Model a ffefrir | Model Amgen | Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau | Amcangyfrif ychwanegedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn y cymorth** | 17.0% | 11.8% | 8.1% | 5.2%<br>(2.29**) | 31% |
| **2 flynedd ar ôl y cymorth** | 31.1% | 25.9% | 12.0% | 5.2%<br>(2.99***) | 17% |
| **3 blynedd ar ôl y cymorth** | 36.6% | 23.8% | 16.5% | 12.8% (2.51**) | 35% |

Sylwer: Y lefelau arwyddocâd yw 1% (***), 5% (**), a 10% (*). Cyflwynir ystadegau T mewn cromfachau gan ddefnyddio gwallau safonol cadarn. Mae’r gwahaniaeth mewn gwahaniaethau yn cael ei drin fel rheolaeth negyddol.

**Ffigur D1: Newid cynhyrchiant gwirioneddol ar gyfer SFBE a Chymorth i BBaChau gyda’i gilydd**



## Tabl D3: Ychwanegedd trosiant gwirioneddol – Cymorth i BBaChau a SFBE

| **Buddiolwyr ERDF Cymru** | | **Model a ffefrir** | | **Model Amgen** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AP2.3 – SFBE** | **Twf** | **Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau** | **Ychwanegedd** | **Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau** | **Ychwanegedd** |
| Blwyddyn y cymorth | 2.7% | -0.9%<br><br>(0.33) | 0% o'r twf yn ychwanegol | 2.3%<br><br>(0.89) | 85% o'r twf yn ychwanegol |
| 2 flynedd o'r flwyddyn sylfaen | 1.6% | -7.2%<br><br>(1.80) | 0% o'r twf yn ychwanegol | -2.0%<br><br>(0.55) | 0% o'r twf yn ychwanegol |
| 3 blynedd o'r flwyddyn sylfaen | 4.1% | -11.4%<br><br>(2.12*) | 0% o'r twf yn ychwanegol | -0.9%<br><br>(0.20) | 0% o'r twf yn ychwanegol |
| **AP2.4 – Cymorth i BBaChau** | **Twf** | **Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau** | **Ychwanegedd** | **Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau** | **Ychwanegedd** |
| Blwyddyn y cymorth | 5.2% | 5.5%<br><br>(3.00***) | 104% o'r twf yn ychwanegol | 5.4%<br><br>(3.12***) | 104% o'r twf yn ychwanegol |
| 2 flynedd o'r flwyddyn sylfaen | 11.9% | 9.3%<br><br>(3.38***) | 78% o'r twf yn ychwanegol | 11.1%<br><br>(4.08***) | 93% o'r twf yn ychwanegol |
| 3 blynedd o'r flwyddyn sylfaen | 18.1% | 9.3%<br><br>(2.51**) | 51% o'r twf yn ychwanegol | 14.9%<br><br>(4.13***) | 82% o'r twf yn ychwanegol |
| Sylwer: Y lefelau arwyddocâd yw 1% (***), 5% (**), a 10% (*). Cyflwynir ystadegau T mewn cromfachau gan ddefnyddio gwallau safonol cadarn. Mae'r gwahaniaeth mewn gwahaniaethau yn cael ei drin fel rheolaeth negyddol. | | | | | |

**Tabl D4: Ychwanegedd trosiant gwirioneddol – rhaglen AGP BC**

| Twf trosiant gwirioneddol | Twf yn y rhai a gefnogwyd | Twf yn y model a ffefrir nas cefnogwyd | Model Amgen | Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau | Amcangyfrifon ychwanegedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn y cymorth** | 9.4% | 0.9% | 5.3% | 8.6%<br>(0.74) | 91% |
| **2 flynedd ar ôl y cymorth** | 21.6% | 16.1% | 10.9% | 5.5%<br>(1.09) | 26% |
| **3 blynedd ar ôl y cymorth** | 31.0% | 24.1% | 11.1% | 6.9%<br>(1.73) | 22% |

Sylwer: Y lefelau arwyddocâd yw 1% (**) a 5% (*); cyflwynir ystadegau T mewn cromfachau gan ddefnyddio gwallau safonol cadarn.

Mae canlyniadau gwahaniaeth-mewn-gwahaniaeth yn dangos bod y busnesau a gefnogwyd gan raglen AGP BC ERDF yng Nghymru wedi gweld twf trosiant gwirioneddol sy’n uwch na’r grwpiau cymharu. Nid oedd y canlyniadau yn arwyddocaol yn ystadegol.